- 9.2.1. Considering all of the above factors together, there is a compelling case in the public interest for the CA powers sought in respect of the CA land shown on the Land Plans. I conclude that the Proposed Development would comply with s122(2) and s122(3) of PA2008.

9.3. RECOMMENDATION

- 9.3.1. For all of the above reasons and in the light of my findings and conclusions on important and relevant matters set out in the report, I conclude that the case for the development has been made and that development consent should be given through a DCO in the form attached at Appendix D.

APPENDIX A: THE EXAMINATION

APPENDIX B: EXAMINATION LIBRARY

APPENDIX C: LIST OF ABBREVIATIONS

APPENDIX D: THE RECOMMENDED DCO



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Deddf Cynllunio 2008

Prosiect Pŵer Abergelli

Adroddiad yr Awdurdod Archwilio
ar Ganfyddiadau a Chasgliadau

a'r

Argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros
Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

Awdurdod Archwilio

Martin Broderick BSc MPhil FIEMA

10 Gorffennaf 2019

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

TROSOLWG

Cyf y Ffeil: EN010069

Gwnaed y cais, dyddiedig 25 Mai 2018, o dan adran 37 Deddf Cynllunio 2008 ac fe'i derbyniwyd yn llawn gan yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) ar 25 Mai 2018.

Yr Ymgeisydd yw Abergelli Power Limited (sydd wedi'i gorffori yng Nghymru a Lloegr â rhif 05562053).

Derbyniwyd y cais i'w archwilio ar 21 Mehefin 2018.

Dechreuodd yr archwiliad o'r cais ar 10 Hydref 2018 ac fe'i cwblhawyd ar 10 Ebrill 2019.

Mae'r datblygiad a gynigir yn cynnwys gorsaf cynhyrchu pŵer brig (yr "Orsaf Cynhyrchu Pŵer") Tyrbin Nwy Cylch Agored (OCGT) a chysylltiadau newydd â'r rhwydweithiau nwy a thrydan ar dir gerllaw Gorsaf Cywasgydd Nwy Felindre yn Fferm Abergelli, Felindre, Abertawe SA5 7NN (y "Prosiect").

Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn golygu bod angen cysylltiad â'r system trosglwyddo nwy a chysylltiad trydanol i ddosbarthu i'r rhwydwaith. Nid yw datblygu'r cysylltiadau hyn yn rhan o'r cais. Fodd bynnag, mae'r cais yn cynnwys darpariaeth yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar gyfer Caffael Gorfodol (CA) a/neu Feddiant Dros Dro (TP) mewn perthynas â thir ar gyfer alinio cysylltiad trydanol a phwerau cysylltiedig i hwyluso'r datblygiad.

Crynodeb o'r Argymhelliad:

Mae'r Awdurdod Archwilio yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y Gorchymyn ar y ffurf atodedig.

TABL CYNNWYS YR ADRODDIAD

1.	CYFLWYNIAD	1
1.1.	CYFLWYNIAD I'R ARCHWILIAD	1
1.2.	PENODI'R AWDURDOD ARCHWILIO.....	2
1.3.	YR UNIGOLION A FU'N RHAN O'R ARCHWILIAD	2
1.4.	YR ARCHWILIAD A PHENDERFYNIADAU GWEITHDREFNOL	2
1.5.	ASESU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL.....	8
1.6.	ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD	8
1.7.	YMGYMERIADAU, RHWYMEDIGAETHAU A CHYTUNDEBAU.....	8
1.8.	CYDSYNIADAU ERAILL	9
1.9.	STRWYTHUR YR ADRODDIAD HWN	11
2.	Y CYNNIG A'R SAFLE	12
2.1.	Y CAIS FEL Y'I GWNAED.....	12
2.2.	Y CAIS FEL Y'I HARCHWILIWD.....	17
2.3.	HANES CYNLLUNIO PERTHNASOL	19
3.	CYD-DESTUN CYFREITHIOL A PHOLISI	22
3.1.	CYFLWYNIAD	22
3.2.	DEDDF CYNLLUNIO 2008.....	22
3.3.	DATGANIADAU POLISI CENEDLAETHOL	23
3.4.	DEDDFWRIAETH, POLISI A CHANLLAWIAU SY'N BERTHNASOL I GYMRU	25
3.5.	CYFRAITH EWROPEAIDD A RHEOLIADAU CYSYLLTIEDIG Y DEYRNAS UNEDIG.....	29
3.6.	DARPARIAETHAU CYFREITHIOL ERAILL.....	33
3.7.	GORCHMYNION CANIATÂD DATBLYGU A WNAED.....	36
3.8.	EFFEITHIAU TRAWSFFINIOL	36
3.9.	DATGANIADAU POLISI ERAILL PERTHNASOL	37
3.10.	ADRODDIADAU AR YR EFFAITH LEOL	37
3.11.	Y CYNLLUN DATBLYGU.....	37
3.12.	PWERAU'R YSGRIFENNYDD GWLADOL I WNEUD DCO.....	39
4.	Y MATERION CYNLLUNIO	40
4.1.	CYFLWYNIAD	40
4.2.	Y PRIF FATERION YN YR ARCHWILIAD	40
4.3.	MATERION A GODODD MEWN CYFLWYNIADAU YSGRIFENEDIG A LLAFAR	40
4.4.	MATERION SY'N CODI YN YR ADRODDIAD AR YR EFFAITH LEOL	41
4.5.	CYDYMFFURFIO Â DATGANIADAU POLISI CENEDLAETHOL	42
4.6.	CYDYMFFURFIO Â CHYNLLUN DATBLYGU LLEOL CCS.....	43
4.7.	Y GYFUNDREFN TRWYDDEDU AMGYLCHEDDOL	44
4.8.	YR ANGEN AM Y DATBLYGIAD A DEWISIADAU AMGEN	45
4.9.	ASESU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL.....	46
4.10.	ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD	48
4.11.	MATERION EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL	48
4.12.	EFFEITHIAU TIRWEDDOL A GWELEDOL.....	49

4.13.	DYLUNIO	53
4.14.	ANSAWDD AER.....	54
4.15.	SŴN A DIRGRYNIAD	57
4.16.	MATERION BIOAMRYWIAETH	59
4.17.	ANSAWDD AC ADNODDAU DŴR A PHERYGL LLIFOGYDD	64
4.18.	DAEAREG, AMODAU'R DDAEAR A HYDRODAEAREG	67
4.19.	TRAFFIG, TRAFNIDIAETH A MYNEDIAD	68
4.20.	YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL	70
4.21.	EFFEITHIAU ECONOMAIDD A CHYMDEITHASOL.....	72
4.22.	PARODRWYDD AR GYFER GWRES A PHŴER CYFUNEDIG (CHP).....	73
4.23.	MATERION ERAILL	75
5.	CANFYDDIADAU A CHASGLIADAU MEWN PERTHYNAS AG ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD	76
5.1.	CYFLWYNIAD	76
5.2.	LLEOLIAD Y PROSIECT.....	77
5.3.	GOBLYGIADAU HRA Y PROSIECT	77
5.4.	ASESIAD O EFFEITHIAU ARWYDDOCAOL TEBYGOL (LSE).....	78
5.5.	CASGLIADAU HRA.....	80
6.	CASGLIAD AR YR ACHOS DROS GANIATÂD DATBLYGU	81
6.1.	CYFLWYNIAD	81
6.2.	Y CYDBWYSEDD CYNLLUNIO.....	84
7.	CAFFAEL GORFODOL A MATERION CYSYLLTIEDIG	85
7.1.	CYFLWYNIAD	85
7.2.	Y CAIS AM BWERAU CAFFAEL GORFODOL A MEDDIANT DROS DRO	85
7.3.	Y DIBENION Y MAE ANGEN TIR AR EU CYFER.....	85
7.4.	GOFYNION DEDDFWRIAETHOL.....	86
7.5.	ARCHWILIO'R ACHOS CA A TP	88
7.6.	YSTYRIED MATERION CA A TP.....	89
7.7.	CASGLIADAU	104
8.	GORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU DRAFFT A MATERION CYSYLLTIEDIG	105
8.1.	CYFLWYNIAD	105
8.2.	ARCHWILIO'R DCO.....	105
8.3.	STRWYTHUR Y DCO DRAFFT	107
8.4.	GWEITHREDU'R DCO DRAFFT.....	109
8.5.	MATERION ANNADLEUOL	111
8.6.	MATERION DADLEUOL	112
8.7.	CYTUNDEBAU CYFREITHIOL A CHYDSYNIADAU ERAILL.....	117
8.8.	NIWSANS STATUDOL.....	118
8.9.	CASGLIADAU	118
9.	CRYNODEB O GANFYDDIADAU A CHASGLIADAU	119
9.1.	CYFLWYNIAD	119

9.2.	YSTYRIED Y CANFYDDIADAU A'R CASGLIADAU	120
9.3.	ARGYMHELLIAD	120

ATODIAD A: YR ARCHWILIAD	CXXI
ATODIAD B: LLYFRGELL YR ARCHWILIAD	CXXII
ATODIAD C: RHESTR BYRFODDAU	CXXIII
ATODIAD CH: Y DCO ARGYMELLEDIG.....	CXXIV

1. CYFLWYNIAD

1.1. CYFLWYNIAD I'R ARCHWILIAD

- 1.1.1. Cyflwynwyd y Cais ar gyfer Gorsaf Cynhyrchu Pŵer sy'n Rhedeg ar Nwy Abergelli (y Datblygiad Arfaethedig) [APP-002] gan Abergelli Power Limited (yr Ymgeisydd) i'r Arolygiaeth ar 25 Mai 2018 o dan adran 31 Deddf Cynllunio 2008 (PA 2008) ac fe'i derbyniwyd i'w Archwilio o dan adran 55 PA 2008 ar 21 Mehefin 2018 [PD-002].
- 1.1.2. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys gorsaf cynhyrchu pŵer brig (yr "Orsaf Cynhyrchu Pŵer") OCGT a chysylltiadau newydd â'r rhwydweithiau nwy a thrydan ar dir gerllaw Gorsaf Cywasgydd Nwy Felindre yn Fferm Abergelli, Felindre, Abertawe SA5 7NN.
- 1.1.3. Mae prosiect yr Ymgeisydd wedi'i rannu'n dair elfen wahanol a ddisgrifir isod sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r "Datblygiad Arfaethedig". Cyfeirir at yr elfennau hyn fel yr Orsaf Cynhyrchu Pŵer, y Cysylltiad Nwy, a'r Cysylltiad Trydanol.
- 1.1.4. Mae tair prif elfen y Prosiect yn cynnwys:
- Gorsaf cynhyrchu pŵer brig OCGT, sy'n rhedeg ar nwy naturiol ac sy'n gallu darparu allbwn trydanol wedi'i raddio o hyd at 299 Megawat (MW). Mae'r Orsaf Cynhyrchu Pŵer yn cynnwys:
 - Offer Cynhyrchu sy'n cynnwys un Generadur Tyrbin Nwy gydag un stac fflw nwy gwacáu a Chydbwysedd Safle (BOP) (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel yr "Offer Cynhyrchu") sydd wedi'u lleoli o fewn y "Safle Offer Cynhyrchu";
 - Ffordd Fynediad i Safle'r Prosiect o'r B4489 sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin, a ffurfir trwy uwchraddio ffordd fynediad bresennol rhwng cyffordd y B4489 ac Is-orsaf Gogledd Abertawe (yr "Is-orsaf") ac adeiladu rhan newydd o ffordd fynediad o'r Is-orsaf i'r Safle Offer Cynhyrchu;
 - Cyfadeilad adeiladu dros dro i storio deunyddiau, peiriannau ac offer, yn ogystal â chynnwys llety a chyfleusterau lles y safle, lleoedd parcio dros dro a ffens dros dro (yr "Ardal Baratoi"). Bydd ardal fach o fewn yr Ardal Baratoi yn cael ei chadw'n barhaol (y "Cyfadeilad Cynnal a Chadw");
 - Ardal Lliniaru Ecolegol – ardal ar gyfer gwelliannau ecolegol o fewn Ffin Safle'r Prosiect; a
 - Parcio a draenio parhaol i gynnwys: system draenio dŵr brwnt, dŵr olewog a dŵr wyneb o'r safle.
 - Cysylltiad Nwy ar ffurf Gosodiad newydd ar y Tir (AGI) a chysylltiad nwy tanddaear (y "Biblinell Nwy") i ddod â nwy naturiol i'r Offer Cynhyrchu o'r System Trosglwyddo Nwy Genedlaethol; a
 - Chysylltiad Trydanol ar ffurf cebl trydanol tanddaear newydd i allforio pŵer o'r Offer Cynhyrchu i System Trosglwyddo Trydan y Grid Cenedlaethol (NGETS).

- 1.1.5. Mae'r Ymgeisydd yn gwneud cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ("DCO") o dan PA2008 ar gyfer pwerau i adeiladu, gweithredu a chynnal yr Orsaf Cynhyrchu Pŵer (y "datblygiad awdurdodedig").
- 1.1.6. Ar wahân, mae'r Ymgeisydd wedi gwneud cais i Ddinas a Sir Abertawe (CCS) am ganiatâd cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("TCPA 1990") ar gyfer caniatâd i ddatblygu'r Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol¹. Nid yw'r rhestr o waith yn y cais am DCO yn cynnwys unrhyw ddatblygiad sy'n ofynnol ar gyfer y Cysylltiad Nwy na'r Cysylltiad Trydanol.
- 1.1.7. Dangosir lleoliad y Datblygiad Arfaethedig yn ES Ffigur 1.1 [APP-021] a Chynlluniau Tir [APP-057]. Mae'r safle o fewn ardal weinyddol Cyngor Dinas a Sir Abertawe (CCS) ac mae'n gyfan gwbl yng Nghymru.
- 1.1.8. Ystyriwyd y profion deddfwriaethol i bennu a yw'r Datblygiad Arfaethedig yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) gan y SoS ar gyfer yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) yn ei benderfyniad i dderbyn y cais i'w Archwilio yn unol ag adran 55 PA2008 [PD-002].
- 1.1.9. Ar y sail hon, cytunodd yr Arolygiaeth â barn yr Ymgeisydd a nodwyd ar y ffurflen gais [APP-002], sef bod y datblygiad arfaethedig yn NSIP gan ei fod yn cynnwys adeiladu gorsaf gynhyrchu yng Nghymru sydd â chapasiti o fwy na 50 megawat, ei fod o fewn a14 (1) (a) a 15 (1) PA2008, ac felly bod arno angen caniatâd datblygu yn unol ag a31 PA2008. Felly, mae'r Datblygiad Arfaethedig yn bodloni'r diffiniad o NSIP fel y'i hamlinellir yn a14(1)(a) a 15 (1) PA2008.

1.2. PENODI'R AWDURDOD ARCHWILIO

- 1.2.1. Ar 26 Gorffennaf 2018, fe'm penodwyd yn Awdurdod Archwilio (ExA) ar gyfer y cais o dan a78 ac a79 PA2008 [PD-004].

1.3. YR UNIGOLION A FU'N RHAN O'R ARCHWILIAD

- 1.3.1. Yr unigolion a fu'n rhan o'r Archwiliad oedd:
- Unigolion yr oedd hawl ganddynt i fod yn Bartïon â Buddiant (IP) oherwydd eu bod wedi gwneud Cynrychiolaeth Berthnasol (RR) neu oherwydd eu bod yn Barti Statudol a oedd wedi gofyn am fod yn IP.
 - Unigolion yr Effeithir Arnynt (AP) gan gynnig Caffael Gorfodol (CA) a / neu Feddiant Dros Dro (TP) a wnaed yn rhan o'r cais ac a oedd wedi'i wrthwynebu ar unrhyw adeg yn ystod yr Archwiliad.

1.4. YR ARCHWILIAD A PHENDERFYNIADAU GWEITHDREFNOL

¹ Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer cysylltiadau nwy a thrydanol ar 6 Rhagfyr 2018.

- 1.4.1. Dechreuodd yr Archwiliad ar 10 Hydref 2018 a daeth i ben ar 10 Ebrill 2019.
- 1.4.2. Crynhoir prif elfennau a digwyddiadau'r Archwiliad isod. Rhoddir disgrifiad llawnach, graddfeydd amser a dyddiadau yn Atodiad A.

Y Cyfarfod Rhagarweiniol

- 1.4.3. Ar 12 Medi 2018, ysgrifennais at yr holl IPs, Partïon Statudol ac Unigolion Eraill o dan Reol 6 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (EPR) (y Llythyr Rheol 6) i'w gwahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol (PM) a Gwrandawriad DCO [PD-005], gan amlinellu:
- trefniadau ac agenda'r PM;
 - hysbysiad o Wrandawriad i'w gynnal yn gynnar yn ystod yr Archwiliad;
 - agenda/agendâu ar gyfer unrhyw Wrandawriad cynnar;
 - Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion (IAPI);
 - Amserlen Archwiliad ddrafft;
 - argaeledd RRs a dogfennau'r cais; a
 - phenderfyniadau gweithdrefnol yr ExA.
- 1.4.4. Cynhaliwyd y PM ar 10 Hydref 2018 yng Ngwesty'r Village, Heol Langdon, Abertawe SA1 8QY. Cyhoeddwyd recordiad sain [EV-002] a nodyn o'r cyfarfod [EV-001] ar wefan Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth².
- 1.4.5. Rhoddodd fy mhenderfyniadau gweithdrefnol ac Amserlen yr Archwiliad ystyriaeth lawn i faterion a godwyd yn y PM. Fe'u darparwyd yn y Llythyr Rheol 8 [PD-005(2)], dyddiedig 17 Hydref 2018.
- 1.4.6. Roedd y trefniadau ar gyfer y rhai a ddymunai gymryd rhan trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys y canlynol:
- Roedd cyflwyniadau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn cael eu croesawu a'u derbyn i'r Archwiliad;
 - Roedd cyfieithydd a oedd yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn y PM, pob Gwrandawriad ac yn yr Archwiliad Safle gyda Chwmni (ASI) i ganiatáu i'r holl rai a oedd yn bresennol gymryd rhan yn Gymraeg os oeddent yn dymuno.
- 1.4.7. Rwyf yn fodlon y rhoddwyd cyfle llawn i gymryd rhan yn yr Archwiliad trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel y digwyddodd, ni wnaed unrhyw gyflwyniadau yn Gymraeg ac ni wnaed unrhyw geisiadau i ddefnyddio'r cyfleusterau a ddarparwyd gan y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Penderfyniadau Gweithdrefnol Allweddol

- 1.4.8. Roedd y rhan fwyaf o'r penderfyniadau gweithdrefnol a amlinellwyd yn y Llythyr Rheol 8 yn ymwneud â materion a oedd yn gyfyngedig i weithdrefn yr Archwiliad ac nid oeddent yn berthnasol i ystyriaeth yr ExA

² <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/?ipcsection=docs>

o rinweddau cynllunio'r Datblygiad Arfaethedig. At hynny, cydymffurfiwyd â nhw gan yr Ymgeisydd ac IPs perthnasol. Gellir gweld y penderfyniadau yn y Llythyr Rheol 8 [PD-005(2)] ac felly nid oes angen eu hailadrodd yma.

Archwiliadau Safle

- 1.4.9. Cynhelir Archwiliadau Safle yn rhan o Archwiliadau PA2008 i sicrhau bod gennyf ddealltwriaeth ddigonol o'r Datblygiad Arfaethedig o fewn ei safle a'i amgylchedd a'i effeithiau ffisegol a gofodol.
- 1.4.10. Lle y gellir gweld y materion i'w harchwilio o'r parth cyhoeddus ac nid oes unrhyw ystyriaethau eraill fel diogelwch personol neu'r angen i amlygu nodweddion neu brosesau perthnasol, cynhelir Archwiliad Safle Digwmni (USI). Lle mae'n rhaid cynnal archwiliad ar dir y mae angen caniatâd i gael mynediad ato, lle mae ystyriaethau diogelwch neu dechnegol eraill a / neu lle y gofynnir am gael bod yn bresennol yn ystod archwiliad, cynhelir ASI.
- 1.4.11. Cynhaliais yr USI canlynol:
- USI, 15 Awst 2018 er mwyn i'r ExA ymglyfarwyddo â'r Datblygiad Arfaethedig a'r ardal amgylchynol (Atodiad F [PD-005]).
- Gellir gweld nodyn safle sy'n rhoi cofnod gweithdrefnol o'r USI yn Llyfrgell yr Archwiliad o dan y cyfeirnod uchod.
- 1.4.12. Cynhaliais yr ASI canlynol:
- ASI1, Dydd Gwener 14 Rhagfyr 2018 i weld y safle o'r cefn gwlad amgylchynol [EV-008].
- 1.4.13. Mae'r amserlen deithio ar gyfer yr ASI i'w gweld yn Llyfrgell yr Archwiliad o dan y cyfeirnod uchod.
- 1.4.14. Rwyf wedi ystyried yr holl wybodaeth ac argraffiadau a gafwyd yn ystod yr archwiliadau safle ym mhob adran berthnasol o'r Adroddiad hwn.

Prosesau Gwrandawriad

- 1.4.15. Cynhelir Gwrandawiadau yn rhan o Archwiliadau PA2008 am ddau brif reswm:
- I ymateb i geisiadau penodol gan unigolion sydd â hawl i gael eu clywed – yn gwyno:
 - pan fydd unigolion yr effeithir arnynt gan gynigion CA a/neu TP (AP) yn gwrthwynebu ac yn gofyn am gael eu clywed mewn Gwrandawriad Caffael Gorfodol (CAH); a / neu
 - pan fydd IPs yn gofyn am gael eu clywed mewn Gwrandawriad Llawr Agored (OFH).
 - I fynd i'r afael â materion y mae'r ExA yn credu bod angen cynnal Gwrandawriad i'w harchwilio ar lafar, a hynny fel arfer oherwydd eu

bod yn gymhleth, bod elfen o ddadlau neu anghytuno, neu nad yw cymhwysiad cyfraith berthnasol neu bolisi perthnasol yn eglur.

- 1.4.16. Cynhaliais nifer o Wrandawiadau i sicrhau bod y materion a godwyd gan y cais yn cael eu harchwilio'n drylwyr.
- 1.4.17. Cynhaliwyd Gwrandawiadau Mater Penodol (ISH) o dan a91 PA2008 yng Ngwesty'r Village, Heol Langdon, Abertawe SA1 8QY, sydd oddeutu 9 km o safle'r cais a phreswylfeydd mwyafrif yr IPs.
- 1.4.18. Cynhaliwyd ISHs ar faterion yn ymwneud â'r DCO drafft ar:
- ISH1, 10 Hydref 2018 [EV-003];
 - ISH2, 13 Rhagfyr 2018 [EV-011].
- 1.4.19. Cynhaliwyd ISH ar Faterion Amgylcheddol ar:
- ISH3, 13 Rhagfyr 2018 [EV-012].
- 1.4.20. Cynhaliwyd CAH o dan a92 PA2008 yng Ngwesty'r Village, Heol Langdon, Abertawe SA1 8QY ar:
- CAH1, 12 Rhagfyr 2018 [EV-009].

Rhoddwyd cyfle i'r holl unigolion yr effeithir arnynt gan gynigion CA a/neu TP (AP) gael eu clywed. Defnyddiais y Gwrandawriad i archwilio achos yr Ymgeisydd dros CA a TP yn gyffredinol hefyd.

- 1.4.21. Cynhaliwyd OFH o dan a93 PA2008 yng Ngwesty'r Village, Heol Langdon, Abertawe SA1 8QY gyda'r nos ar 12 Rhagfyr 2018 [EV-010]. Rhoddwyd cyfle i'r holl IPs gael eu clywed ar unrhyw faterion pwysig a pherthnasol yr oeddent eisiau eu codi.

Prosesau Ysgrifenedig

- 1.4.22. Proses ysgrifenedig yn bennaf yw'r Archwiliad o dan PA2008, lle'r wyf wedi rhoi ystyriaeth i ddeunydd ysgrifenedig sy'n ffurfio'r cais ac yn codi o'r Archwiliad. Cofnodir yr holl ddeunydd hwn yn Llyfrgell yr Archwiliad (Atodiad B) ac fe'i cyhoeddir ar wefan y prosiect. Mae cyfeiriadau yn yr adroddiad hwn at ddogfennau unigol yn Llyfrgell yr Archwiliad wedi'u hamgáu mewn cromfachau sgwâr [] a cheir hyperddolen i'r ddogfen wreiddiol a gedwir ar-lein. Am y rheswm hwn, nid yw'r Adroddiad hwn yn cynnwys crynodebau helaeth o'r holl ddogfennau a chynrychiolaethau, er y rhoddwyd ystyriaeth lawn iddynt yng nghasgliadau'r ExA. Rwyf wedi ystyried yr holl faterion pwysig a pherthnasol sy'n codi ohonynt.
- 1.4.23. Amlinellir ffynonellau ysgrifenedig allweddol ymhellach isod.

Cynrychiolaethau Perthnasol

- 1.4.24. Derbyniwyd chwech ar hugain o Gynrychiolaethau Perthnasol (RR) gan yr Arolygiaeth [RR-001 i RR-026]. Cafodd pawb a luniodd RR Lythyr Rheol 6 a rhoddwyd cyfle iddynt gymryd rhan yn yr Archwiliad fel IP. Mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lawn i bob RR. Ystyrir y materion a godwyd ynddynt ym Mhennod 4 yr Adroddiad hwn.

Cynrychiolaethau Ysgrifenedig a Dogfennau Eraill yr Archwiliad

- 1.4.25. Rhoddwyd cyfleoedd i'r Ymgeisydd ac IPs ac Unigolion Eraill:
- wneud Cynrychiolaethau Ysgrifenedig (WR) erbyn Terfyn Amser 1 (DL1);
 - gwneud sylwadau ar WRs a wnaed gan yr Ymgeisydd ac IPs eraill erbyn DL2 a DL3;
 - crynhoi eu cyflwyniadau llafar yn ysgrifenedig erbyn DL3 a DL5;
 - gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig eraill y gofynnwyd amdanynt neu a dderbyniwyd gan yr ExA; a
 - gwneud sylwadau ar ddogfennau a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad gan yr ExA erbyn DL5, gan gynnwys:
 - Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd (RIES) [PD-008] a gyhoeddwyd ar 4 Mawrth 2019.
- 1.4.26. Mae'r holl WRs a dogfennau eraill yr archwiliad wedi cael eu hystyried yn llawn gan yr ExA. Ystyrir y materion a godir ynddynt ym Mhenodau 4, 7 ac 8 yr Adroddiad hwn.

Adroddiad ar yr Effaith Leol

- 1.4.27. Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) yw adroddiad a luniwyd gan Awdurdod Lleol (ALI) perthnasol sy'n rhoi manylion am effaith debygol y Datblygiad Arfaethedig ar ardal yr awdurdod (neu unrhyw ran o'r ardal honno) sydd wedi cael ei wahodd a'i gyflwyno i'r ExA o dan a60 PA2008.
- 1.4.28. Cafodd yr ExA un LIR gan CCS [REP1-021].
- 1.4.29. Mae'r LIR wedi cael ei ystyried yn llawn gan yr ExA yn holl Benodau perthnasol yr Adroddiad hwn.

Datganiadau Tir Cyffredin

- 1.4.30. Mae Datganiad Tir Cyffredin (SoCG) yn ddatganiad y cytunwyd arno rhwng yr Ymgeisydd ac un IP neu fwy, sy'n cofnodi materion y maen nhw'n cytuno arnynt.
- 1.4.31. Erbyn diwedd yr Archwiliad, roedd y cyrff canlynol wedi cwblhau SoCGs gyda'r Ymgeisydd:
- Rhwng yr Ymgeisydd a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) [REP2-009];
 - Rhwng yr Ymgeisydd ac NGETS [REP6-008];
 - Rhwng yr Ymgeisydd ac NGT [REP6-009];

- Rhwng yr Ymgeisydd a Dŵr Cymru [REP5-006];
- Rhwng yr Ymgeisydd a Wynne Watkins/Redisplay Limited [REP4-021] heb ei lofnodi;
- Rhwng yr Ymgeisydd a CCS [REP3-010] anghyflawn; a
- Rhwng yr Ymgeisydd a Michael Edwards [REP4-020] heb ei lofnodi.

1.4.32. Roedd y SoCGs gyda Wynne Watkins/Redisplay Limited a Michael Edwards yn parhau i fod heb eu llofnodi oherwydd:

- Gwrthwynebiadau i'r Pwerau CA;
- Anghytundeb ynglŷn â dewisiadau amgen; ac
- Y ffaith bod cysylltiadau nwy a thrydan yn rhan annatod o'r Datblygiad Arfaethedig.

1.4.33. Roedd y SoCG gyda CCS yn parhau i fod yn anghyflawn oherwydd gwahaniaethau heb eu datrys ynglŷn â:

- Bond datgomisiynu; a
- Therfyn amser ar gyfer gweithredu.

1.4.34. Mae'r ExA wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r SoCGs yn holl Benodau perthnasol yr Adroddiad hwn.

Cwestiynau Ysgrifenedig

1.4.35. Gofynnais 2 gyfres o Gwestiynau Ysgrifenedig (WQ):

- Amlinellwyd yr WQ cyntaf (ExQ1) [PD-005(3)] a phenderfyniadau gweithdrefnol yn y llythyr Rheol 8 [PD-005(2)], dyddiedig 17 Hydref 2018.
- Cyhoeddwyd yr ail WQ (ExQ2) [PD-006] ar 11 Ionawr 2019.

1.4.36. Mae'r holl ymatebion i WQ yr ExA wedi cael eu hystyried yn llawn yn holl Benodau perthnasol yr Adroddiad hwn.

Ceisiadau i Ymuno â'r Archwiliad a'i Arael

1.4.37. Ni chafwyd unrhyw geisiadau i ymuno â'r Archwiliad gan unigolion nad oeddent eisoes yn IPs ar adeg y PM neu ar ôl hynny.

1.4.38. Yn ystod yr Archwiliad, o ganlyniad i drafodaeth mewn Gwrandawriadau a/neu drafodaethau rhwng IPs/APs/Unigolion Eraill perthnasol a'r Ymgeisydd, ysgrifennodd yr unigolion canlynol at yr ExA i roi gwybod iddo fod eu materion wedi'u datrys a'u bod yn tynnu eu cynrychiolaethau yn ôl:

- Tynnodd Western Power Distribution (WPD) [AS-010] ei gynrychiolaethau yn ôl gan ei fod wedi cytuno ar Ddarpariaethau Amddiffynnol gyda'r Ymgeisydd. Derbyniodd yr ExA ei gais i dynnu'n ôl fel IP.
- Tynnodd Abergelli Solar Limited [REP6-011] ei gynrychiolaethau yn ôl gan ei fod wedi dod i gytundeb gyda'r Ymgeisydd ac wedi cytuno ar

Ddarpariaethau Amddiffynnol gyda'r Ymgeisydd. Derbyniodd yr ExA ei gais i dynnu'n ôl fel IP.

- Tynnodd NGETS ac NGG [REP6-013] eu cynrychiolaethau yn ôl gan eu bod wedi cytuno ar Ddarpariaethau Amddiffynnol gyda'r Ymgeisydd. Derbyniodd yr ExA eu ceisiadau i dynnu'n ôl fel IP.

1.5. ASESU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

- 1.5.1. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn ddatblygiad y mae angen cynnal Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol (AEA) ar ei gyfer (datblygiad AEA).
- 1.5.2. Ar 26 Mehefin 2014, cyflwynodd yr Ymgeisydd Adroddiad Cwmpasu i'r Ysgrifennydd Gwladol (SoS) o dan Reoliad 8 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (AEA) 2009 (Offeryn Statudol (OS) 2263) (fel y'u diwygiwyd) (y Rheoliadau AEA) i ofyn am farn ynglŷn â chwmpas y Datganiad Amgylcheddol (ES) a oedd i'w baratoi (Barn Gwmpasu) [APP-035]. Mae'n dilyn y tybir bod yr Ymgeisydd wedi rhoi gwybod i'r SoS o dan Reoliad 6(1)(b) y Rheoliadau AEA ei fod yn bwriadu darparu ES mewn perthynas â'r Prosiect.
- 1.5.3. Ar 1 Awst 2014, darparodd yr Arolygiaeth Farn Gwmpasu [APP-035]. Felly, yn unol â Rheoliad 4(2)(a) y Rheoliadau AEA, penderfynwyd bod y Datblygiad Arfaethedig yn ddatblygiad AEA, a chyflwynwyd ES gyda'r cais dyddiedig 25 Mai 2018 [APP-016-APP-044].
- 1.5.4. Ar 3 Gorffennaf 2018 a 2 Awst 2018, rhoddodd yr Ymgeisydd dystysgrifau i'r Arolygiaeth yn cadarnhau y cydymffurfiwyd ag a56 ac a59 PA2008 a Rheoliad 13 y Rheoliadau AEA.
- 1.5.5. Rhoddir ystyriaeth i ddigonolrwydd yr ES a materion sy'n codi ohono ym Mhenod 4 yr Adroddiad hwn.

1.6. ASESAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

- 1.6.1. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn ddatblygiad y darparwyd Adroddiad neu Adroddiadau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar ei gyfer [APP-066].
- 1.6.2. Rhoddir ystyriaeth i ddigonolrwydd yr Adroddiad HRA, gwybodaeth a thystiolaeth gysylltiedig a'r materion sy'n codi ohono ym Mhenodau 5 a 6 yr Adroddiad hwn.

1.7. YMGYMERIADAU, RHWYMEDIGAETHAU A CHYTUNDEBAU

- 1.7.1. Erbyn diwedd yr Archwiliad, roedd y cyrff canlynol wedi llunio ymgymeriadau, rhwymedigaethau a chytundebau ffurfiol gyda'r Ymgeisydd sy'n ystyriaethau pwysig a pherthnasol i'r SoS:
- CCS [REP6-007];
- 1.7.2. Roedd y cytundeb a106 yn cynnwys:
- cynllun addysg;

- menter cadwyn gyflenwi leol; a
- gwelliannau llwybr troed.

1.7.3. Ar 9 Ebrill 2019, dywedodd yr Ymgeisydd:

"Atodir y cytundeb adran 106, wedi'i lofnodi gan Ddinas a Sir Abertawe a'r Ymgeisydd. Mae'r ddogfen gyda'r tirfeddiannwr i'w gweithredu ar hyn o bryd, ac yna bydd yn cael ei chwblhau. Cyflwynir y ddogfen atodedig gan nad yw'r Ymgeisydd yn disgwyl cael y ddogfen wedi'i chwblhau cyn diwedd yr Archwiliad. Bydd yr Ymgeisydd yn cyflwyno copi o'r cytundeb wedi'i gwblhau cyn gynted â phosibl, y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu ei ystyried wrth benderfynu p'un ai rhoi caniatâd datblygu" [AS-011].

1.7.4. Mae'r ymgymeriadau, y rhwymedigaethau a'r cytundebau hyn wedi cael eu hystyried yn llawn gan yr ExA ym mhob Pennod perthnasol o'r Adroddiad hwn.

1.8. CYDSYNIADAU ERAILL

1.8.1. Mae dogfennau'r Cais a chwestiynau yn ystod yr Archwiliad hwn wedi amlygu'r cydsyniadau canlynol y mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi'u cael neu y mae'n rhaid iddo eu cael, yn ogystal â Chaniatâd Datblygu o dan PA2008 [APP-058]. Cofnodir isod y sefyllfa ddiweddaraf o ran y rhain:

- **Trwydded cynhyrchu trydan, Deddf Trydan 1989, Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (OFGEM)** Mae'n ofynnol ar gam gweithredu'r Prosiect mewn perthynas â gweithgareddau cynhyrchu. Mae cais am drwydded cynhyrchu wedi cael ei gyflwyno;
- **Caniatâd cynllunio ar gyfer Cysylltiad Nwy (piblinell nwy ac AGI), Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990** CCS Rhif Cyf.: 2018/2020/FUL Derbyniwyd: Dydd Llun 17 Medi 2018 Dilyswyd: Dydd Mawrth 25 Medi 2018 Statws: Rhoddwyd caniatâd ar 6 Rhagfyr 2018;
- **Caniatâd cynllunio ar gyfer Cysylltiad Trydan, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.** CCS Rhif Cyf.: 2018/2021/FUL Derbyniwyd: Dydd Llun 17 Medi 2018 Dilyswyd: Dydd Mawrth 25 Medi 2018 Statws: Rhoddwyd caniatâd ar 6 Rhagfyr 2018;
- **Cytundeb Cynllunio a Chapasiti Neilltuedig Uwch (PARCA) ar gyfer cyflenwi nwy naturiol i'r orsaf bŵer** – Cytundeb Masnachol â'r Grid Cenedlaethol i gael ei symud ymlaen ar ôl y cais DCO [APP-009];
- **Cytundeb Cysylltiad Dwyochrog i gysylltu'r Prosiect â'r System Trosglwyddo Trydan Genedlaethol** – Cytundeb Masnachol â'r Grid Cenedlaethol. Gwnaeth y Grid Cenedlaethol gynnig Capasiti Trosglwyddo (TEC) i'r Ymgeisydd ar 23 Chwefror 2018. Disgwylir i hwn gael ei lunio ar ôl i'r Cais DCO gael ei gyflwyno ond cyn i'r Archwiliad ddechrau. Mae'r Cytundeb Cysylltiad Dwyochrog a'r Cytundeb Adeiladu gyda National Grid Electricity Transmission PLC (y Cytundeb Cysylltu) yn amlinellu'r cytundeb ynglŷn â chysylltu'r Orsaf Cynhyrchu Pŵer â'r System Trosglwyddo Trydan Genedlaethol.

Trafodir y cytundeb hwn yn fanylach yn Natganiad y Grid Cenedlaethol [APP-006];

- **Cymeradwyaeth Rheoliad Adeiladu, Rheoliadau Adeiladu 2010** CCS Gwneir ceisiadau ar ôl i'r DCO gael ei ganiatáu os cadarnheir bod angen y gweithgareddau a reoleiddir o fewn Tir y Gorchymyn;
- **Trwydded Amgylcheddol (EP) ar gyfer Gweithredu'r Orsaf Cynhyrchu Pŵer, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016** – Bydd angen EP i weithredu'r Orsaf Cynhyrchu Pŵer. Rhoddodd CNC drwydded ar gyfer y datblygiad hwn ddydd Gwener 18 Ionawr 2019;
- **Trwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010** – Pe byddai angen yn dilyn yr arolwg cyfyngiadau ecolegol cyn-adeiladu (a sicrhair o dan y gofynion yn Atodlen 2 y Gorchymyn drafft) ar ôl i'r DCO gael ei ganiatáu, byddai trafodaethau'n cael eu dechrau â CNC a byddai unrhyw gais am drwydded yn cael ei symud ymlaen ar yr adeg honno. Ni ddisgwylir y bydd angen unrhyw drwyddedau rhywogaethau arbennig ar hyn o bryd;
- **Cydsyniadau sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys Rheoliadau Diogelwch Systemau Pwysedd 2000)** Ceisiadau i'w gwneud gan y contractwr cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau fel y bo'n briodol i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE);
- **Cytundeb Gadael Rhwydwaith, Amodau technegol a gweithredol ar gyfer y pwynt cysylltu** – Cytundeb Masnachol â'r Grid Cenedlaethol i'w symud ymlaen yn ystod ail hanner 2019;
- **Mae'n bosibl y bydd angen awdurdodiad ar gyfer gwaith draenio mewn cysylltiad â ffos i ailalinio'r ffosydd draenio ar Safle'r Orsaf Cynhyrchu Pŵer. Deddf Draenio Tir 1991** – Ceisiadau Tribiwnlys Eiddo Haen Gyntaf i'w gwneud gan y contractwr cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau, fel y bo'n briodol;
- **Trwydded cludo llwythi anghyffredin ar gyfer danfon llwythi ar y ffyrdd sydd y tu allan i arfer safonol (os bydd angen), Gorchymyn Cerbydau Ffyrdd (Awdurdodi Mathau Arbennig) (Cyffredinol) 2003 neu gydag awdurdodiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988** – Bydd ceisiadau priodol, yn unol â'r Cynllun Rheoli Trafnidiaeth Adeiladu Atodiad 3.3a [APP-036], yn cael eu gwneud gan y contractwr cyn danfon llwythi anghyffredin;
- **Trwydded i allyrru CO₂, Rheoliadau'r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2012** – Bydd ceisiadau'n cael eu gwneud i CNC i sicrhau y cydymffurfir â Rheoliadau 2012 (sy'n mynnu bod unrhyw weithredwr sy'n cynnal 'gweithgarwch a reoleiddir', gan gynnwys hylosgi tanwydd, yn meddu ar drwydded). Bydd y cais yn cael ei symud ymlaen ar yr un pryd â'r cais EP;
- **Cydymffurfio â Rheoliadau Diogelwch – Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996, Rheoliadau Diogelwch Nwy (Rheoli)** – Bydd y contractwr yn gwneud cais i'r HSE cyn i waith ddechrau ar adeiladu'r Cysylltiad Nwy Cyffredinol;

- **Cydsyniad Adran 61, Rheoli sŵn ar safleoedd adeiladu, Deddf Rheoli Llygredd 1974** – Caiff y contractwr wneud ceisiadau i CCS, os bydd angen, o leiaf 28 niwrnod cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau; a
- **Gorchymynion Traffig Ffyrdd Dros Dro a Chydsyniadau Gwaith Stryd eraill, Deddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984, Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, Deddf Rheoli Traffig 2004** – Lle y bo'r angen o ran rheoleiddio traffig er mwyn gwneud unrhyw waith stryd (i'r graddau na ddarperir ar ei gyfer yn y Gorchymyn). I'w symud ymlaen mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Priffyrdd a Gwaith Stryd Lleol ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud.

1.8.2. O ran y cydsyniadau sy'n weddill a gofnodir uchod, mae'r ExA wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael sy'n berthnasol i'r rhain a, heb beryglu gallu'r rhai a fydd yn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol i arfer disgresiwn, mae wedi dod i'r casgliad nad oes rhwystrau amlwg rhag gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig, pe byddai'r SoS yn caniatáu'r Cais.

1.9. STRWYTHUR YR ADRODDIAD HWN

1.9.1. Mae strwythur yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae **Pennod 1** yn cyflwyno'r darlennydd i'r Cais, a'r prosesau a ddefnyddiwyd i gynnal yr Archwiliad a llunio'r Adroddiad hwn.
- Mae **Pennod 2** yn disgrifio'r safle a'i amgylchedd, y Datblygiad Arfaethedig, ei hanes cynllunio a hanes cynllunio prosiectau cysylltiedig.
- Mae **Pennod 3** yn cofnodi'r cyd-destun cyfreithiol a pholisi ar gyfer penderfyniad yr SoS.
- Mae **Pennod 4** yn amlinellu'r materion cynllunio a gododd o'r Cais ac yn ystod yr Archwiliad.
- Mae **Pennod 5** yn ystyried effeithiau ar Safleoedd Ewropeaidd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).
- Mae **Pennod 6** yn amlinellu'r cydbwysedd ystyriaethau cynllunio sy'n codi o Benodau 4 a 5, yng ngoleuni'r wybodaeth ffeithiol, gyfreithiol a pholisi ym Mhenodau 1 i 3.
- Mae **Pennod 7** yn amlinellu archwiliad yr ExA o gynigion CA a TP.
- Mae **Pennod 8** yn ystyried goblygiadau'r materion sy'n codi o'r penodau blaenorol i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO).
- Mae **Pennod 9** yn crynhoi'r holl ystyriaethau perthnasol ac yn amlinellu argymhelliad yr ExA i'r SoS.

1.9.2. Ategir yr adroddiad hwn gan yr Atodiadau canlynol:

- **Atodiad A** – Digwyddiadau'r Archwiliad
- **Atodiad B** – Llyfrgell yr Archwiliad
- **Atodiad C** – Rhestr o Fyrfoddau
- **Atodiad Ch** – y DCO Argymhelliad

2. Y CYNNIG A'R SAFLE

2.1. Y CAIS FEL Y'I GWNAED

- 2.1.1. Cyflwynodd yr Ymgeisydd (Abergelli Power Limited) gais am ganiatâd datblygu o dan PA2008 ar gyfer gorsaf gynhyrchu sy'n rhedeg ar nwy, gydag allbwn trydanol wedi'i raddio o hyd at 299 megawat ("MW"), yn Fferm Abergelli, ger Felindre yn Abertawe, Cymru [APP-002].
- 2.1.2. Rhoddir isod ddisgrifiad byr o'r elfennau sy'n ffurfio'r Prosiect. Mae mwy o fanylion am yr elfennau hyn ar gael ym Mhennod 3 yr ES [APP-042].

Yr Orsaf Cynhyrchu Pŵer

- 2.1.3. Mae'r Orsaf Cynhyrchu Pŵer yn cynnwys Offer Cynhyrchu, Ardal Baratoi, Ffordd Fynediad, Ardal Lliniaru Ecolegol a pharcio a draenio parhaol, fel yr esbonnir ymhellach isod.
- 2.1.4. Mae Atodlen 1 y Gorchymyn drafft yn rhoi'r disgrifiad ffurfiol o'r Orsaf Cynhyrchu Pŵer. Dangosir y gwaith hwn ar y Cynlluniau Gwaith [APP-053].
- 2.1.5. Dangosir lleoliad yr Orsaf Cynhyrchu Pŵer ar y Cynlluniau Tir [APP-057] a dangosir yr amryw rannau sy'n ffurfio'r Orsaf Cynhyrchu Pŵer ar y Cynlluniau Gwaith [APP-053].

Offer Cynhyrchu

- 2.1.6. Byddai un Generadur Tyrbin Nwy yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu hyd at 299MW, gyda stac ffliw allyriadau a fyddai rhwng 35m a 45m o uchder. Byddai'r Offer Cynhyrchu hefyd yn cynnwys:

- cyfadeilad newidydd trydanol
- gorsaf dderbyn nwy naturiol;
- generadur argyfwng;
- tanciau dŵr;
- ystafell reoli;
- oeryddion aer asgellog; ac
- adeiladau a strwythurau ategol.

Ardal Baratoi

- 2.1.7. Bydd Ardal Baratoi dros dro yn cael ei darparu yn ystod y cyfnod adeiladu i storio deunyddiau, peiriannau ac offer, yn ogystal â chynnwys llety a chyfleusterau lles y safle, lleoedd parcio dros dro a ffens dros dro. Darperir yr Ardal Baratoi gerllaw'r Safle Offer Cynhyrchu. Bydd angen i ardal fach o fewn yr Ardal Baratoi gael ei chadw'n barhaol ar gyfer cynnal a chadw yn ystod cyfnod gweithredol y Datblygiad Arfaethedig.

Ffordd Fynediad

- 2.1.8. Bydd Ffordd Fynediad i'r Safle Offer Cynhyrchu o'r B4489 yn cael ei ffurfio trwy uwchraddio ffordd fynediad bresennol rhwng cyffordd y B4489 a'r Is-orsaf ac adeiladu rhan newydd o ffordd o'r Is-orsaf i'r Safle Offer Cynhyrchu.

Ardal Lliniaru Ecolol

- 2.1.9. Mae ardal wedi'i dyrannu o fewn Tir y Gorchymyn i liniaru ar gyfer cynefin a gollir yn sgil meddiannu tir yn barhaol i adeiladu a gweithredu'r Prosiect.

Parcio Ceir

- 2.1.10. Yn ystod y cyfnod adeiladu, byddai digon o leoedd parcio'n cael eu darparu o fewn yr Ardal Baratoi. Yn ystod y cyfnod gweithredu, byddai lleoedd parcio i staff gweithredol a staff cynnal a chadw yn cael eu darparu o fewn y Safle Offer Cynhyrchu.

Goleuadau a Ffens Ddiogelwch

- 2.1.11. Byddai colofnau golau'n cael eu codi o amgylch perimedr yr Offer Cynhyrchu er mwyn darparu goleuadau diogelwch a goleuadau i weithio'n ddiogel mewn amodau tywyll. Byddai'r colofnau golau oddeutu 8 m o uchder ac wedi'u gosod ar bellter rheolaidd oddi wrth ei gilydd o amgylch perimedr y Safle Offer Cynhyrchu.

Draenio

- 2.1.12. Bydd angen system draenio dŵr brwnt ar gyfer safle'r Prosiect, a system draenio dŵr olewog. Yn ogystal, bydd angen system draenio dŵr wyneb i ddraenio'r safle'n ddigonol ac atal pyllau rhag ffurfio. Er mwyn atal Safle'r Prosiect rhag cael ei orlifo â dŵr ffo wyneb, bydd ffosydd draenio atal llif yn cael eu gosod o amgylch perimedr y safle sy'n mynd i fyny.
- 2.1.13. Disgrifir y Datblygiad Arfaethedig yn Atodlen 1, Rhan 1 y DCO argymelledig (Atodiad Ch). Yng Nghymru, mae PA2008 yn gwneud darpariaeth gyfyngedig iawn yn unig am roi caniatâd i waith nad yw'n atodol i'r Datblygiad Arfaethedig a fyddai'n gyfystyr â datblygiad cysylltiedig at ddibenion PA2008.
- 2.1.14. Disgrifir yr holl waith arfaethedig y mae'r Ymgeisydd yn credu y dylai gael ei ystyried naill ai'n rhan annatod neu atodol o'r datblygiad yn y Memorandwm Esboniadol (EM)[APP-013].
- 2.1.15. Mae paragraff 9 yr EM [APP-013] yn esbonio nad yw'r DCO yn ceisio caniatâd ar gyfer unrhyw ddatblygiad cysylltiedig, gan fod yr Ymgeisydd o'r farn bod pob agwedd ar y datblygiad awdurdodedig yn hanfodol i'r cynllun. Dychwelaf at y mater hwn ym mharagraffau 2.1.19 – 2.1.26 isod.

Cysylltiad Trydanol a Chysylltiad Nwy

- 2.1.16. Mae'r Cysylltiad Trydanol a'r Cysylltiad Nwy yn ddatblygiadau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer ar 6 Rhagfyr 2018 o dan TCPA1990 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ar gyfer y Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol, yn ôl eu trefn. Ni cheisir caniatâd ar gyfer y Cysylltiad Trydanol a'r Cysylltiad Nwy o fewn y DCO.

Cysylltiad Trydanol

- 2.1.17. Bydd y Cysylltiad Trydanol yn cynnwys cysylltiad cebl trydanol tanddaear newydd i allforio trydan o'r Offer Cynhyrchu i'r NETS yn yr Is-orsaf. Bydd hyn yn cynnwys cebl 400kV, tua 900 m o hyd, o'r Safle Offer Cynhyrchu i fae Switshis wedi'u Hinswleiddio â Nwy (GIS) o fewn yr Is-orsaf[APP-006].

Cysylltiad Nwy

- 2.1.18. Bydd y Cysylltiad Nwy yn cynnwys cysylltiad piblinell nwy tanddaear newydd i ddod â nwy naturiol i'r Offer Cynhyrchu o System Drosglwyddo Genedlaethol y rhwydwaith nwy pwysedd uchel presennol. Bydd y Cysylltiad Nwy ar ffurf AGI sy'n cynnwys Cyfleuster Gosod a Chodi Dyfais Archwilio Piblinell ("PTF") ar gyfer Dyfais Archwilio Piblinell ("PIG") ochr yn ochr â Chysylltiad Tynnu Lleiaf ("MOC"), a Phiblinell Nwy a osodir i'r is-orsaf derbyn nwy yn y Safle Offer Cynhyrchu [APP-009].

Datblygiad hanfodol, cysylltiedig ac atodol

- 2.1.19. Ystyriaf fod y gwaith y gwnaed cais amdano yn rhan o'r orsaf gynhyrchu ac y byddai'n rhan hanfodol ac atodol o'r NSIP. Nid oes gan unrhyw waith y gwnaed cais amdano ddiben heblaw am adeiladu a/neu weithredu a datgomisiynu'r datblygiad arfaethedig a, hebddo, ni fyddai'r orsaf gynhyrchu'n gallu cael ei hadeiladu a gweithredu.
- 2.1.20. Dadleuodd Mr Richard Price o Gyfreithwyr Loxley, a oedd yn gweithredu ar ran nifer o APs, y dylai'r rhan o'r cais sy'n ymwneud â'r ffordd fynediad (Gwaith Rhif 2) gael ei hystyried yn ddatblygiad cysylltiedig [REP3-017]. Dadleuodd Mr Price fod y DCO yn ddiffygiol fel y mae wedi'i lunio ar hyn o bryd, ac felly'n annilys, oherwydd y dylai'r cysylltiad trydanol a'r cysylltiad nwy gael eu cynnwys fel rhannau hanfodol o'r Prosiect. Codais y mater hwn yn yr ISHS ynglŷn â'r DCO [EV-003 ac EV-011] ac ymdrinnir ag ef yng nghrynodeb yr Ymgeisydd o gyflwyniadau llafar [REP3-004] [REP3-005].
- 2.1.21. Nodaf hefyd fod y DCO yn cynnwys pwerau CA, TP a phwerau cysylltiedig yn ymwneud â thir sy'n ofynnol ar gyfer alinio'r cysylltiad trydanol a nwy. Fodd bynnag, rwyf yn ymwybodol bod y dull a ddefnyddiwyd i lunio'r darpariaethau hyn yn gyson â hwnnw a ddefnyddiwyd mewn sawl Gorchymyn a wnaed yng Nghymru (a amlinellir ym Mhennod 3 isod yn Adran 3.7). Codais y mater hwn gyda'r Ymgeisydd ac fe'i trafodwyd yn

yr ISH cyntaf ynglŷn â'r DCO [EV-003]. Ar ôl ystyried y materion a godwyd, cytunaf â'r dull a amlinellwyd gan yr Ymgeisydd yn ei gyflwyniadau llafar yn y Gwrandawriad hwnnw [EV-003] [REP3-004], ac rwyf yn fodlon ei bod yn briodol darparu ar gyfer pwerau CA, TP a phwerau cysylltiedig sy'n ymwneud â thir o'r fath oherwydd bod cynnwys y pwerau hyn yn y Gorchymyn yn adlewyrchu telerau adran 122 PA 2008, sy'n caniatáu ceisio CA dros dir, gan gynnwys lle mae'r tir yn ofynnol ar gyfer NSIP neu i hwyluso'r datblygiad NSIP neu'n atodol iddo.

- 2.1.22. Nid yw'r ffaith bod y cysylltiad trydanol ar lwybr tebyg i'r llwybr mynediad yn golygu ei bod yn rhaid bod y cysylltiad trydanol yn hanfodol. Credaf fod hyn yn adlewyrchu proses ddylunio'r Ymgeisydd. Mae'n synhwyrol i'r cysylltiad trydanol a'r llwybrau mynediad fod ar hyd llwybrau tebyg ac ystyriaf fod hyn yn lleihau, er enghraifft, yr effeithiau amgylcheddol a'r graddau y bydd angen defnyddio tir nad yw o fewn rheolaeth yr Ymgeisydd.
- 2.1.23. Dadleuodd yr Ymgeisydd nad oes mynediad uniongyrchol i'r safle o'r briffordd gyhoeddus ac, o ystyried y peiriannau mawr a faint o offer adeiladu y bydd eu hangen i adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig, ni fyddai'n bosibl adeiladu'r datblygiad heb adeiladu llwybr addas i'r safle yn gyntaf. Dywedodd yr Ymgeisydd:
- "mae'r llwybr a ddyluniwyd yn llwybr parhaol gan ei bod yn rhan hollbwysig o weithredu'r orsaf gynhyrchu fod mynediad ar gael am resymau gweithredol, cynnal a chadw a diogelwch bob amser"* [REP3-004].
- 2.1.24. Dadleuodd yr Ymgeisydd nad yw'r rhan newydd ei hadeiladu y ceisir hawliau drosti yn ateb unrhyw ddiben arall heblaw am hwyluso'r broses o adeiladu a gweithredu'r orsaf gynhyrchu. Dywedodd yr Ymgeisydd:
- "bydd angen gwneud gwaith cynnal a chadw wedi'i drefnu ar yr orsaf yn ystod ei hoes, sy'n golygu y bydd angen darparu mynediad ar gyfer offer a pheiriannau ac a allai olygu bod angen symud eitemau mawr oddi yno i roi gwasanaeth iddynt a'u hatgyweirio"* [REP3-004].
- 2.1.25. Pe byddai angen gwneud gwaith cynnal a chadw heb ei drefnu, dywedodd yr Ymgeisydd:
- "mae'n bosibl y bydd angen symud offer oddi ar y safle i'w gynnal a'i gadw neu ei atgyweirio, ac mae ffordd fynediad addas yn hollbwysig er mwyn i hyn ddigwydd. Yna, bydd angen y ffordd fynediad i ddatgomisiynu'r orsaf cynhyrchu pŵer"* [REP3-004].
- 2.1.26. Dadleuodd yr Ymgeisydd os na fydd ffordd fynediad addas ar gael bob amser, ni all yr Offer Cynhyrchu weithredu i gynhyrchu trydan, sef swyddogaeth yr orsaf gynhyrchu a'r rheswm pam y mae'n NSIP [REP3-005].
- 2.1.27. Mae'r Ymgeisydd wedi cynnwys yr elfennau hynny o'i ddatblygiad arfaethedig yn y disgrifiad o'r datblygiad awdurdodedig yn y DCO sy'n rhan o'r orsaf gynhyrchu/yn allweddol iddi yn unig, sef yr NSIP o dan

adran 15 y Ddeddf. Fodd bynnag, wrth benderfynu pa ddatblygiad y gellid ei gynnwys yn y cais, mae'r Ymgeisydd wedi ystyried darpariaethau Adran 115 PA 2008 a hefyd y Canllawiau ar ddatblygiad cysylltiedig. Nid yw'r Cysylltiad Trydanol a'r Cysylltiad Nwy wedi'u cynnwys yn y datblygiad awdurdodedig, gan nad yw'r Ymgeisydd o'r farn eu bod yn rhan annatod o'r NSIP, yn ôl y rhesymeg a ddefnyddiwyd gan yr SoS mewn sawl penderfyniad blaenorol, gan gynnwys mewn perthynas â Gorsaf Gynhyrchu Hirwaun Power a Gorsaf Gynhyrchu sy'n Rhedeg ar Nwy Wrecsam.

- 2.1.28. Fel y cyfryw, rwyf yn fodlon nad oes unrhyw ddatblygiad cysylltiedig o fewn ystyr a115(2)(a) PA2008 wedi'i gynnwys yn y cais.

Safle'r Prosiect a'r Ardal Amgylchynol

- 2.1.29. Mae'r Prosiect wedi'i leoli ar dir amaethyddol agored oddeutu 2 km i'r gogledd o gyffordd 46 yr M4 o fewn ffin weinyddol CCS. Mae oddeutu 3 km i'r gogledd o ddinas Abertawe, oddeutu 1 km i'r de-ddwyrain o Felindre ac 1.4 km i'r gogledd o Langyfelach (Ffigur 1.1 [APP-024]).
- 2.1.30. Tir amaethyddol ydyw yn bennaf ar hyn o bryd, ac mae defaid a cheffylau'n pori arno. Y dosbarthiad tir amaethyddol yw 3b [EV-004]³. Mae pen gorllewinol Safle'r Prosiect yn cynnwys rhannau o'r Is-orsaf (sef is-orsaf 400 kV ac 132 kV) a'r ffordd fynediad bresennol sy'n arwain at yr Is-orsaf a Gorsaf Cywasgu Nwy Felindre o'r B4489 [APP-052].
- 2.1.31. Mae lefel y ddaear ar Safle'r Prosiect yn amrywio o oddeutu 146m uwchlaw'r seilnod ordnans (AOD) ar y pwynt uchaf yn y gornel ogledd-orllewinol yn Rhyd-y-pandy Road i oddeutu 80 m AOD ar hyd y perimedr deheuol, ac mae lefel y ddaear yn disgyn i gyfeiriad deheuol a de-ddwyreiniol at ei gilydd. Mae'r tir o fewn y Safle Offer Cynhyrchu oddeutu 90 m AOD (Ffigur 3.1 [APP-024]).
- 2.1.32. Nid oes unrhyw anheddau preswyl wedi'u lleoli o fewn ffin Safle'r Prosiect. Mae'r rhan fwyaf o safle'r Datblygiad Arfaethedig yn laswelltir wedi'i wella, ond mae ardaloedd o laswelltir corsiog wedi'u lleoli yn rhan dde-ddwyreiniol y Safle Offer Cynhyrchu. Mae rhannau o Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC) o fewn Safle'r Prosiect (SINC Lletty-Morfil). Mae bloc o goetir llydanddail, a ddosberthir yn Goetir Hynafol, a SINC i'r dwyrain. Yn ogystal, mae blociau eraill o Goetir Hynafol, a ddosberthir yn SINCs hefyd, i'r gorllewin o amgylch yr Is-orsaf, Gorsaf Cywasgu Nwy Felindre, a'r ffordd fynediad bresennol sy'n arwain at y cyfleusterau hyn o'r B4489 (Ffigur 3.6a, 6.3 a 7.1 [APP-024]).
- 2.1.33. Mae tarddelli o fewn safle'r Datblygiad Arfaethedig, gyda'u nentydd a'u ffosydd draenio cysylltiedig sy'n gollwng i Afon Llan. Mae Afon Llan yn cysylltu ag Afon Lliw ac Afon Llchwyr, sy'n gollwng i Fae Caerfyrddin.

³ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/agricultural-land-classification-frequently-asked-questions.pdf>

Nid oes unrhyw Brif Afonydd o fewn Safle'r Prosiect (Ffigur 9.1 [APP-024]).

- 2.1.34. Mae'r Safle Offer Cynhyrchu wedi'i leoli'n bennaf o fewn caeau a ddefnyddir ar gyfer pori, wedi'u ffinio gan gymysgedd o ffosydd draenio, ffensys a gwrychoedd o ansawdd gwael â bylchau mawr ynddynt. Mae llwybr hyfforddi ceffylau ag arwyneb meddal a adwaenir fel 'the gallops' yn croesi'r Safle Offer Cynhyrchu a'r Ardal Baratoi yn groeslinol o'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain (Ffigur 1.2 o [APP-024]).
- 2.1.35. Ar hyn o bryd, mae'r ardal o amgylch safle'r Datblygiad Arfaethedig yn wledig ei chymeriad yn bennaf, er bod cyfleuster Parcio a Rhannu Felindre i'r de yn ogystal â chryn dipyn o seilwaith cyfleustodau yn yr ardal, y mae rhai ohonynt yn croesi Safle'r Prosiect. Mae'r System Trosglwyddo Nwy Genedlaethol, Prif Bibell Ddŵr a Phiblinell Olew yn croesi Safle'r Prosiect ac mae hefyd rhwydwaith o beilonau trydan, cyfleustodau tanddaear a llinellau uwchben sy'n arwain i'r Is-orsaf ac oddi yno. Mae Gwaith Trin Dŵr Felindre wedi'i leoli i'r gogledd-orllewin, ac mae Parc Solar Cefn Betingau a Fferm Solar Abergelli i'r dwyrain o Safle'r Prosiect. Mae dau barc solar arall wedi'u hadeiladu yn y cyffiniau, sef parc solar Rhyd-y-pandy a Fferm Abergelli (Ffigurau 3.5 a 4.1 [APP-024]).
- 2.1.36. Cyflwynwyd y mapiau a'r cynlluniau lleoliad canlynol gyda'r cais:
- Ffigurau Amgylcheddol [APP-024];
 - Cynllun Lleoliad Safle [APP-050];
 - Cynllun Gosodiad Safle Presennol [APP-051];
 - Cynllun Tir [APP-057];
 - Cynllun Gwaith [APP-053]; a
 - Chynllun Hawliau Tramwy, Strydoedd a Mynediad [APP-054].

2.2. Y CAIS FEL Y'I HARCHWILIWYD

- 2.2.1. Cyflwynwyd a diweddarwyd newidiadau i'r dogfennau cais allweddol, gan gynnwys geiriad y DCO arfaethedig, yn ystod yr Archwiliad. Mae'r newidiadau'n ceisio mynd i'r afael â phwyntiau a godwyd gan IPs a'm cwestiynau i; ac i adlewyrchu gwybodaeth well a newidiadau a gododd yn ystod yr Archwiliad. Roedd y rhain yn cynnwys materion fel eglurder a/neu anghysondebau o fewn y DCO a materion amgylcheddol eraill.
- 2.2.2. Yn ogystal, cyflwynodd yr Ymgeisydd ystod o wybodaeth wedi'i diweddarau a'i diwygio, a gwybodaeth ychwanegol, a fanylir yn [REP6-002], Atodiad 1: Tabl 1 Canllaw i Ddogfennau'r Cais DCO.
- 2.2.3. Mae'r tabl hwn yn ganllaw i'r holl ddogfennau a gyflwynwyd yn rhan o Gais DCO Abergelli Power. Roedd y tabl hwn yn ddogfen fyw ac fe'i diweddarwyd ar adeg pob Terfyn Amser Archwiliad pan gyflwynwyd dogfennau newydd neu ddiwygiedig i'r Arolygiaeth, i ddarparu cofnod o fersiwn ddiweddaraf pob dogfen.
- 2.2.4. Mae'r DCO yn gwahaniaethu'n glir iawn rhwng terfynau'r Gorchymyn a thir y Gorchymyn [REP6-003]. Mae terfynau'r Gorchymyn wedi'u

diffinio'n gaeth, i gynnwys tir y byddai'r datblygiad awdurdodedig a Chyfadeilad yr Orsaf Bŵer yn cael eu darparu arno, ochr yn ochr â'r tir y mae ei angen dros dro ar gyfer prosesau adeiladu sy'n gysylltiedig â Chyfadeilad yr Orsaf Bŵer. Diffinnir terfynau'r Gorchymyn yn Erthygl 2(1) fel a ganlyn:

Mae "terfynau'r Gorchymyn" yn golygu'r terfynau a ddangosir ar y cynlluniau gwaith."

2.2.5. Mae cyfeirio at y Cynlluniau Gwaith [APP-053] yn dangos yn glir graddau cyfyngedig y tir, a amlinellir yn wyrdd ar y cynlluniau hynny, sy'n cynrychioli tir o fewn terfynau'r Gorchymyn. Yn ei dro, dyma leoliad Gwaith Rhifau 1 (A-F) i 4 a amlygir yn Atodlen 1 y DCO, a dyma gyfanswm y gwaith y ceisir ei awdurdodi gan y DCO er mwyn darparu'r orsaf gynhyrchu.

2.2.6. Mewn cyferbyniad, mae tir y Gorchymyn wedi'i ddiffinio'n fwy bras er mwyn, i bob pwrpas, cynnwys terfynau'r Gorchymyn fel is-set ohono, ond hefyd cynnwys y tir ychwanegol hwnnw y byddai'r holl bwerau eraill a geisir gan yr Ymgeisydd yn cael eu harfer arno, gan gynnwys CA o ran tir a hawliau ar gyfer aliniad arfaethedig y cysylltiad nwy, aliniad y cysylltiad trydanol a TP o ran tir ar gyfer adeiladau'r rhain. Diffinnir tir y Gorchymyn yn Erthygl 2(1) fel a ganlyn:

Mae "tir y Gorchymyn" yn golygu'r tir sy'n ofynnol ar gyfer, neu sy'n ofynnol i hwyluso, neu sy'n atodol i, neu yr effeithir arno gan, y datblygiad awdurdodedig a ddangosir ar y cynlluniau tir ac a ddisgrifir yn y llyfr cyfeirio."

2.2.7. Mae cyfeirio at y Cynlluniau Tir [APP-057] yn dangos yn glir y graddau mwy o lawer o dir, a amlinellir yn goch ar y cynlluniau hynny, sy'n cynrychioli tir y Gorchymyn. Ymhelaethir ar hyn ymhellach ym Mhennod 8 yr adroddiad hwn.

2.2.8. Rwyf wedi bod yn ymwybodol drwy gydol yr Archwiliad o'r angen i ystyried a yw newidiadau i'r dogfennau cais wedi ei newid i'r graddau y byddai'n gais gwahanol ac a fyddai gan yr SoS bŵer, felly, o dan a114 PA2008 i wneud DCO o ystyried y caniatâd datblygu y gwneir cais amdano.

2.2.9. Mae 'Deddf Cynllunio 2008: Canllawiau ar gyfer archwilio ceisiadau am ganiatâd datblygu' (Mawrth 2015) yn rhoi arweiniad ym mharagraffau 109 i 115 ynglŷn â newid cais ar ôl iddo gael ei Dderbyn⁴. Y farn a fynegwyd gan y Llywodraeth wrth i'r Ddeddf Lleoliaeth gael ei phasio oedd bod a114(1) yn gosod y cyfrifoldeb am wneud DCO ar y penderfynwr, ac nad yw'n cyfyngu ar y termau y gellir ei wneud ynddynt⁵.

⁴ [Deddf Cynllunio 2008: Canllawiau ar gyfer archwilio ceisiadau am ganiatâd datblygu](#), DCLG (2015)

⁵ [Gohebiaeth gan Bob Neill AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol i Syr Michael Pitt, Cadeirydd, y Comisiwn Cynllunio Seilwaith](#), DCLG (28 Tachwedd 2011).

2.2.10. Ar ôl ystyried y cyd-destun hwn drwy gydol yr Archwiliad, mae'n amlwg nad yw'r newidiadau i'r cais (sef diweddaru dogfennau yn bennaf) wedi arwain at newid arwyddocaol i hwnnw y gwnaed cais amdano. Cofnodir y newidiadau a ystyriwyd wrth ddod i'r casgliad hwn yn [REP6-002] ac ym mhenodau isod yr Adroddiad hwn.

2.2.11. Mae'n dilyn bod gan yr SoS bŵer i wneud y DCO fel y trafodir ym Mhennod 8 ac a ddarperir yn Atodiad Ch yr adroddiad hwn.

2.3. HANES CYNLLUNIO PERTHNASOL

2.3.1. Mae Adran 3.7 Datganiad Cynllunio'r Ymgeisydd yn rhoi amlinelliad byr o'r hanes cynllunio sy'n gysylltiedig â safle'r Datblygiad Arfaethedig [APP-007].

Safle'r Prosiect

2.3.2. Mae Fferm Abergelli wedi bod yn destun cyfres o geisiadau cynllunio blaenorol ar gyfer echdynnu mwynau, cyfleuster cynhyrchu trydan, safle tirlenwi anadweithiol a gweithgareddau masnachol eraill.

2.3.3. Cafodd Swansea City Waste Disposal Company Ltd ganiatâd cynllunio i gloddio am ddeunydd anadweithiol a'i symud ymaith o safle tirlenwi ac adfer yn Fferm Abergelli ym mis Chwefror 2003 (Cyf CCS: 2002/0312), oddeutu 100 m i'r gorllewin o Safle'r Prosiect. Cyflwynwyd cais i ddiwygio Amod 1 y caniatâd hwn i ganiatáu ar gyfer cloddio am ddeunydd anadweithiol a'i symud ymaith hyd at 31 Rhagfyr 2010 (2007/0907) ym mis Rhagfyr 2007, ond ni phenderfynwyd ar y cais, ac mae'r gwaith wedi dod i ben.

2.3.4. Cafodd Abergelli Glas Ltd ganiatâd cynllunio ar gyfer fferm solar 10 MW, is-orsafoedd gwrthdroyddion a ffens 2.4m o uchder ar dir yn Fferm Abergelli, wrth ymyl gogledd-ddwyrain Safle'r Prosiect, ym mis Mai 2013 (Cyf CCS: 2013/0135):

"Mae'r caniatâd hwn wedi bod yn destun sawl cais i amrywio neu ddileu amodau sy'n gysylltiedig â chaniatâd blaenorol. Cyflwynwyd y cyntaf i leihau nifer yr adeiladau, paneli solar, uchder y ffens, uchder y fframwaith a hepgor y mast meteorolegol (Cyf CCS:2014/1313/NMA) ac fe'i caniatawyd ar 28/10/2014. Cyflwynwyd cais dilynol ym mis Medi 2014 (2014/1335/DOC) i geisio rhyddhau amod 5 caniatâd 2013/0135. Caniatawyd y cais ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r caniatâd ar gyfer y fferm solar wedi cael ei weithredu ac mae'r fferm solar ar waith" [APP-007].

2.3.5. Ym mis Hydref 2015, gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar gyfer "Cyfleuster cynhyrchu trydan wrth gefn mewn argyfwng yn cynnwys:

- unedau generadu diesel modiwlaid modern (hyd at gyfanswm o 14);
- newidyddion, tanciau storio diesel;
- triniaeth ffin gan gynnwys sgrinio acwstig;
- gwelliannau mynediad; a
- gwaith cysylltiedig"

ar dir wrth ymyl gorllewin Safle'r Prosiect (Cyf CCS: 2015/1716).

Gwrthodwyd y cais gan nad oedd y Cyngor o'r farn y byddai buddion cadarnhaol y datblygiad yn drech na'r niwed gweledol y byddai'n ei achosi i gefn gwlad". [APP-007]

Yr Ardal Amgylchynol

- 2.3.6. Mae'r ardal o amgylch Fferm Abergelli yn wledig yn bennaf ond fe'i nodweddir gan gryn dipyn o seilwaith cyfleustodau ac ynni. Ym mis Awst 2008, cafodd System Trosglwyddo Trydan y Grid Cenedlaethol (NGETS) ganiatâd cynllunio i adeiladu is-orsaf drydan 400kV newydd ar dir gerllaw Safle'r Prosiect, ar Heol Llangyfelach yn Felindre (Cyf CCS:2007/2733):

"Roedd yr is-orsaf yn cynnwys adeilad GIS gyda Newidyddion Uwch Grid (SGT) ar wahân, gwaith seilwaith cysylltiedig a Safle Pen Selio (SEC). Addaswyd y cynigion wedi hynny, a rhoddwyd caniatâd cynllunio i'r cynllun diwygiedig ym mis Tachwedd 2008 (Cyf CCS: 2008/1685) gyda'r adeilad GIS i fod yn 60m o hyd x 15m o led x 13.5m o uchder" [APP-007].

- 2.3.7. Mewn cysylltiad â'r is-orsaf drydan 400kV, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer gwyro llinell drydan uwchben ym mis Ebrill 2008 (Cyf CCS: 2007/2827). Ym mis Gorffennaf 2010, caniatwyd diwygiad i ganiatâd mis Tachwedd 2008 (Cyf CCS 2008/1685) yn ymwneud ag adeiladu adeilad amwynder (Cyf CCS: 2010/0539). Mae'r caniatâd wedi cael ei weithredu.

- 2.3.8. Cafodd Good Energy Brynwhilach Solar Park Ltd ganiatâd cynllunio ym mis Tachwedd 2014 i adeiladu parc solar 12.69 MW ar dir ym Mrynwhilach, Felindre Road, wrth ymyl ffin ddeheuol Safle'r Prosiect (Cyf CCS: 2014/1022):

"Mae'r parc solar yn cynnwys hyd at 47,000 o baneli ffotofoltäig (PV), 8 gorsaf gwrthdroyddion/newidyddion, 2 is-orsaf, cynhwysydd storio, llwybrau mynediad newydd, a ffens ddiogelwch. Mae sawl cais wedi cael ei ganiatáu'n ddiweddar, gan gynnwys diwygiadau i uchder a goled y paneli, diwygiadau i ddyluniad is-orsafoedd a chynhwysyddion storio, adleoli adeilad y cyfadeilad a'r ffens ddiogelwch, defnyddio llai o gaeau, llai o araeau solar, a lleihau nifer y gorsafoedd newidyddion i 4. Mae amodau cyn-gychwyn wedi cael eu rhyddhau (Cyf CCS 2015/1987 a 2017/0507/DOC) sy'n dangos bod y caniatâd wedi cael ei weithredu" [APP-007].

- 2.3.9. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer parc solar 9 MW, yn cynnwys 135,000 o baneli PV, 9 caban gwrthdroyddion/newidyddion ac un adeilad rheoli ar dir yn Fferm Cefn Betingau, oddeutu 1.5 km i'r de-ddwyrain o Safle'r Prosiect, ym mis Awst 2013 (Cyf CCS: 2013/0865):

"Mae sawl cais ynglŷn ag amodau wedi cael ei ryddhau mewn perthynas â'r cais hwn (Cyf CCS: 2013/1739, 2015/0617 a 2015/0807). Mae sawl cais wedi cael ei gyflwyno hefyd, gan gynnwys cais i amnewid ffens, a chais a ganiatwyd ym mis Ionawr 2017 ar gyfer diwygiadau i bantiau,

gosodiad, ffens a mynediad, a gosod cynhwysydd storio a system loeren (Cyf CCS: 2016/3484/NMA). Mae'r caniatâd wedi cael ei weithredu ac mae'r fferm solar ar waith" [APP-007].

- 2.3.10. Nid wyf o'r farn bod gan unrhyw un o'r caniatadau cynllunio uchod unrhyw oblygiadau i reoli'r DCO. Nid oes unrhyw geisiadau NSIP blaenorol wedi cael eu cyflwyno sy'n ymwneud â safle'r Datblygiad Arfaethedig neu'n effeithio arno.

3. CYD-DESTUN CYFREITHIOL A PHOLISI

3.1. CYFLWYNIAD

- 3.1.1. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r cyd-destun cyfreithiol a pholisi perthnasol ar gyfer y cais a ystyriwyd ac a gymhwyswyd gan yr ExA wrth gynnal ei archwiliad a gwneud ei ganfyddiadau a'i argymhellion i'r SoS.
- 3.1.2. Mae Datganiad Cynllunio'r Ymgeisydd [APP-007] yn amlinellu'r sefyllfa bolisi o ran y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r ddogfen yn cynnwys asesiad o'r prosiect yn erbyn gofynion polisi Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) EN-1, EN-2, EN-4⁶ ac EN-5⁷.
- 3.1.3. Mae pennod 2 yr ES [APP-042] sy'n ymwneud â Chefnidir Rheoleiddiol a Pholisi yn amlinellu'r sefyllfa bolisi hefyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar rwymedigaethau rhyngwladol, y cyd-destun polisi cenedlaethol a'r cyd-destun polisi lleol. Mae penodau unigol o'r ES yn rhoi'r cefndir polisi penodol i bynciau penodol.
- 3.1.4. Mae LIR Dinas a Sir Abertawe (CCS) [REP1-021] yn cynnwys safbwynt CCS ar bolisiau perthnasol y cynllun datblygu a strategaethau lleol eraill.

3.2. DEDDF CYNLLUNIO 2008

- 3.2.1. Mae'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) o dan PA2008. Mae ar gyfer NSIP, sef gorsaf gynhyrchu OCGT ag allbwn trydanol o hyd at 299MWe [APP-002]. Amlinellir rhannau'r Datblygiad Arfaethedig ym Mhennod 2 yr adroddiad hwn.
- 3.2.2. Mae'r cais hwn ar gyfer NSIP oherwydd ei fod yn cynnwys "*adeiladu neu ymestyn gorsaf gynhyrchu*" (a14(1)(a) PA2008, gydag allbwn trydanol gros o fwy na 50MW, sy'n bodloni'r darpariaethau a osodir yn a15(2) PA2008. Mae adran 104 PA2008 yn gymwys:

"[...]o ran cais am orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu os yw datganiad polisi cenedlaethol mewn grym mewn perthynas â datblygiad o'r disgrifiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef."
- 3.2.3. Mae adran 104(3) yn mynnu bod yr SoS yn penderfynu ar y cais yn unol ag unrhyw NPSs perthnasol sydd mewn grym o ran y cais hwn, yn amodol ar rai eithriadau a bennir yn is-adrannau 104(4) i (8). Nodir isod fanylion yr NPSs penodol sy'n berthnasol i'r prosiect hwn.
- 3.2.4. Mae adran 104(2) PA2008 yn amlinellu'r materion y mae'n rhaid i'r SoS roi ystyriaeth iddynt wrth benderfynu ar gais a gyflwynwyd yn unol â PA2008. I grynhoi, y materion a amlinellir yn a104(2) yw unrhyw NPS perthnasol, unrhyw LIR, unrhyw faterion a ragnodir mewn perthynas â'r

⁶ Yn berthnasol o ran yr asesiad o'r Cysylltiad Nwy yn unig ac nid yn uniongyrchol berthnasol i'r Orsaf Cynhyrchu Pŵer y mae'r Cais DCO yn ymwneud ag ef.

⁷ Yn berthnasol o ran yr asesiad o'r Cysylltiad Trydan yn unig ac nid yn uniongyrchol berthnasol i'r Orsaf Cynhyrchu Pŵer y mae'r Cais DCO yn ymwneud ag ef.

datblygiad, ac unrhyw faterion eraill y mae'r SoS yn credu eu bod yn bwysig ac yn berthnasol i'r penderfyniad.

3.2.5. Mae a104(3) yn mynnu bod yr SoS yn penderfynu ar y cais yn unol ag unrhyw NPS perthnasol, ac eithrio i'r graddau bod un neu fwy o'r eithriadau yn is-adrannau (4) i (8) yn berthnasol, gan greu rhagdybiaeth o blaid datblygiad sy'n cydymffurfio ag NPS. Yr eithriadau yw bod yr SoS yn fodlon fel a ganlyn:

- y byddai penderfynu ar y cais yn unol ag unrhyw NPS perthnasol yn golygu y byddai'r Deyrnas Unedig yn torri unrhyw un o'i rhwymedigaethau rhyngwladol;
- y byddai penderfynu ar y cais yn unol ag unrhyw NPS perthnasol yn golygu y byddai'r SoS yn torri unrhyw ddyletswydd a osodwyd arno gan neu o dan unrhyw ddeddfiad;
- y byddai penderfynu ar y cais yn unol ag unrhyw NPS perthnasol yn anghyfreithlon trwy gyfrwng unrhyw ddeddfiad;
- y byddai effaith niweidiol y datblygiad arfaethedig yn drech na'i fuddion; a/ neu fod unrhyw amod a ragnodir ar gyfer penderfynu ar gais heblaw yn unol ag NPS yn cael ei fodloni.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu fy nghanfyddiadau, fy nghasgliadau a'm hargymhellion sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r materion hyn ac sy'n defnyddio'r ymagwedd a nodir yn a104 PA2008.

3.3. DATGANIADAU POLISI CENEDLAETHOL

3.3.1. Mae NPSs yn amlinellu polisi'r Llywodraeth ar wahanol fathau o ddatblygiad seilwaith cenedlaethol. Ystyriaf mai'r NPSs sy'n berthnasol i'r achos hwn yw:

- EN-1: Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol ar Ynni;
- EN-2: Seilwaith Cynhyrchu Trydan a Thanwydd Ffosil;
- EN-4: Seilwaith Cyflenwi Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew; ac
- EN-5: Seilwaith Rhwydweithiau Trydan.

3.3.2. Cynhyrchwyd y rhain gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC), sef yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) bellach. Dynodwyd yr NPSs gan yr SoS dros Ynni a Newid Hinsawdd ar 19 Gorffennaf 2011.

3.3.3. Mae'r pedwar NPS hyn yn ffurfio'r prif gyd-destun polisi ar gyfer yr archwiliad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu fy nghanfyddiadau, fy nghasgliadau a'm hargymhellion sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r materion hyn ac sy'n defnyddio'r ymagwedd a nodir yn a104 PA2008. Crynhoir diben a chynnwys cyffredinol yr NPSs hyn yma. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth arbennig a phenodol i bwnc i bolisiau sy'n codi ohonynt lle y bo'r angen yng ngweddill yr adroddiad hwn isod, ac yn enwedig ym Mhennod 4.

EN-1: Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol ar Ynni

- 3.3.4. Mae EN-1 yn amlinellu polisi'r Llywodraeth ar gyfer cyflawni prosiectau seilwaith ynni mawr. Mae EN-1 yn datgan:

'bod angen i'r Deyrnas Unedig gael yr holl fathau o seilwaith ynni yr ymdrinnir â nhw gan yr NPSs i gyflawni sicrwydd ynni ar yr un pryd â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sylweddol' (paragraff 3.3.1).

Mae hefyd yn datgan y dylai ceisiadau am ganiatâd datblygu gael eu hasesu *'ar y sail bod y Llywodraeth wedi dangos bod angen y mathau hynny o seilwaith' (paragraff 3.1.3)*

- 3.3.5. Mae EN-1 yn amlinellu egwyddorion cyffredinol ac effeithiau generig i'w pwysu a'u mesur wrth ystyried ceisiadau am NSIPs ynni. Mae effeithiau generig sy'n arbennig o berthnasol i'r cais hwn yn cynnwys effeithiau ar ansawdd aer ac allyriadau, bioamrywiaeth, yr amgylchedd hanesyddol, tirwedd a gweledol, traffig a thrafnidiaeth, amgylcheddol, buddion cymdeithasol ac economaidd ac effeithiau niweidiol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- 3.3.6. Mae'r NPS yn mynnu bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i:
- fuddion posibl y datblygiad arfaethedig o ran bodloni'r angen am seilwaith ynni, creu swyddi ac unrhyw fuddion tymor hir neu ehangach; ac
 - effeithiau niweidiol posibl, gan gynnwys unrhyw effeithiau niweidiol tymor hir a chronnol, yn ogystal â mesurau i osgoi, lleihau neu wneud iawn am unrhyw effeithiau niweidiol.

EN-2: Seilwaith Cynhyrchu Trydan a Thanwydd Ffossil

- 3.3.7. Mae EN-2 yn amlinellu'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygu safleoedd ar gyfer gorsafoedd pŵer tanwydd ffosil a'r meini prawf y mae'r Llywodraeth yn mynnu eu bod yn eu bodloni. Mae'r rhain yn cynnwys esboniadau o ymagwedd y Llywodraeth at faterion a godwyd gan y cais hwn, gan gynnwys y dechnoleg hylosgi nwy a ddewiswyd, Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP), parodrwydd i ddal carbon (CCR), addasu i'r newid yn yr hinsawdd ac ystyried dylunio da. O ran effeithiau gorsafoedd cynhyrchu nwy, mae EN-2 yn ailadrodd y polisi yn EN-1 ac yn ychwanegu'r angen i ystyried effeithiau allyriadau aer, tirwedd a gweledol, sŵn a dirgryniad ac ansawdd ac adnoddau dŵr.

EN-4: Seilwaith Cyflenwi Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew

- 3.3.8. Mae EN-4 yn amlinellu materion sy'n berthnasol i ganiatáu aliniad y cysylltiad nwy ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, yn hytrach na'r Datblygiad Arfaethedig ei hun. Bydd angen i'r Datblygiad Arfaethedig gael cyflenwad nwy a chysylltiad â'r seilwaith trosglwyddo nwy [APP-009]. Mae'r DCO y gwnaed cais amdano yn cynnwys pwerau sy'n ymwneud â CA a TP o ran tir sy'n ofynnol ar gyfer aliniad y cysylltiad nwy (tir sy'n atodol i'r datblygiad) ond nid yw'n rhoi caniatâd datblygu ar

gyfer aliniad y cysylltiad nwy. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod aliniad cysylltiad nwy yn ddatblygiad cysylltiedig o fath na chaiff DCO ddarparu ar ei gyfer yng Nghymru (a115 PA2008).

- 3.3.9. Er nad wyf yn archwilio cais i roi caniatâd datblygu ar gyfer piblinell nwy, bu'n rhaid i'r Archwiliad hwn ystyried p'un a yw'r pwerau yn y DCO sy'n ymwneud â CA a TP o ran tir ar gyfer datblygu aliniad y cysylltiad nwy yn briodol. Wrth gynnal ei asesiad yn yr ES [APP-042] a gyflwynwyd gyda'r cais, mae'r Ymgeisydd wedi mynegi'r farn bod EN-4 yn berthnasol i'r amgylchiadau hyn ac wedi tynnu fy sylw ato [APP-007]. Nid yw'r un o'r Partïon â Buddiant (IPs) wedi dadlau nad oedd yn berthnasol. Ar ôl ystyried y safbwynt hwn, cytunaf â'r Ymgeisydd fod NPS EN-4 yn berthnasol, ond nodaf fod rhaid i'w berthnasedd fod yn gyfyngedig i asesu effeithiau CA a TP o ran tir ar gyfer aliniad cysylltiad nwy, a phriodoldeb darpariaethau'r DCO drafft sy'n berthnasol i dir o'r fath. Nid yw'n darparu'r prif fframwaith penderfynu ar gyfer y cais sydd gerbron yr SoS.

EN-5: Seilwaith Rhwydweithiau Trydan

- 3.3.10. Mae EN-5 yn amlinellu materion sy'n berthnasol i ganiatáu seilwaith rhwydwaith trydan, sy'n gallu cynnwys llinellau trydan uwchben y ddaear sy'n ffurfio rhan o'r system ddosbarthu, gyda foltedd enwol y disgwylir iddo fod yn 132kV neu uwch. Mae'n ofynnol i'r Datblygiad Arfaethedig gael ei gysylltu â'r grid i allforio trydan [APP-006]. Mae'r DCO y gwnaed cais amdano yn cynnwys pwerau sy'n ymwneud â CA a TP o ran tir sy'n ofynnol ar gyfer aliniad y cysylltiad trydanol (tir sy'n atodol i'r datblygiad) ond nid yw'n rhoi caniatâd datblygu ar gyfer aliniad y cysylltiad trydanol. Yn yr un modd â'r cysylltiad nwy arfaethedig, mae'r cysylltiad trydanol yn ddatblygiad cysylltiedig o fath na chaiff DCO ddarparu ar ei gyfer yng Nghymru.
- 3.3.11. Er nad wyf yn archwilio cais i roi caniatâd datblygu ar gyfer cysylltiad trydanol, bu'n rhaid i'r Archwiliad hwn ystyried p'un a yw'r pwerau yn y DCO sy'n ymwneud â CA a TP o ran tir ar gyfer datblygu aliniad y cysylltiad trydanol yn briodol. Wrth gynnal ei asesiad yn yr ES a gyflwynwyd gyda'r cais, mae'r Ymgeisydd wedi mynegi'r farn bod EN-5 yn berthnasol i'r amgylchiadau hyn ac wedi tynnu fy sylw ato. Nid yw'r un o'r Partïon â Buddiant (IPs) wedi dadlau nad oedd yn berthnasol. Ar ôl ystyried y safbwynt hwn, cytunaf â'r Ymgeisydd fod NPS EN-5 yn berthnasol, ond nodaf fod rhaid i'w berthnasedd fod yn gyfyngedig i asesu effeithiau CA a TP o ran tir ar gyfer aliniad cysylltiad trydanol, a phriodoldeb darpariaethau'r DCO drafft sy'n berthnasol i dir o'r fath. Nid yw'n darparu'r prif fframwaith penderfynu ar gyfer y cais sydd gerbron yr SoS.

3.4. DEDDFWRIAETH, POLISI A CHANLLAWIAU SY'N BERTHNASOL I GYMRU

Deddf Cymru 2017

- 3.4.1. O dan Ddeddf Cymru 2017 (WA2017), dilëwyd adeiladu neu ymestyn gorsafoedd cynhyrchu trydan (nad ydynt yn cynhyrchu ynni o'r gwynt), yng Nghymru, hyd at gapasiti o 350 MW, o'r gyfundrefn NSIP o dan PA 2008, ar 01 Ebrill 2019. Fodd bynnag, oherwydd bod y cais hwn wedi cael ei wneud ym mis Mai 2018, mae'n rhaid i'r SoS benderfynu arno o dan PA2008.
- 3.4.2. Mae WA2017 yn cynnwys darpariaeth o dan adran 43 i ddatrys anghysondeb blaenorol yn y broses ganiatáu yn ymwneud â datblygiadau cysylltiedig. Roedd yr anghysondeb yn deillio o'r ffaith bod cyfundrefn PA2008 yn eithrio cymeradwyaeth am ddatblygiad cysylltiedig ar gyfer prosiectau gorsaf cynhyrchu trydan mawr yng Nghymru. Yn flaenorol, ar gyfer prosiectau o'r fath, er bod y broses ganiatáu ar gyfer y prif brosiect trwy'r broses NSIP, yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol yng Nghymru oedd yn gyfrifol am ganiatáu datblygiad cysylltiedig. Mae hyn wedi newid bellach yn sgil cychwyn adran 43 Deddf Cymru 2017, sy'n cysoni'r cyfrifoldeb am roi caniatâd am ddatblygiad cysylltiedig ar gyfer prosiectau ynni a'r cyfrifoldeb am roi caniatâd ar gyfer y prif brosiect.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

- 3.4.3. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi Llywodraeth Cymru (LIC) i wneud deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Nghymru. Mae'n rhaid i'r ddeddfwriaeth fod o fewn gallu deddfwriaethol LIC, h.y. ymwneud â'r materion datganoledig a amlinellir fel cyfres o benawdau cyffredinol, neu 'bynciau', sy'n cynnwys:
- Yr amgylchedd: materion fel gwarchod yr amgylchedd, cefn gwlad, mannau agored, cadwraeth natur, cynefinoedd, yr arfordir a'r amgylchedd morol;
 - Llywodraeth leol, gan gynnwys ardaloedd awdurdodau lleol sy'n cynnwys eu ffiniau awdurdodaeth ar gyfer materion fel rheoli datblygu a gorfodi; a
 - Chynllunio gwlad a thref.

- 3.4.4. Mae rhai materion a fyddai wedi'u cynnwys yn y penawdau cyffredinol hyn fel arall:

- *"...heb eu datganoli gan gynnwys cais am ganiatâd datblygu o dan PA2008 (Deddf Llywodraeth Cymru, Atodlen 7, paragraff 18)."*

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

- 3.4.5. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn berthnasol i'r Archwiliad hwn gan ei fod yn berthnasol i weithrediadau cyfranogwyr o fewn y system gynllunio yng Nghymru (gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol), ac rwyf wedi ystyried ei chynnwys.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 3.4.6. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn berthnasol i'r Archwiliad hwn gan ei fod yn gosod dyletswyddau cynaliadwyedd a

llesiant ar weithrediadau cyfranogwyr o fewn y system gynllunio yng Nghymru (gan gynnwys CNC ac awdurdodau cynllunio lleol), ac rwyf wedi ystyried ei chynnwys.

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

- 3.4.7. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn berthnasol i'r Archwiliad hwn gan ei fod yn gosod dyletswyddau ar weithrediadau cyfranogwyr o fewn y system gynllunio yng Nghymru (gan gynnwys Cadw, awdurdodau cynllunio lleol ac ymgeiswyr), ac rwyf wedi ystyried ei chynnwys.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

- 3.4.8. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn berthnasol i'r Archwiliad hwn gan ei fod yn gosod dyletswyddau ar weithrediadau cyfranogwyr o fewn y system gynllunio yng Nghymru (gan gynnwys CNC ac awdurdodau cynllunio lleol), sy'n cynnwys dyletswydd i gydweithio, ac rwyf wedi ystyried ei chynnwys.

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

- 3.4.9. Mae adran 153 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod dyletswyddau ar rai awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru trwy reoliadau.
- 3.4.10. Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn galluogi cyflawni dyletswyddau'n well o dan a149(1) Deddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, sef rhoi sylw dyledus i'r angen i:
- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw fath arall o ymddygiad a waherddir gan neu o dan y Ddeddf honno;
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno; a
 - meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno.

Polisi Cynllunio Cymru (PPW)

- 3.4.11. Amlinellir polisiâu cynllunio defnydd tir ar gyfer Cymru yn nogfen PPW LIC. Ategir PPW gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) a restrir isod.
- 3.4.12. Ymgynghorodd LIC ar Argraffiad 10 drafft o PPW rhwng mis Chwefror a mis Mai 2018. Ar 5 Rhagfyr 2018, rhyddhaodd LIC 10fed argraffiad PPW yn dilyn ymgynghoriadau ar y newidiadau arfaethedig. Mae'r PPW newydd yn ychwanegu at yr amcanion a amlinellir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WBFGA) ac wedi cael ei ailstrwythuro i adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol newydd, ac mae'r

pum ffordd o weithio wedi cael eu cynnwys yn llawn yng ngweledigaeth tymor hir LIC ar gyfer cynllunio defnydd tir.

- 3.4.13. Yn yr un modd ag argraffiadau blaenorol, ategir Argraffiad 10 PPW gan gyfres o TANs a llythyrau egluro polisi. Mae Argraffiad 10 PPW yn atgyfnerthu amcanion LIC o ran newid i economi carbon isel a chydabod sicrhau ynni o gymysgedd o ffynonellau ynni [APP-007].
- 3.4.14. Nid yw PPW yn cynnwys polisiâu penodol ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Mae'r fframwaith ar gyfer hyn wedi'i amlinellu yn yr NPSs sydd hefyd yn berthnasol yng Nghymru. Fodd bynnag, gallai PPW a'r TANs fod yn bwysig ac yn berthnasol wrth benderfynu ar y cais hwn (gweler Pennod 4).
- 3.4.15. Mae PPW yn amlinellu polisiâu cynllunio defnydd tir LIC ac yn dangos bod LIC wedi ymrwymo i gyfrannu at gyrraedd targed gofynnol y Deyrnas Unedig o sicrhau bod 15% o ynni'n dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020 (paragraff 12.8.1). Mae'n ceisio cyflawni rhaglen ynni sy'n cyfrannu at leihau allyriadau carbon yn rhan o'r ymagwedd at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ar yr un pryd â gwella llesiant pobl a chymunedau Cymru, fel yr amlinellir yn Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (gweler isod, paragraff 3.4.20).
- 3.4.16. Mae'n amlwg bod polisiâu ar bynciau a godir gan gais yng Nghymru yn gallu bod yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol wrth benderfynu ar gais NSIP, a dyma'r sail yr wyf wedi ystyried polisi PPW arni.

Nodiadau Cyngor Technegol (TANs)

- 3.4.17. Mae'r TANs a'r Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTANs) a gynhyrchwyd gan LIC yn rhoi arweiniad ychwanegol ar bynciau cynllunio penodol. Gall cynnwys y TANs canlynol fod yn bwysig ac yn berthnasol wrth ystyried y cais hwn, ac maent wedi cael eu hystyried:
- TAN 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009);
 - TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010);
 - TAN 11: Sŵn (1997);
 - TAN 12: Dylunio (2014);
 - TAN 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004);
 - TAN 18: Trafnidiaeth (2007);
 - TAN 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2013);
 - TAN 21: Gwastraff (2014);
 - TAN 23: Datblygu Economaidd (2014);
 - MTAN 1: Agregau (2004); ac
 - MTAN 2: Glo (2009).

Cynllun Gofodol Cymru 2008 – Pobl, Llefydd, Dyfodol

- 3.4.18. Mae Cynllun Gofodol Cymru 2008 (WSP2008) yn amlinellu blaenoriaethau gofodol cenedlaethol trawsbynciol ac yn darparu'r cyd-destun a'r cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau). Mae'n amlygu chwe is-ranbarth yng Nghymru heb ddiffinio ffiniau caeth, sy'n

adlewyrchu'r gwahanol gysylltiadau sy'n ymwneud â gweithgareddau dyddiol. Mae'r cynllun yn gosod Abertawe yn rhanbarth Bae Abertawe – y Glannau a'r Cymoedd Gorllewinol (Pennod 20). Mae'n amlygu Abertawe fel anheddiad allweddol o bwysigrwydd cenedlaethol, economi gystadleuol sy'n seiliedig ar wybodaeth a sbardunwr allweddol ar gyfer twf yn y rhanbarth. Rwyf wedi ystyried cynnwys perthnasol o WSP2008.

- 3.4.19. Ystyriwyd ymgynghoriad drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn ystod yr Archwiliad a thynnwyd sylw'r Ymgeisydd ac IPs ato (paragraff 4.2.44 [APP-007]). Ni ystyriwyd ei fod yn sylweddol wahanol i WSP nac yn effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd polisi ar gyfer y datblygiad arfaethedig o'i gymharu ag WSP. Fodd bynnag, os cymeradwyir y FfDC cyn penderfyniad yr SoS, fe allai fod angen ymgynghori â'r Ymgeisydd ac IPs ymhellach ar ffurf derfynol y polisi ym Mhenod A sy'n berthnasol i ranbarth Bae Abertawe – y Glannau a'r Cymoedd Gorllewinol lle y mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i leoli.

Polisïau Llywodraeth Cymru ar Ynni a'r Newid yn yr Hinsawdd

- 3.4.20. Rwyf wedi ystyried y polisïau canlynol gan LIC ar ynni a'r newid yn yr hinsawdd:
- Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012);
 - Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (2010); a
 - Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019). Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn amlinellu 100 o bolisïau a chynigion i gyrraedd targedau allyriadau carbon 2020 (gweler Adran 4.8 isod).
- 3.4.21. Mae'r dogfennau hyn yn berthnasol o ran pynciau.
- 3.4.22. Ar 29 Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030 a chydlynu camau gweithredu i helpu meysydd eraill o'r economi i symud yn bendant oddi wrth danwydd ffosil, gan gynnwys y byd academiaidd, diwydiant a'r trydydd sector. Roedd hyn ar ôl diwedd yr archwiliad ar gyfer y DCO hwn a bydd yn fater i'r Ysgrifennydd Gwladol ei ystyried wrth wneud ei benderfyniad terfynol ar y DCO.

3.5. CYFRAITH EWROPEAIDD A RHEOLIADAU CYSYLLTIEDIG Y DEYRNAS UNEDIG

Cyfarwyddeb y Cyngor 2011/92/EU ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd (y Gyfarwyddeb AEA)

- 3.5.1. Mae'r Gyfarwyddeb AEA yn diffinio'r weithdrefn a ddefnyddir gan y corff penderfynu perthnasol i gasglu gwybodaeth am effeithiau amgylcheddol prosiect a'i hystyried cyn rhoi caniatâd ar gyfer datblygiad. Mae'n berthnasol i ystod eang o brosiectau cyhoeddus a phreifat, a ddiffinnir yn Atodiadau I a II y Gyfarwyddeb.

- 3.5.2. Mae'n rhaid i'r datblygiad arfaethedig gael ei ystyried o dan ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig sy'n gysylltiedig â 2011/92/EU: Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (AEA) 2009 (fel y'u diwygiwyd), a drafodir ymhellach isod. Y Gyfarwydddeb AEA fwyaf diweddar yw 2014/52/EU, a ddaeth i rym ar 15 Mai 2014. Troswyd Cyfarwydddeb 2014 yn gyfraith ddomestig y Deyrnas Unedig ar 16 Mai 2017.

Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (y Rheoliadau AEA)

- 3.5.3. Y ddeddfwriaeth AEA bresennol ar gyfer achosion NSIP yw Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (AEA) 2017 (Rheoliadau AEA 2017). Maen nhw'n dirymu Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (AEA) 2009 (Rheoliadau AEA 2009) yn amodol ar ddarpariaethau trosiannol yn Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017. Honnodd yr Ymgeisydd fod y darpariaethau trosiannol yn berthnasol i'r cais ac felly ei fod wedi cydymffurfio â darpariaethau perthnasol Rheoliadau AEA 2009 yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio (paragraff 2.4.10 [APP-007]).
- 3.5.4. Daeth Rheoliadau AEA 2017 i rym ar 16 Mai 2017, sef blwyddyn cyn i'r cais gael ei wneud. Er hynny, mae Rheoliad 37(2)(a)(ii) Rheoliadau AEA 2017 yn datgan y bydd Rheoliadau AEA 2009 yn parhau i fod yn berthnasol i unrhyw gais am orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu neu ganiatâd dilynol lle'r oedd yr Ymgeisydd, cyn i Rheoliadau 2017 ddechrau, wedi gofyn i'r SoS fabwysiadu barn gwmpasu a ddiffiniwyd gan Rheoliadau AEA 2009.
- 3.5.5. Gofynnodd yr Ymgeisydd am farn gwmpasu gan yr SoS ar 26 Mehefin 2014, a mabwysiadwyd y farn honno gan yr Arolygiaeth (yr Arolygiaeth) ar ran yr SoS ar 1 Awst 2014. Felly, o ran y Cais hwn, rwyf yn fodlon bod darpariaethau Rheoliad 37(2)(a)(ii) Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol, ac y dylent gael eu hystyried yn erbyn Rheoliadau AEA 2009.
- 3.5.6. Mae'r Rheoliadau AEA yn pennu'r lleiafswm gwybodaeth sydd i'w chyflenwi gan yr Ymgeisydd o fewn ES, yn ogystal â'r wybodaeth y gall ExA ofyn amdani gyda chyfiawnhad rhesymol o ystyried amgylchiadau'r achos. Mae Rhan 2 Atodlen 4 yn nodi'r gofynion lleiaf ar gyfer ES o dan y Rheoliadau AEA, ac atgyfnerthir hyn gan Rheoliad 3(2), sy'n amlinellu dyletswydd graidd y penderfynwr wrth wneud penderfyniad ar Ddatblygiad AEA. Yn ôl Rheoliad 3(2) y Rheoliadau AEA:
- "...mae'n rhaid i'r penderfynwr beidio â gwneud gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu oni bai ei fod wedi ystyried y wybodaeth amgylcheddol yn gyntaf, ac mae'n rhaid iddo ddatgan yn ei benderfyniad ei fod wedi gwneud hynny."*
- 3.5.7. Mae'r datblygiad arfaethedig yn ddatblygiad AEA o dan Atodlen 2 y Rheoliadau AEA. Mae'r Ymgeisydd wedi darparu ES [APP-016 to APP-042] yn rhan o'r cais a gyflwynwyd.
- 3.5.8. Wrth ddod i'm casgliadau a'm hargymhelliad, rwyf wedi ystyried y wybodaeth amgylcheddol fel y'i diffiniwyd yn Rheoliad 3(2) (gan gynnwys

yr ES a'r holl wybodaeth arall am effeithiau amgylcheddol y datblygiad) (gweler Penodau 4 i 6 yr adroddiad hwn).

Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/50/EC ar ansawdd aer yr amgylchedd ac aer glanach ar gyfer Ewrop (y Gyfarwyddeb Ansawdd Aer)

- 3.5.9. Daeth y Gyfarwyddeb Ansawdd Aer (AQD) i rym ar 11 Mehefin 2008. Mae'r Gyfarwyddeb yn cydgrynhoi pedair cyfarwyddeb ac un penderfyniad y Cyngor yn un gyfarwyddeb ar ansawdd aer. O dan yr AQD, mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau asesu ansawdd aer yr amgylchedd o ran sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid a nitrogen monocsid, deunydd gronynnol (PM₁₀ a PM_{2.5}), plwm, bensen a charbon monocsid (CO). Mae'r Gyfarwyddeb yn gosod gwerthoedd cyfyngol ar gyfer cydymffurfio ac yn sefydlu camau rheoli lle y ceir gormodiant. Mae wedi'i throsi'n statud y Deyrnas Unedig trwy reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (EA1995).
- 3.5.10. Mae Rhan IV EA1995 yn mynnu bod pob awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig yn adolygu ac asesu ansawdd aer yn ei ardal. Os ceir gormodiant o ran unrhyw safonau neu os ydynt yn annhebygol o gael eu cyflawni erbyn y dyddiad gofynnol, dylai'r ardal honno gael ei dynodi'n Ardal Rheoli Ansawdd Aer ac mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol (ALI) lunio a gweithredu Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer i geisio lleihau lefelau'r llygrydd.
- 3.5.11. Amlinellir perthnasedd y Gyfarwyddeb hon i'r cais hwn yn uniongyrchol ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (fel y'u diwygiwyd)

- 3.5.12. Mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EP) (Cymru a Lloegr) 2016 (fel y'u diwygiwyd) yn berthnasol i bob gosodiad newydd ac yn trosi gofynion Cyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol (IED) yr Undeb Ewropeaidd (y Comisiwn Ewropeaidd, 2010) yn ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig. Gan fod y Datblygiad Arfaethedig o fewn a1 Gweithgarwch Hylosgi o dan y Rheoliadau EP, byddai angen EP cyn i'r Datblygiad Arfaethedig ddechrau gweithredu.
- 3.5.13. O dan yr IED a'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, mae'n ofynnol i weithredwr gosodiad sy'n dod o dan yr IED ddefnyddio'r Technegau Gorau sydd Ar Gael (BAT) i atal neu leihau allyriadau i'r amgylchedd, er mwyn sicrhau lefel uchel o amddiffyniad i'r amgylchedd yn gyffredinol. Mae gorsafoedd cynhyrchu sydd ag allbwn thermol o fwy na 50 MW, fel y Datblygiad Arfaethedig, yn dod o dan yr IED a'r EPR.
- 3.5.14. Amlinellir perthnasedd y Cyfarwyddbau a'r Rheoliadau hyn i'r cais hwn yn uniongyrchol ym Mhenodau 4 a 5 yr adroddiad hwn.

Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar warchod cynefinoedd naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion gwyllt (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd)

- 3.5.15. Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (ynghyd â Chyfarwyddeb y Cyngor 2009/147/EC ar warchod adar gwyllt ('y Gyfarwyddeb Adar')) yw canolbwynt polisi cadwraeth natur Ewrop. Mae wedi'i seilio ar ddau brif gonglfaen: rhwydwaith Natura 2000 o safleoedd a warchodir a'r system fanwl o warchod rhywogaethau. Mae'r Gyfarwyddeb yn gwarchod mwy na 1,000 o rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion a mwy na 200 o fathau o gynefinoedd (er enghraifft: mathau arbennig o fforestydd; dolydd; gwlyptiroedd; ac ati) sydd o bwysigrwydd Ewropeaidd. Mae'n mynnu bod ardaloedd yn cael eu dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau).
- 3.5.16. Mae'r Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar wedi'u trosi'n gyfraith y Deyrnas Unedig trwy Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 o ran yr amgylchedd daearol a dyfroedd tiriogaethol hyd at 12 môr-filltir; a thrwy Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 ar gyfer dyfroedd alltraeth y Deyrnas Unedig.
- 3.5.17. Amlinellir perthnasedd y Gyfarwyddeb hon i'r cais hwn yn uniongyrchol ym Mhennod 5 (HRA) yr adroddiad hwn, ond fe'i hystyrir mewn mannau eraill fel y bo'r angen.

Cyfarwyddeb y Cyngor 2009/147/EC ar warchod adar gwyllt (y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt)

- 3.5.18. Mae'r Gyfarwyddeb Adar yn gynllun cynhwysfawr sy'n gwarchod yr holl rywogaethau adar gwyllt sy'n bodoli'n naturiol yn yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r Gyfarwyddeb yn cydnabod mai colli a diraddio cynefin yw'r bygythiadau mwyaf difrifol i warchod adar gwyllt. Felly, mae'n rhoi pwyslais mawr ar warchod cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau sydd mewn perygl yn ogystal â rhywogaethau mudol. Mae'n mynnu bod ardaloedd sy'n cynnwys yr holl diriogaethau mwyaf addas i'r rhywogaethau hyn yn cael eu dosbarthu'n Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau). Ers 1994, mae pob AGA yn rhan annatod o rwydwaith ecolegol Natura 2000.
- 3.5.19. Mae'r Gyfarwyddeb Adar yn gwahardd gweithgareddau sy'n bygwth adar yn uniongyrchol, fel lladd neu ddal adar yn fwriadol, dinistrio eu nythod a chymryd eu hwyau, a gweithgareddau cysylltiedig fel masnachu mewn adar byw neu farw. Mae'n mynnu bod Aelod-wladwriaethau yn cymryd camau angenrheidiol i gynnal y boblogaeth rhywogaethau adar gwyllt ar lefel sy'n cyd-fynd, yn arbennig, â gofynion ecolegol, gwyddonol a diwylliannol, ar yr un pryd ag ystyried gofynion economaidd a hamdden.
- 3.5.20. Amlinellir perthnasedd y Gyfarwyddeb hon i'r cais hwn yn uniongyrchol ym Mhennod 5 (HRA) yr adroddiad hwn, ond fe'i hystyrir mewn mannau eraill fel y bo'r angen.

Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) ('y Rheoliadau Cynefinoedd')

- 3.5.21. Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn rhoi grym domestig i'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwydddeb Adar Gwyllt ac yn gonglfaen ar gyfer cyflawni'r HRA yng Nghymru a Lloegr. Amlinellir eu perthnasedd i'r cais hwn yn uniongyrchol ym Mhennod 5 (HRA) yr adroddiad hwn, ond fe'u hystyrir mewn mannau eraill fel y bo'r angen.

Cyfarwydddeb y Cyngor 2000/60/EC (fel y'i diwygiwyd) Fframwaith ar gyfer gweithredu cymunedol ym maes polisi dŵr (y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr)

- 3.5.22. Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yn sefydlu fframwaith ar gyfer polisi dŵr, gan reoli ansawdd dyfroedd derbyn. Mae'r gyfarwydddeb yn ymwneud â rheoli dŵr. Ymhlith amcanion eraill, mae'n mynnu bod Aelod-wladwriaethau'r UE yn atal dirywiad cyrff dŵr wyneb a chyrff dŵr daear a'u hecosystemau, ac yn gwella ansawdd cyrff dŵr wyneb a dŵr daear trwy leihau llygredd yn gynyddol a thrwy adfer.
- 3.5.23. Mae'r WFD wedi'i throsi'n gyfraith yng Nghymru a Lloegr gan Reoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017.
- 3.5.24. Wrth weithredu'r gyfarwydddeb, mae NPS EN-1 yn datgan ym mharagraff 5.15.3 y dylai ES ddisgrifio:

"nodweddion ffisegol presennol yr amgylchedd dŵr (gan gynnwys maint a dynameg llif) y mae'r prosiect arfaethedig yn effeithio arnynt ac unrhyw effaith o ganlyniad i addasiadau ffisegol i'r nodweddion hyn; ac unrhyw effeithiau ar gyrff dŵr neu ardaloedd a warchodir o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr o ganlyniad i'r prosiect arfaethedig."

- 3.5.25. Ystyrir ansawdd dŵr a rheoli dŵr ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

3.6. DARPARIAETHAU CYFREITHIOL ERAILL

Confensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig (UNEP) ar Amrywiaeth Fiolegol 1992

- 3.6.1. Fel sy'n ofynnol gan Reoliad 7 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Penderfyniadau) 2010, rwyf wedi rhoi sylw i'r Confensiwn hwn wrth ystyried effeithiau tebygol y datblygiad arfaethedig ac amcanion a dulliau priodol ar gyfer lliniaru a digolledu. Yn arbennig, deuaif i'r casgliad bod cydymffurfio â darpariaethau'r Deyrnas Unedig ar faterion AEA a thrawsffiniol o ran effeithiau ar fioamrywiaeth y cyfeirir atynt yn y Bennod hon, yn bodloni gofynion y Confensiwn.
- 3.6.2. Cadarnhawyd y Confensiwn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Mehefin 1994. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) sy'n gyfrifol am gyfraniad y Deyrnas Unedig at y Confensiwn, sy'n

hyrwyddo integreiddio bioamrywiaeth mewn polisïau, prosiectau a rhaglenni o fewn y Llywodraeth a thu hwnt.

- 3.6.3. Mae hyn yn berthnasol i fioamrywiaeth, yr amgylchedd biolegol, ecoleg a materion HRA ac AEA, a ystyrir ym Mhenodau 4 a 5 yr adroddiad hwn.

Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (fel y'i diwygiwyd)

- 3.6.4. Mae Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 yn darparu'r fframwaith ar gyfer sefydlu Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae hefyd yn sefydlu pwerau i ddatgan Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR) ac i awdurdodau lleol sefydlu Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR).
- 3.6.5. Rhoddir gwarchodaeth statudol i Barciau Cenedlaethol ac AHNEau er mwyn gwarchod a gwella eu harddwch naturiol, gan gynnwys tirffurf, daeareg, planhigion, anifeiliaid, nodweddion tirwedd a phatrwm cyfoethog anheddiad dynol ar hyd yr oesoedd.
- 3.6.6. Fe'i hystyriwyd ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)

- 3.6.7. Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n gwarchod anifeiliaid, planhigion a rhai cynefinoedd yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer hysbysu am Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) a'u cadarnhau. Amlygir y safleoedd hyn oherwydd eu planhigion, eu hanifeiliaid neu eu nodweddion daearegol neu ffisiograffigol gan y Cyrff Cadwraeth Natur Statudol (SNCB) yn y Deyrnas Unedig. Yr SNCB ar gyfer Cymru yw CNC.
- 3.6.8. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer ac yn gwarchod bywyd gwylt; cadwraeth natur, gwarchod cefn gwlad a Pharciau Cenedlaethol; a Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW).
- Os yw datblygiad yn debygol o effeithio ar rywogaeth a warchodir o dan y Ddeddf, bydd angen trwydded rhywogaeth a warchodir gan CNC.
 - Mae'n rhaid ystyried safleoedd a warchodir o dan y Ddeddf (gan gynnwys SoDdGA) hefyd.
 - Mae effeithiau datblygiad ar y rhwydwaith PRoW yn berthnasol hefyd.
- 3.6.9. Mae hyn yn berthnasol i ystyried effeithiau ar SoDdGA ac ar rywogaethau a chynefinoedd a warchodir.
- 3.6.10. Trafodaf yr holl faterion hyn ym Mhenodau 4 a 5 yr adroddiad hwn.

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf CRow)

- 3.6.11. Cyflwynodd y Ddeddf CRow fesurau i warchod AHNEau ymhellach a gwell darpariaethau ar gyfer gwarchod a rheoli SoDdGAau.
- 3.6.12. O ran yr achos presennol, mae hyn yn berthnasol i archwilio effeithiau a mesurau lliniaru wrth ystyried effeithiau posibl ar AHNE Gogledd-ddwyrain Gŵyr a Chwm Cocyd ac ar SoDdGA. Ystyrir y materion hyn ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Deddf NERC)

- 3.6.13. Mae'r Ddeddf NERC yn darparu ar gyfer cyrff sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol a chymunedau gwledig mewn cysylltiad â safleoedd bywyd gwyllt, SoDdGAau, Parciau Cenedlaethol a'r Broads. Mae'n cynnwys dyletswydd y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus ei hystyried, wrth arfer ei swyddogaethau, i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol at ddiben bioamrywiaeth. Wrth gydymffurfio â hyn, mae'n rhaid ystyried Confensiwn UNEP ar Amrywiaeth Fiolegol 1992.
- 3.6.14. Mae hyn yn berthnasol i faterion bioamrywiaeth, yr amgylchedd biolegol ac ecoleg a thirwedd sy'n codi o'r Datblygiad Arfaethedig, ac adroddir arnynt ym Mhenodau 4 a 5 yr adroddiad hwn.

Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008

- 3.6.15. Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yw'r sail ar gyfer ymagwedd y Deyrnas Unedig at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac ymateb iddo. Mae'n mynnu bod allyriadau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill yn cael eu lleihau a bod paratodau'n cael eu gwneud ar gyfer risgiau newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu'r fframwaith i gyflawni'r gofynion hyn.
- 3.6.16. Mae'r Ddeddf yn cefnogi ymrwymiad y Deyrnas Unedig i gymryd camau rhyngwladol brys i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.
- 3.6.17. Mae'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd yn ymrwymo llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ôl y gyfraith i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 80% o leiaf o lefelau 1990 erbyn 2050⁸. Mae hyn yn cynnwys lleihau allyriadau o'r gweinyddiaethau datganoledig (yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon), sy'n cyfrif am oddeutu 20% o allyriadau'r Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Roedd y targed 80% wedi'i seilio ar gyngor o adroddiad 2008 y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd (CCC), sef '*Adeiladu economi carbon isel*'.⁹
- 3.6.18. Mae hyn yn berthnasol i faterion bioamrywiaeth (Adran 4.16), perygl llifogydd (Adran 4.17), ansawdd aer (Adran 4.14) a gweithredol sy'n codi

⁸ Nodir y diwygiad 100% a gyflwynwyd ar ôl i'r archwiliad hwn ddod i ben, ac mae hyn yn fater i'r SoS ei ystyried.

⁹ <https://www.theccc.org.uk/tackling-climate-change/the-legal-landscape/the-climate-change-act/>

o'r Datblygiad Arfaethedig ac yr adroddir arnynt ym Mhenodau 4 a 5 yr adroddiad hwn.

- 3.6.19. Ar ôl i'r archwiliad ddod i ben, diwygiwyd y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd gan Offeryn Statudol 1056 (2019)¹⁰ i darged sero net o 100% erbyn 2050. Nid yw'r argymhellion yn yr adroddiad hwn wedi ystyried y newid hwn o ganlyniad i'r amseriad, a bydd yn fater i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w ystyried wrth wneud ei benderfyniad terfynol.

3.7. GORCHMYNION CANIATÂD DATBLYGU A WNAED

- 3.7.1. Ystyriwyd Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu sy'n Rhedeg ar Nwy Hirwaun (SI2015/1574) (Gorchymyn Hirwaun) a Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu sy'n Rhedeg ar Nwy Wrecsam (SI2017/766) (Gorchymyn Wrecsam) a wnaed. Mae Gorchymyn Hirwaun yn darparu ar gyfer gorsaf gynhyrchu tyrbin nwy cylch syml lle mae'r Ymgeisydd hefyd yn Gwmni Grŵp Drax, fel sy'n wir o ran y cais presennol. Mae dull yr Ymgeisydd o lunio'r DCO yn y cais hwn wedi cael ei lywio'n fanwl gan y dull llunio a ddefnyddiwyd ar gyfer Gorchmynion Hirwaun a Wrecsam [APP-013]. Mewn amgylchiadau lle nad oes angen diwygio darpariaethau i fynd i'r afael â gofynion deddfwriaethol a pholisi, materion sy'n codi o gynrychiolaethau ac amgylchiadau lleol, rwyf o'r farn ei bod yn briodol i'r dull llunio a ddefnyddiwyd ar gyfer Gorchmynion Hirwaun a Wrecsam fod yn fan cychwyn ar gyfer fy DCO drafft argymelledig.

- 3.7.2. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Gorchymynion canlynol a wnaed yng Nghymru hefyd:

- Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Gwaith Dur Port Talbot (SI 2015/1984);
- Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Llanw Bae Abertawe (SI 2015/1386) (fel y'i diwygiwyd);
- Gorchymyn Gwaith Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP) South Hook (SI 2014/2846);
- Gorchymyn Fferm Wynt Coedwig Clocaenog (SI 2014/2441); a
- Gorchymyn Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa (SI 2013/586) (fel y'i diwygiwyd).

Diben hyn yn bennaf yw darparu cyd-destun ar gyfer ystyried y dull i'w ddefnyddio o ran y math o ddatblygiad y gellir ei ddisgrifio'n ddatblygiad hanfodol a chysylltiedig yng Nghymru, a'r berthynas briodol rhwng datblygiad cysylltiedig a phwerau CA a TP mewn DCO sy'n berthnasol i dir a datblygiad yng Nghymru.

3.8. EFFEITHIAU TRAWSFFINIOL

- 3.8.1. Mae'r SoS wedi cynnal yr ymarferion Sgrinio Trawsffiniol canlynol:

- Ymarfer sgrinio cyntaf – 22 Awst 2014 yn dilyn cais yr Ymgeisydd am farn gwmpasu [OD-001].

¹⁰ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2019/1056/pdfs/ukxi_20191056_en.pdf

- Ail ymarfer sgrinio – 7 Tachwedd 2018 ar ôl i'r Cais gael ei dderbyn i'w archwilio.

3.8.2. O dan Reoliad 24 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (AEA) 2009 (fel y'u diwygiwyd) (y Rheoliadau AEA) ac ar sail y wybodaeth a oedd ar gael gan yr Ymgeisydd, penderfynodd yr SoS ar 22 Awst 2014 nad yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd yn un o Aelod-wladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA). Nid oedd y penderfyniad hwn wedi newid ar ôl yr ail ymarfer sgrinio ar 7 Tachwedd 2018.

3.8.3. Wrth ddod i'r casgliad hwn, mae'r SoS wedi defnyddio'r ymagwedd ragofalus a esbonnir yn Nodyn Cyngor 12 yr Arolygiaeth ar Ymgynghori ar Effeithiau Trawsffiniol. Felly, ni ystyriwyd bod angen ymgynghori ar faterion trawsffiniol o dan Reoliad 24 y Rheoliadau AEA.

3.9. DATGANIADAU POLISI ERAILL PERTHNASOL

3.9.1. Rwyf wedi ystyried polisiau eraill perthnasol y Llywodraeth, gan gynnwys:

- Y Papur Gwyn ar Ynni: Ateb yr Her (Mai 2007);
- Cynllun Newid Carbon Isel y Deyrnas Unedig (2009);
- Strategaeth Genedlaethol ar gyfer yr Hinsawdd ac Ynni (Gorffennaf 2009);
- Strategaeth Ynni Adnewyddadwy y Deyrnas Unedig (Gorffennaf 2009); a'r
- Cynllun Seilwaith Cenedlaethol (diweddarwyd yn 2019)¹¹.

3.10. ADRODDIADAU AR YR EFFAITH LEOL

3.10.1. Mae adran 104(2) PA2008 yn datgan bod rhaid i'r SoS ystyried unrhyw Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) o fewn ystyr a60(3) y Ddeddf honno wrth benderfynu ar y cais.

3.10.2. O dan a60(2) PA2008, mae'n ofynnol rhoi hysbysiad ysgrifenedig i bob ALL sy'n dod o dan a56A, a'i wahodd i gyflwyno LIR. Rhoddwyd yr hysbysiad hwn ar 12 Medi 2018 [PD-005].

3.10.3. Cyflwynwyd LIR gan CCS ar 9 Tachwedd 2018 [REP1-021].

3.10.4. Mae'r LIR wedi'i strwythuro mewn ffordd sy'n ystyried penodau amrywiol ES yr Ymgeisydd mewn perthynas â pholisiau'r cyngor. Er enghraifft, ystyrir materion fel trafndiaeth, sŵn, ansawdd aer, ecoleg, a'r effaith dirweddol a gweledol.

3.10.5. Ystyrir yr LIR ym mhob Pennod o 4 - 9 yn yr adroddiad hwn.

3.11. Y CYNLLUN DATBLYGU

¹¹ <https://www.nic.org.uk/assessment/national-infrastructure-assessment/executive-summary/>

- 3.11.1. Yn ôl yr LIR [REP1-021], at ddibenion a38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, y cynllun datblygu ar gyfer ardal safle'r cais yw Cynllun Datblygu Unedol (CDU) CCS (a fabwysiadwyd ym mis Tachwedd 2008).
- 3.11.2. Nid yw polisiâu'r cynllun datblygu a ddyfynnwyd gan CCS yn ei LIR [REP1-021] fel rhai sy'n berthnasol i'r datblygiad arfaethedig yn berthnasol mwyach.
- 3.11.3. Ar ddechrau'r Archwiliad, roedd CCS wrthi'n paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd, a fyddai, ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, yn disodli'r CDU fel y ddogfen polisi cynllunio allweddol ar gyfer CCS hyd at 2025.
- 3.11.4. Cyflwynodd CCS y CDLI Adnau i Weinidogion Cymru i'w archwilio'n annibynnol ar 28 Gorffennaf 2017. Ar ôl iddo gael ei dderbyn yn ffurfiol ar 4 Awst 2017, penododd Gweinidogion Cymru Arolygwyr i gynnal yr archwiliad annibynnol ac i asesu cadernid y CDLI. Dechreuodd Gwrandawiaidau'r Archwiliad ar 6 Chwefror 2018 gan barhau tan yn hwyr ym mis Mawrth 2018.
- 3.11.5. Ar 31 Ionawr 2019, rhoddodd yr Arolygwyr eu hadroddiad i CCS. Daeth yr adroddiad i'r casgliad, yn amodol ar y Materion sy'n Arwain at Newidiadau (MAC) a Materion yr Arolygwyr sy'n Arwain at Newidiadau (IMAC) argymelledig a amlinellir yn Atodiadau A a B, bod CDLI Abertawe 2010 – 2025 (y CDLI) yn darparu sail briodol ar gyfer cynllunio yn y Sir hyd at 2025. Mae gan y Cyngor ddigon o dystiolaeth i gefnogi'r strategaeth ac mae wedi dangos bod ganddo debygolrwydd realistig o gael ei gyflawni. Mae angen gwneud nifer o newidiadau i wneud y Cynllun yn gadarn a bodloni gofynion statudol.
- 3.11.6. Ar 28 Chwefror 2019, mabwysiadodd y Cyngor "Gynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025". Daeth y Cynllun i rym ar y diwrnod hwnnw a dyna yw'r cynllun datblygu ar gyfer Abertawe bellach, sy'n darparu fframwaith cynllunio cyfredol i arwain a llywio cynigion datblygu. Mae'r CDLI yn disodli'r CDU, a hynny ar unwaith [REP4-022 to 026].
- 3.11.7. Bydd gweledigaeth y CDLI yn cael ei chyflawni trwy gyfres o amcanion strategol sy'n ymwneud â "Gwella Cymunedau, Cyfleusterau a Seilwaith", "Sicrhau Twf Economaidd a Ffyniant", a "Meithrin Amgylchedd o Ansawdd Uchel". Amlinellir y rhai sy'n berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig isod [REP1-021]:
- *Hwyluso darparu seilwaith priodol i gefnogi cymunedau a busnesau;*
 - *Annog datblygu adnoddau ynni a seilwaith ynni carbon isel ac adnewyddadwy yn briodol;*
 - *Cefnogi diogelu adnoddau naturiol a'u defnyddio'n gynaliadwy lle y bo'n briodol;*
 - *Cefnogi datblygiad sy'n gwneud Abertawe yn lle sy'n gystadleuol yn economaidd ac yn ysgogwr economaidd ar gyfer y Dinas-ranbarth;*
 - *Hwyluso twf ac arallgyfeirio'r economi leol a chynnydd mewn cyflogaeth fedrus o werth uchel;*

- *Hyrwyddo strategaeth datblygu cynaliadwy sy'n osgoi effeithiau amgylcheddol niweidiol arwyddocaol ac yn parchu asedau amgylcheddol;*
- *Cynnal a gwella rhwydweithiau seilwaith gwyrdd;*
- *Cefnogi mesurau i leihau achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd gymaint â phosibl; a*
- *Hyrwyddo dyluniad da sy'n unigryw yn lleol, yn gynaliadwy, yn arloesol ac yn ystyriol o leoliad."*

3.11.8. Lle y bo'n briodol, aseswyd materion cynllunio yn erbyn polisiau'r CDLI fel y manylir ym Mhennod 4 isod.

3.11.9. Rwyf wedi ystyried a yw'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at effeithiau pwysig a pherthnasol mewn ardaloedd llywodraeth leol cyfagos. Fodd bynnag, o ystyried absenoldeb LIRs gan unrhyw awdurdodau cyfagos a'm harchwiliadau fy hun [EV-008] o leoliad safle'r cais, rwyf wedi dod i'r casgliad nad oes angen ystyried polisiau unrhyw gynlluniau datblygu gan awdurdodau cyfagos.

3.11.10. Fel y nodir ym mharagraff 4.1.5 NPS EN-1, os oes gwrthdaro rhwng y dogfennau uchod ac NPS, yr NPS fydd drechaf oherwydd arwyddocâd cenedlaethol y seilwaith. Mae'r SoCG rhwng yr Ymgeisydd a CCS [REP3-010] yn cytuno bod yr ystod o dystiolaeth a dynodiadau polisi sy'n berthnasol i'r Deyrnas Unedig, Cymru ac yn lleol, fel y'u hamlinellir ym Mhennod 2 yr ES [APP-042], wedi cael eu datgan yn briodol.

3.12. PWERAU'R YSGRIFENNYDD GWLADOL I WNEUD DCO

3.12.1. Drwy gydol yr Archwiliad, roeddwn yn ymwybodol o'r angen i ystyried a oedd newidiadau i'r cais wedi'i newid i'r graddau ei fod yn gais gwahanol a ph'un a fyddai gan yr SoS bŵer, felly, o dan a.114 PA2008 i wneud DCO o ystyried y caniatâd datblygu y gwnaed cais amdano.

3.12.2. Mae 'Deddf Cynllunio 2008: Canllawiau ar gyfer archwilio ceisiadau am ganiatâd datblygu', gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (Mawrth 2015), yn rhoi arweiniad ym mharagraffau 109 i 115 ynglŷn â newid cais ar ôl iddo gael ei Dderbyn³. Y farn a fynegwyd gan y Llywodraeth wrth i'r Ddeddf Lleoliaeth gael ei phasio oedd bod a114(1) yn gosod y cyfrifoldeb am wneud DCO ar y penderfynwr, ac nad yw'n cyfyngu ar y termau y gellir ei wneud ynddynt.

3.12.3. Ar ôl ystyried y cyd-destun hwn drwy gydol yr Archwiliad, rwyf yn fodlon nad yw'r newidiadau i'r cais (sef diwygiadau technegol i'r DCO y gwnaed cais amdano yn bennaf) yn cynrychioli newid mor arwyddocaol sy'n gyfystyr â chais newydd sy'n wahanol i hwnnw y gwnaed cais amdano. Felly, rwyf o'r farn bod gan yr SoS bŵer i wneud y DCO fel yr argymhellir ym Mhennod 9 ac a ddarperir yn Atodiad Ch yr adroddiad hwn.

4. Y MATERION CYNLLUNIO

4.1. CYFLWYNIAD

- 4.1.1. Mae'r bennod hon yn dechrau trwy restru'r prif faterion yn yr Archwiliad. Yna, amlinellaf y ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiais i ystyried y materion polisi a ffeithiol a godir gan y Datblygiad Arfaethedig, o fewn y fframwaith a ddarperir gan PA2008. Mae'n mynd ymlaen i osod fframwaith y mae materion unigol i'w harchwilio wedi codi ynddo. Mae'n esbonio sut mae'r fframwaith hwnnw wedi esblygu yn ystod yr Archwiliad. Yna, mae'n cymhwyso'r fframwaith hwnnw i ddadansoddi materion unigol a dod i gasgliadau arnynt. Mae'r casgliadau unigol yn bwydo ymlaen i'r casgliad cytbwys ar yr achos dros y datblygiad, a amlinellir ym Mhennod 6.

4.2. Y PRIF FATERION YN YR ARCHWILIAD

- 4.2.1. Cynhaliais Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion (IAPI)¹² yn barod ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol (PM). Cyhoeddwyd yr IAPI fel Atodiad B i'r Llythyr Rheol 6 ar 12 Medi 2018 [PD-005].
- 4.2.2. Mae'r IAPI yn amlygu'r materion a godwyd gan y cais a'r cyflwyniadau ysgrifenedig a oedd ar gael bryd hynny fel a ganlyn:
- CA;
 - Dyluniad, Gosodiad ac Amlygrwydd;
 - DCO;
 - Effeithiau Economaidd a Chymdeithasol;
 - Asesu Effeithiau Amgylcheddol (AEA);
 - Materion Amgylcheddol;
 - Cynefinoedd, Ecoleg a Chadwraeth Natur;
 - Yr Amgylchedd Hanesyddol;
 - Gweithredol; a
 - Thrafnidiaeth a Thraffig.
- 4.2.3. Gosodwyd y rhestr o faterion yn yr IAPI yn nhrefn yr wyddor (yn ôl yr arfer), heb unrhyw oblygiadau o ran arwyddocâd cymharol.
- 4.2.4. Trafodwyd cynnwys rhestr o faterion yr IAPI yn y PM, ond ni chododd yr un ohonynt yn uniongyrchol yno [PD-006]. Wrth i'r Archwiliad symud ymlaen, daeth gwahaniaethau anorfod o ran arwyddocâd cymharol materion i'r amlwg, ac felly hefyd grwpiau o faterion ar themâu cyffredin.

4.3. MATERION A GODODD MEWN CYFLWYNIADAU YSGRIFENEDIG A LLAFAR

- 4.3.1. Cyflwynwyd chwech ar hugain o Gynrychiolaethau Perthnasol (RRs) [RR-001 i 026] a rhoddwyd ystyriaeth iddynt. Cyflwynwyd RRs gan awdurdodau statudol, darparwyr cyfleustodau, CCS, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngorydd Ward Mawr, Cyngor Cymuned

¹² PA2008 a88(1).

Betws, Cyngor Cymuned Llangyfelach, preswylwyr lleol, Cyfeillion y Ddaear Abertawe, a busnesau wedi'u lleoli yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig.

- 4.3.2. Rhoddwyd cyfle i'r rhai a gymerodd ran yn yr Archwiliad wneud Cynrychiolaethau Ysgrifenedig (WR) erbyn Terfyn Amser 1 (DL1) yr Archwiliad, i wneud sylwadau arnynt erbyn DL2 ac i ymateb i'm cwestiynau i a materion a gododd mewn Gwrandawiadau, erbyn saith terfyn amser (DL1 – DL7). Cyflwynwyd naw ar hugain o ddogfennau o'r fath.
- 4.3.3. Darparwyd Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) ac fe'u hystyrir fel a ganlyn:
- Rhwng yr Ymgeisydd a CNC [REP2-009];
 - Rhwng yr Ymgeisydd ac NGETS [REP6-008];
 - Rhwng yr Ymgeisydd ac NGT [REP6-009];
 - Rhwng yr Ymgeisydd a Dŵr Cymru [REP5-006];
 - Rhwng yr Ymgeisydd a Wynne Watkins/Redisplay Limited [REP4-021];
 - Rhwng yr Ymgeisydd a CCS [REP3-010]; a
 - Rhwng yr Ymgeisydd a Michael Edwards [REP4-020].
- 4.3.4. Gwnaed cyflwyniadau llafar yn ystod Gwrandawiadau hefyd, fel y cofnodwyd ym Mhennod 1 yr adroddiad hwn uchod, a rhoddwyd ystyriaeth iddynt.

Casgliad

- 4.3.5. Ymatebwyd i'r materion a godwyd mewn RRs, WRs ac ymatebion i'm cwestiynau i, mewn SoCG ac i faterion a gododd mewn Gwrandawiadau yn fy fframwaith o faterion a amlinellir yn Adran 4.11 isod, ac fe'u hystyrir yng ngweddill yr adroddiad hwn i'r graddau eu bod yn bwysig ac yn berthnasol¹³.

4.4. MATERION SY'N CODI YN YR ADRODDIAD AR YR EFFAITH LEOL

- 4.4.1. Cyflwynwyd un LIR gan CCS [REP1-021], erbyn DL1 yr Archwiliad. Roeddwn yn ymwybodol y gallai CCS ddymuno adolygu ei LIR yn ystod cyfnod yr Archwiliad i ystyried materion a ddygwyd i'w sylw (er enghraifft, a godwyd mewn RRs), ac felly neilltuais le yn amserlen yr Archwiliad [PD-006] yn unol â PA2008 a60 i hynny ddigwydd erbyn DL2. Mae cynnwys yr LIR yn fater y mae'n ofynnol i'r SoS ei ystyried yn benodol wrth benderfynu ar y cais hwn¹⁴.
- 4.4.2. Darparodd yr LIR wybodaeth am y materion canlynol:
- y cynllun datblygu a oedd yn bodoli yn 2018;
 - polisiau a oedd yn dod i'r amlwg yn y CDLI;

¹³ PA2008 a104(2)(d)

¹⁴ PA2008 a104(2)(b)

- polisi cynllunio cenedlaethol;
- hanes cynllunio;
- dyluniad;
- trafnidiaeth;
- newid yn yr hinsawdd;
- treftadaeth;
- yr amgylchedd dŵr;
- ansawdd aer;
- sŵn a dirgryniad;
- ecoleg;
- asesiad o'r effaith dirweddol a gweledol;
- coed; a
- digonolrwydd y DCO drafft.

4.4.3. Ni chodwyd unrhyw faterion pwysig a pherthnasol yn yr LIR a arweiniodd at dorri polisi NPS perthnasol mewn egwyddor. Yn adran 21 yr LIR [REP1-021], nododd CCS fod angen i ddau Ofyniad arall gael eu cynnwys yn y DCO:

- Terfynau amser ar weithredu; a'r
- Angen am fond datgomisiynu.

4.4.4. Ymdrinnir â'r ddau fater hyn ym Mhennod 8.

4.4.5. Rhoddwyd cyngor ar y materion sydd i dderbyn sylw mewn gofynion, ac ystyrir hyn yn llawn yng ngweddill yr adroddiad hwn.

4.4.6. Amlygodd yr LIR [REP1-021] fod CCS wrthi'n paratoi ei CDLI, a fyddai, a fyddai, ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, yn disodli'r CDU fel y ddogfen polisi cynllunio allweddol ar gyfer CCS hyd at 2025.

4.4.7. Ar 28 Chwefror 2019, mabwysiadodd y Cyngor "Gynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025". Daeth y Cynllun i rym ar y diwrnod hwnnw a dyna yw'r cynllun datblygu ar gyfer Abertawe bellach, sy'n darparu fframwaith cynllunio cyfredol i arwain a llywio cynigion datblygu. Mae'r CDLI yn disodli'r CDU, a hynny ar unwaith [REP4-022 to 026].

4.4.8. Lle y bo'n briodol, mae materion cynllunio wedi cael eu hasesu yn erbyn polisiâu'r CDLI fel y manylir ym Mhennod 4 isod.

4.5. **CYDYMFFURFIO Â DATGANIADAU POLISI CENEDLAETHOL**

4.5.1. Crynhoir y fframwaith deddfwriaethol a pholisi sy'n berthnasol o fewn y Bennod hon yn fanwl ym Mhennod 3 uchod. Yn ogystal, gwneir cyfeiriadau unigol at fanylion polisiâu perthnasol yn yr adrannau ar bynciau unigol yn y Bennod hon isod.

4.5.2. Y prif ffynonellau polisi yw NPS EN-1, EN-2, EN-4¹⁵ (o ran gofyniad tir ar gyfer aliniad y cysylltiad nwy yn unig) ac EN-5¹⁶ (o ran gofyniad tir ar gyfer aliniad y cysylltiad trydanol yn unig), ac ystyriwyd holl elfennau perthnasol y rhain¹⁷.

4.5.3. Rwyf wedi ystyried y Datblygiad Arfaethedig ac, felly, wedi llunio fy argymhelliad ar sail rhinweddau cynllunio, gan nodi bod rhaid i'r SoS:

*'benderfynu ar y cais yn unol ag unrhyw ddatganiad polisi cenedlaethol perthnasol'*¹⁸

heblaw i'r graddau bod eithriad deddfwriaethol yn berthnasol¹⁹. Er yr ymdrinnir â chyfeiriadau polisi unigol isod, yn gyffredinol, sylwaf na chanfuwyd bod yr un o'r eithriadau deddfwriaethol i gymhwyso polisi NPS perthnasol yn gymwys. Mae'n dilyn, felly, yr argymhellir i'r cais gael ei benderfynu'n gyfan gwbl o fewn fframwaith polisi NPS perthnasol.

4.5.4. Amlygir a chymhwysir gofynion deddfwriaeth heblaw am PA2008 fel sy'n ofynnol. Mae polisiâu heblaw am bolisiâu sy'n codi o'r NPS yn gallu bod yn bwysig ac yn berthnasol. Amlygwyd y polisiâu hyn fel y bo'n berthnasol ac fe'u dadansoddir isod fel y bo'n ofynnol²⁰. Fodd bynnag, unwaith eto, dylid pwysleisio nad oes unrhyw ddadansoddiad o bolisi y tu hwnt i'r NPSs perthnasol wedi arwain at ystyriaethau sy'n pwyso yn erbyn cymhwyso polisi NPS fel a ganiateir o dan PA2008²¹.

4.6. CYDYMFFURFIO Â CHYNLLUN DATBLYGU LLEOL CCS

4.6.1. Mae'r bennod hon yn mynd i'r afael â chydymffurfio â pholisiâu'r cynllun datblygu o fewn y fframwaith polisi lleol a ddarperir gan y CDLI [REP4-022 i 026]. Er hynny, nid y fframwaith polisi lleol yw'r prif fframwaith polisi sy'n berthnasol i'r penderfyniad ar y cais hwn, sydd i'w benderfynu yn nhermau cydymffurfio â pholisi NPS, yn amodol ar ystyried y fframwaith polisi lleol. Gellid ystyried bod y cynigion yn ddatblygiad seilwaith angenrheidiol (Polisi CV 2 adran VII y CDLI) os ydynt yn cydymffurfio â gweddill polisiâu'r CDLI.

4.6.2. Mae Polisi ER 1 y CDLI ar Newid yn yr Hinsawdd yn mynnu bod cynigion datblygu'n ystyried yr egwyddorion canlynol i liniaru yn erbyn effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, addasu i'w effeithiau, a sicrhau cydnherthedd:

¹⁵ Yn berthnasol o ran yr asesiad o'r Cysylltiad Nwy yn unig ac nid yn uniongyrchol berthnasol i'r Orsaf Cynhyrchu Pŵer y mae'r Cais DCO yn ymwneud ag ef.

¹⁶ Yn berthnasol o ran yr asesiad o'r Cysylltiad Trydanol yn unig ac nid yn uniongyrchol berthnasol i'r Orsaf Cynhyrchu Pŵer y mae'r Cais DCO yn ymwneud ag ef.

¹⁷ PA2008 a104(2)(a)

¹⁸ PA2008 a104(3)

¹⁹ PA2008 a104(4) to (8)

²⁰ PA2008 a104(2)(d)

²¹ PA2008 a104(4) to (8)

"i. Lleihau allyriadau carbon;

ii. Gwarchod a chynyddu dalfeydd carbon;

iii. Addasu i oblygiadau'r newid yn yr hinsawdd ar lefel strategol a dylunio manwl;

iv. Hyrwyddo effeithlonrwydd ynni ac adnoddau a chynyddu'r cyflenwad ynni adnewyddadwy a charbon isel;

v. Osgoi perygl llifogydd diangen trwy asesu goblygiadau cynigion datblygu o fewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd ac atal datblygiad sy'n cynyddu'r risg yn annerbyniol, a

vi. Chynnal cydnerthedd ecolegol" [REP1-021].

4.6.3. Mae ER-1 yn mynd ymlaen i ddatgan:

"un o swyddogaethau craidd y Cynllun yw sicrhau bod pob datblygiad yn y Sir yn gynaliadwy, gan roi ystyriaeth lawn i oblygiadau lleihau'r defnydd o adnoddau a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd" [REP1-021].

Ystyriwyd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ym mhob un o benodau pwnc unigol yr ES, ac fe'u crynhoir ym Mhennod 15 yr ES [APP-042].

4.6.4. Nid oedd yr un o'r partïon eraill a gymerodd ran yn yr archwiliad wedi gofyn yn benodol i mi ystyried niwed i'r fframwaith polisi lleol neu achosion o'i dorri. Am y rhesymau hyn, er y rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r deunydd a gyfeiriwyd ataf, nid wyf wedi rhoi dadansoddiad manwl yn erbyn y fframwaith polisi lleol yng ngweddill y bennod hon, oni bai bod mater cydymffurfio y mae angen ei ddadansoddi er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar y cais hwn.

4.7. Y GYFUNDREFN TRWYDDEDU AMGYLCHEDDOL

4.7.1. Fel y nodwyd uchod ym Mhennod 3 yr Adroddiad hwn, mae'r Datblygiad Arfaethedig o fewn Atodlen 1 Rhan 2 (Gweithgarwch Hylosgi) o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EP) (Cymru a Lloegr) 2016, ac felly bydd angen EP ar elfennau o'r Datblygiad Arfaethedig. Gwneir hyn ar wahân ac yn annibynnol i CNC, sef yr awdurdod cymwys i roi a rheoleiddio EPs. At ddibenion yr Adroddiad hwn, rwyf wedi cyfeirio at y broses o wneud cais am yr EP fel y gyfundrefn EP.

4.7.2. Yn ei RR [RR-025], cadarnhaodd CNC fod angen EP ar gyfer:

- Gweithredu'r orsaf bŵer OCGT arfaethedig, y mae'n rhaid iddi ddefnyddio'r Dechnoleg Orau sydd Ar Gael (BAT). Gosodir amodau, ac os na ellir eu bodloni bydd yr EP yn cael ei gwrthod;
- Gollyngiadau i ddŵr wyneb a dŵr daear sy'n deillio o weithgareddau disbyddu yn rhan o'r cam adeiladu, gan gynnwys gollwng elifion carthion o danciau septig; ac
- Allyriadau sŵn ac ansawdd aer.

- 4.7.3. Cadarnhaodd CNC [RR-025], a diweddarodd erbyn Terfyn Amser 1 [REP1-004], fod cais i CNC wedi'i wneud yn briodol ar 2 Medi 2018, a chadarnhawyd hyn yn y SoCG rhwng yr Ymgeisydd a CNC [REP2-002]. Ni chafodd Tîm Trwyddedu CNC unrhyw ymatebion i'w ymgynghoriad cyhoeddus 'O Blaid Cymeradwyo', ac felly rhoddodd y Drwydded ar gyfer y datblygiad hwn ar 18 Ionawr 2019.

4.8. YR ANGEN AM Y DATBLYGIAD A DEWISIADAU AMGEN

- 4.8.1. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn NSIP, fel yr amlinellir yn a14 ac a15 PA2008 (fel y'i diwygiwyd). Ymdrinnir â'r angen am y datblygiad yn NPS EN-1, paragraff 3.1, sy'n datgan y dylai ceisiadau o'r fath gael eu hasesu ar y sail bod y Llywodraeth wedi dangos bod angen y math hwn o seilwaith ac y dylid rhoi pwys sylweddol i'w gyfraniad at fodloni'r angen hwn. Mae paragraffau 3.6.1 a 3.6.2 yr un NPS yn datgan y canlynol:

"mae hefyd angen cymysgedd o ffynonellau ynni, gan gynnwys tanwydd ffosil, i fodloni'r galw mewn modd hyblyg, a fydd yn helpu i newid i economi carbon isel".

- 4.8.2. Mae cynllun Llywodraeth Cymru 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)' yn datgan ar dudalen 65:

"Bydd gan nwy rôl bontio bwysig ym maes cynhyrchu pŵer hefyd."

- 4.8.3. Cydnabyddir bod cynhyrchu tanwydd ffosil yn cyflawni swyddogaeth hollbwysig wrth ddarparu cyflenwadau ynni dibynadwy a hyblygrwydd mewn ymateb i newidiadau o ran y cyflenwad a'r galw ac amrywiaeth y cymysgedd ynni. Mae EN-1 yn cydnabod bod gweithfeydd tanwydd ffosil yn cynhyrchu carbon deuocsid (CO₂) ac mae'n gosod gofyniad bod rhaid i weithfeydd newydd dros 300MW gael eu hadeiladu'n Barod i Ddal Carbon (CCR) fel y gellir ôl-osod cyfleusterau Dal a Storio Carbon ynddynt yn ddiweddarach os bydd angen. Capasiti mwyaf yr orsaf arfaethedig yw 299MW, a ddiffinnir yn y DCO drafft fel y pŵer trydanol gros fel y'i mesurir wrth derfynellau'r generadur.

- 4.8.4. Mae Pennod 2 yr ES [APP-042] yn cyflwyno achos yr Ymgeisydd dros yr angen am y Datblygiad Arfaethedig, sy'n dibynnu'n fras ar NPS EN-1 i gefnogi ei safbwynt. Cafwyd RR gan Gyfeillion y Ddaear Abertawe a gododd amheuan ynglŷn â'r angen [RR-007]. Ni wnaeth Cyfeillion y Ddaear Abertawe unrhyw gyflwyniadau eraill i'r archwiliad.

- 4.8.5. Gellid ystyried bod y Datblygiad Arfaethedig yn ddatblygiad seilwaith angenrheidiol (Polisi CV 2 adran VII y CDLI) os yw'n cydymffurfio â gweddill polisiau'r CDLI.

- 4.8.6. Mae paragraff 4.4.2 NPS EN-1 yn mynnu bod yr Ymgeisydd yn ystyried dewisiadau amgen yn lle'r Datblygiad Arfaethedig ac yn esbonio sut y penderfynwyd ar y cais.

- 4.8.7. Yn unol ag Atodlen 4, Rhan 2 Rheoliadau AEA 2009, cyflwynodd Pennod 5 yr ES [APP-042] amlinelliad o'r dewisiadau amgen a archwiliwyd gan yr Ymgeisydd o ran lleoliadau eraill ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, yn ogystal â llwybrau cysylltu nwy, technolegau, a dyluniadau posibl.
- 4.8.8. Ystyriais fod angen archwilio lleoliadau amgen ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig ymhellach, oherwydd bod y safle presennol yn dir maes glas. Gofynnais dri WQ yn ystod ExQ1 [PD-005(3)]. Dilynwyd hyn gan gwestiynau ychwanegol yn yr ISH ar Faterion Amgylcheddol [EV-012].
- 4.8.9. Cododd RRs ac WRs amheuan ynglŷn â'r lleoliadau a'r dewisiadau a gynigiwyd gan yr Ymgeisydd ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig.
- 4.8.10. Mae'r SoCG heb ei lofnodi rhwng yr Ymgeisydd a CCS a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 3 [REP3-010] yn cytuno â'r safbwynt ar angen, egwyddor a dewisiadau amgen. Yn ogystal, mae'r partïon yn cytuno bod fersiwn derfynol y DCO a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 6 [REP6-003] ac sy'n ffurfio'r DCO Argymelledig (yn Atodiad Ch), yn sicrhau'n ddigonol materion yn ymwneud â'r dyluniad terfynol, goleuadau allanol, mynediad o'r briffordd, dull amgáu a diogelwch y safle.

Casgliad

- 4.8.11. O ystyried y materion hyn, rwyf yn fodlon bod yr angen am y Datblygiad Arfaethedig wedi'i sefydlu trwy'r NPS a Pholisi Llywodraeth Cymru²². Rwyf hefyd yn fodlon bod y dewisiadau amgen ar gyfer lleoli'r OCGT arfaethedig wedi cael eu profi'n drylwyr gan yr Ymgeisydd. Mae gofynion NPS EN-1 a'r Rheoliadau AEA wedi'u bodloni yn hyn o beth.
- 4.8.12. Rwyf yn fodlon bod capasiti'r Datblygiad Arfaethedig, fel y'i diffinnir yn y DCO drafft, islaw'r trothwy sy'n golygu y dylai gael ei ddylunio'n CCR. Rwyf hefyd yn fodlon bod ystyriaeth wedi'i rhoi i ddyluniad ac i ddewisiadau amgen i'r datblygiad fel sy'n ofynnol gan EN-1. Ystyriaf effeithiau penodol y Datblygiad Arfaethedig yn yr adrannau canlynol cyn dod i'm casgliadau ar y Cais yn ei gyfanrwydd.

4.9. ASESU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

- 4.9.1. Fel y cofnodwyd ym Mhennod 1 yr Adroddiad hwn ac am resymau a nodwyd yno, mae'r cais yn ddatblygiad AEA. Mae'r adran hon yn cofnodi'r dogfennau a gynhwysir yn yr ES a newidiadau i'r dogfennau hynny a ddarparwyd yn ystod y camau Cyn-archwiliad ac Archwiliad. Mae hefyd yn cofnodi'r dogfennau rheoli amgylcheddol y mae'r Ymgeisydd yn bwriadu eu defnyddio ar y cyd â darpariaethau DCO i sicrhau bod y Datblygiad Arfaethedig yn cael ei adeiladu a'i weithredu, a bod mesurau lliniaru'n cael eu cymhwyso o fewn y paramedrau achos gwaethaf (Amlen Rochdale) a aseswyd yn yr ES.

²² Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019).

- 4.9.2. Mae'r Adran hon yn gorffen trwy ystyried a yw'r ES a gyflwynwyd a'r broses AEA yn darparu sail ddigonol i'r SoS wneud penderfyniad.

Yr ES a Gyflwynwyd

- 4.9.3. Darparwyd ES gyda dogfennau'r cais. Y dogfennau sy'n ffurfio'r ES yw [APP-016 i 044].

Dogfennau Rheoli Amgylcheddol

- 4.9.4. Ategir yr ES gan y dogfennau rheoli amgylcheddol canlynol sydd eisoes yn bodoli ac yn yr arfaeth [APP-036]:
- Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu Amlinellol (OCEMP) Atodiad 3.1 [APP-036];
 - Cofrestr Mesurau Lliniaru, Atodiad A yn OCEMP [APP-036];
 - Cynllun Rheoli Dŵr Wyneb Amlinellol (OSWMP) Atodiad 3.2 [APP-036];
 - Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol (OCTMP) Atodiad 3.3a [APP-036];
 - Cynllun Teithio Safle Adeiladu (CSTP) Atodiad 3.3 b [APP-036];
 - Strategaeth Liniaru Tirwedd ac Ecoleg (LEMS) Atodiad 3.4 [APP-036];
 - Strategaeth Oleuadau Amlinellol (OLS) Atodiad 3.5 [APP-036].
- 4.9.5. Mae'r dogfennau hyn wedi'u diffinio a'u sicrhau yn y DCO. Ar gyfer pob un o'r dogfennau hyn, bydd fersiynau terfynol cynlluniau penodol o dan y fframweithiau a osodir ganddynt yn cael eu paratoi gan yr Ymgeisydd mewn ymgynghoriad â CCS a CNC, ac fe'u cyflwynir i CCS i'w cymeradwyo.

Y Rheoliadau Perthnasol

- 4.9.6. Mae'r Gyfarwydddeb AEA²³ wedi'i throsi'n gyfraith ar gyfer NSIPs yng Nghymru a Lloegr gan Reoliadau Cynllunio Seilwaith (AEA) 2017 (Rheoliadau AEA 2017), a ddaeth i rym ar 16 Mai 2017.
- 4.9.7. Mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn dirymu Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (AEA) 2009 (Rheoliadau AEA 2009), yn amodol ar ddarpariaethau trosiannol ar gyfer rhai ceisiadau yn Rheoliad 37(2). Mae'r rheoliad hwn yn darparu bod Rheoliadau 2009 yn parhau i fod yn berthnasol mewn amgylchiadau lle mae'r Ymgeisydd wedi:

'gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r awdurdod perthnasol fabwysiadu barn gwmpasu (fel y'i diffinnir yn Rheoliadau 2009) mewn perthynas â'r datblygiad y mae'r cais yn berthnasol iddo' cyn i Reoliadau 2017 ddechrau²⁴.

²³ Diwygiwyd Cyfarwydddeb 85/337/EEC tair gwaith ac fe'i codeiddiwyd gan 2011/92/EU, sydd ei hun wedi cael ei ddiwygio gan 2014/52/EU

²⁴ Rheoliadau AEA 2017, Rheoliad 37(2) (a)(ii)

- 4.9.8. Mae'r achos hwn yn symud ymlaen o dan Reoliadau AEA 2009, fel y trafodwyd ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn.

Proses Asesu Effeithiau Amgylcheddol a Datganiad Amgylcheddol Digonol

- 4.9.9. Cododd yr LIR [REP1-021] bryderon ynglŷn â digonolrwydd y broses AEA a'r ES. Ymdriniwyd â'r pryderon hyn ac fe'u tawelwyd yn y [REP3-010]. Ni chytunwyd ar gwmpas a pharamedrau'r asesiad o effeithiau ar dwristiaeth, gan fod CCS o'r farn bod y rhain yn rhy gyfyngol. Mae'r Nodyn Eglurhaol ar y Bennod Economaidd-gymdeithasol (Atodiad B y SoCG [REP1-003]) yn esbonio'r sail resymegol a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd wrth bennu cwmpas a pharamedrau'r arolwg busnes twristiaeth a'r asesiad o effeithiau ar dwristiaeth, y cyflwynwyd yn ddau ym Mhennod 14 yr ES [APP-042].
- 4.9.10. Mae'r ES, ynghyd â'r wybodaeth arall a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn ystod yr Archwiliad, yn ddigonol ac mae'n bodloni'r gofynion o dan y Rheoliadau AEA. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r holl wybodaeth amgylcheddol wrth asesu'r cais ac yn yr argymhelliad i'r SoS.

4.10. ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

- 4.10.1. Fel y'i cofnodir ym Mhennod 1 yr Adroddiad hwn ac am y rhesymau a amlinellir yno, mae'r cais yn destun HRA. Mae'r Adran hon yn amlinellu'r dogfennau a gyflwynwyd i gefnogi'r broses HRA ar gyfer y cais hwn.
- 4.10.2. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn un yr amlygwyd y gallai arwain at LSE ar safleoedd Ewropeaidd, ac felly mae'n destun HRA. Yn ôl yr arfer mewn Adroddiadau Argymhelliad ExA i lywio penderfyniadau SoS a baratoir o dan PA2008, mae cofnod ar wahân o ystyriaethau sy'n berthnasol i HRA wedi'i nodi ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn isod.
- 4.10.3. Fodd bynnag, ar yr adeg hon yn y bennod, mae angen cofnodi fy mod wedi ystyried yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r HRA fel sy'n ofynnol gan adran 4.3 NPS EN-1, ac fy mod wedi eu hystyried yn y casgliadau y daethpwyd iddynt yma ac yn y Cydbwysedd Cynllunio (Pennod 6 isod). At hynny, mae cynigion ar gyfer dylunio'r prosiect a mesurau lliniaru sydd wedi'u cynnwys yn yr ES a'u sicrhau yn y DCO Argymelledig wedi cael eu hystyried yn llawn at ddibenion HRA.

4.11. MATERION EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

- 4.11.1. Mae adrannau canlynol y Bennod hon yn mynd i'r afael â'r materion canlynol sy'n berthnasol i effeithiau amgylcheddol y Datblygiad Arfaethedig:

- Effeithiau Tirweddol a Gweledol;
- Dyluniad;
- Ansawdd Aer;
- Sŵn a Dirgryniad;
- Cynefinoedd, Ecoleg a Chadwraeth Natur;
- Ansawdd ac Adnoddau Dŵr a Pherygl Llifogydd;

- Daeareg, Amodau'r Ddaear a Hydroddaeareg;
- Traffig, Trafnidiaeth a Mynediad;
- Yr Amgylchedd Hanesyddol;
- Effeithiau Economaidd a Chymdeithasol;
- Parodrwydd CHP; a
- Materion eraill.

4.12. EFFEITHIAU TIRWEDDOL A GWELEDOL

Materion

- 4.12.1. Ar lefel y llywodraeth, mae CNC yn rhoi cyngor statudol i LIC ar faterion tirwedd ac yn rhoi ystyriaeth benodol i dirweddau dynodedig. Eglurodd SoCG CNC [REP2-009] nad oedd ganddo unrhyw bryderon heb eu datrys ynglŷn â'r Datblygiad Arfaethedig o ran y fethodoleg a'r asesiad tirweddol a gweledol. Cytunodd CNC fod yr LEMS amlinellol (diwygiad 4) [REP4-008] yn ffordd briodol o gytuno ar gynigion tirwedd y safle, gan gynnwys plannu newydd i helpu i sgrinio'r Datblygiad Arfaethedig ac adfer llystyfiant sydd eisoes yn bodoli. Cyflwynwyd y Strategaeth amlinellol hon yn wreiddiol yn rhan o'r Cais DCO [APP-036], a bydd angen i'r Strategaeth derfynol gael ei chymeradwyo gan CCS cyn iddi gael ei gweithredu trwy Ofyniad 9.
- 4.12.2. Daeth CCS i'r casgliad canlynol yn ei LIR [REP1-021]:
- 'Byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith arwyddocaol ar gymeriad y dirwedd leol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu o ganlyniad i golli caeau ac ailbroffilio'r ddaear yn helaeth, a byddai'n newid y dirwedd yn sylweddol, a fyddai'n fwy amlwg o ganlyniad i'w fâs solet. Sylweddolir bod y datblygiad wedi cael ei leoli mor bell â phosibl i leihau ei effaith (o fewn y safle) a bod seilwaith ynni arall yn y cyffiniau.*
- Nid yw CCS o'r farn y byddai'r cynllun yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar gymeriad ac ansawdd y dirwedd ehangach. Fodd bynnag, byddai effaith niweidiol gymedrol ar gymeriad tirwedd leol safle'r prosiect ei hun a golygfeydd o lwybrau troed/ eiddo amgylchynol.'*
- 4.12.3. Cododd sawl IP faterion yn ymwneud â'r effaith weledol a'i heffaith ar eu heiddo:
- David Edwards [RR-001];
 - Claire Thatcher [RR-020] a
 - Chyngor Cymuned Llangyfelach [RR-021] a gododd bryderon ynglŷn ag effeithiau gweledol.
- 4.12.4. Gofynnais nifer o gwestiynau allweddol am effeithiau tirweddol a gweledol y Datblygiad Arfaethedig yn ystod y camau adeiladu a gweithredu i CNC, yr Ymgeisydd a CCS yn ExQs1 [PD-005(3)] ac ExQs2 [PD-006]. Codais y mater hefyd fel eitem agenda benodol (eitem 7.2) yn yr ISH ar Faterion Amgylcheddol ISH [EV-012]. Nid oedd yr un o'r 3 IP a nodir uchod wedi gwneud cyflwyniadau eraill yn dilyn eu Cynrychiolaethau Perthnasol.

Ystyriaethau polisi

- 4.12.5. Amlinellir polisïau sy'n berthnasol i effeithiau tirweddol a gweledol yn NPS EN-1, EN-2 ac EN-4, ac ym mholisïau PS2, ER1, ER5 ac EU1 CDLI CCS [REP4-023].
- 4.12.6. O ran datblygiad yr orsaf gynhyrchu, cydnabyddir nad oes modd osgoi rhywfaint o effaith dirweddol a gweledol niweidiol. Mae paragraff 5.9.8 EN-1 yn datgan:
- 'Mae holl dirweddau Cymru'n cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad hanfodol at synnwyr o le, a dylai awdurdodau lleol warchod a gwella eu nodweddion arbennig, gan dalu sylw dyledus i'r manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol maent yn eu darparu, a'u rôl o ran creu lleoedd sy'n cael eu gwerthfawrogi. Ymhelaethir ar hyn ym mharagraff 5.9.15, sy'n datgan:*
- 'Mae graddau prosiectau o'r fath yn golygu y bydd modd i'w gweld yn aml o fewn sawl milltir o safle'r seilwaith arfaethedig. Dylai'r SoS farnu a fyddai unrhyw effaith niweidiol ar y dirwedd mor niweidiol fel na fyddai'n cael ei gwrthbwysu gan fuddion y prosiect (gan gynnwys yr angen amdano).'*
- 4.12.7. Mae paragraff 2.6.5 EN-2 yn cydnabod:
- 'nid yw'n bosibl dileu'r effeithiau gweledol sy'n gysylltiedig â gorsaf cynhyrchu tanwydd ffosil'.*
- 4.12.8. Mae Polisi Cynllunio Cymru, Pennod 6, yn manylu ar bolisi Llywodraeth Cymru ar dirwedd²⁵. Yn ôl paragraff 6.3.3:
- "Mae holl dirweddau Cymru'n cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad hanfodol at synnwyr o le, a dylai awdurdodau lleol warchod a gwella eu nodweddion arbennig, gan dalu sylw dyledus i'r manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol maent yn eu darparu, a'u rôl o ran creu lleoedd sy'n cael eu gwerthfawrogi."*
- 4.12.9. Mae'n rhaid ystyried dynodiadau tirwedd lleol (a amlinellir mewn cynlluniau datblygu) a dylid lliniaru niwed lle y bo'n bosibl, ond ni ystyrir eu bod yn cyfiawnhau rheswm dros wrthod, ac mae'n rhaid i'r SoS ystyried a yw'r prosiect yn dangos tystiolaeth o ddyluniad da (EN-1 paragraffau 5.9.14 - 17).
- 4.12.10. Mae maen prawf (i) Polisi PS 2 y CDLI yn mynnu bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i elfennau pwysig o dreftadaeth leol, diwylliant, tirwedd, treflun a golygfeydd.
- 4.12.11. Mae Polisi ER 5 y CDLI yn datgan na chaniateir datblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar gymeriad ac ansawdd tirwedd a lleoliad y Sir, ac mae'n mynd ymlaen i amlinellu 3 Ardal Tirwedd Arbennig. Fodd

²⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

bynnag, nid yw'r safle wedi'i leoli o fewn Ardal Tirwedd Arbennig ddynodedig o dan y polisi hwn.

- 4.12.12. Mae maen prawf iii. a) Polisi EU1 y CDLI yn mynnu nad yw'r lleoliad, y dyluniad, y cynllun a'r math o osodiad a deunyddiau a ddefnyddir yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar nodweddion y lleoliad arfaethedig, er na ystyrir bod hyn yn gwbl berthnasol gan nad yw'r safle ar gyfer datblygiad carbon isel.
- 4.12.13. I'r gogledd, mae Safle'r Prosiect wedi'i leoli mewn Ardal Gwarchod Tirwedd h.y. Ucheldiroedd Mawr, lle mae Polisi ER5 y CDLI yn berthnasol. Mae Polisi ER5 y CDLI yn datgan:
- *"ni chaniateir datblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar gymeriad ac ansawdd y dirwedd a lleoliad y Sir".*
- 4.12.14. O fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig, gan gynnwys Ucheldiroedd Mawr i'r gogledd o Safle'r Prosiect, rhoddir blaenoriaeth i warchod, rheoli a gwella cymeriad ac ansawdd yr ardal [REP4-022].

Ymateb yr Ymgeisydd

- 4.12.15. Mae Pennod 11 yr ES (effaith dirweddol a gweledol) [APP-042] yn disgrifio'r mesurau lleoli a dylunio a gymerwyd i leihau'r effaith dirweddol a gweledol gymaint â phosibl. Disgrifir mesurau lliniaru ymgorfforedig ac ychwanegol sy'n ymwneud ag effeithiau tirweddol a gweledol yn adrannau 3.1 a 4.1-4.9 Diwygiad 3 yr LEMS Amlinellol [REP4-008]
- 4.12.16. Dywedodd yr Ymgeisydd:
- "prif ffocws y mesurau lliniaru tirwedd ac ecoleg yw creu cynefin a phlannu tirweddol o fewn Ffin Safle'r Prosiect ochr yn ochr â gwarchod a gwella cynefinoedd sydd eisoes yn bodoli. Roedd yr Ymgeisydd yn disgwyl y byddai llystyfiant a oedd eisoes wedi'i blannu o fewn Safle'r Prosiect yn cael ei gadw a'i warchod lle y bo'n bosibl" [APP-042].*
- 4.12.17. Mae Ffigur 3.6 yr ES [APP-024] yn amlygu'r coetir a'r coed sydd i'w cadw a'r ardaloedd cynefin a phlannu newydd. Nodir y dulliau gwaith adeiladu cyffredinol sydd i'w defnyddio yn ystod y cam adeiladu yn y CEMP amlinellol (Diwygiad 2) [REP4-010], yr SWMP amlinellol (Atodiad 3.2) [APP-036] a'r OLS (Atodiad 3.5) [APP-036], ac fe'u sicrhair trwy Ofynion cyfatebol yn atodlen 2 y DCO [REP6-003].
- 4.12.18. Mae'r Ymgeisydd yn cydnabod y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn arwain at effeithiau niweidiol arwyddocaol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu ar rai derbynyddion gweledol e.e. llwybrau troed, eiddo, gan gynnwys rhai eiddo preswyl sydd â golygfeydd tuag at elfennau fertigol y Cynllun ar draws tirwedd donnog (Golygfannau 9, 14, 15, 16 a 17 [APP-045][APP-046], ond nid yw o'r farn bod y rhain yn groes i bolisi [APP-007] ar dudalen 134.

- 4.12.19. Mewn ymateb i ExQs1 1.9.11 [PD-005(3)], rhoddodd yr Ymgeisydd esboniad pellach o'i gasgliad na fyddai'r Prosiect yn arwain at effeithiau cronol arwyddocaol ar y dirwedd. Dywedodd yr Ymgeisydd:
- "gall y Prosiect ar ei ben ei hun arwain at effeithiau gweithredol gweddilliol arwyddocaol ac nid, o reidrwydd, arwain at effaith gronol arwyddocaol. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod yr asesiad cronol yn ystyried effaith ychwanegol y Prosiect ar gymeriad y dirwedd ar y cyd â'r datblygiadau cronol eraill (y llinell sylfaen gronol)"* [REP1-010].
- 4.12.20. Mae'r mesurau lliniaru a gynigir ac a sicrhair yn y DCO yn cynnwys:
- Gofyniad 2 Dyluniad Manwl y DCO sy'n nodi'r raddfa a'r uchder mwyaf;
 - Gofyniad 3 sy'n mynnu bod cynllun rheoli tirwedd yn cael ei gyflwyno a fyddai'n mynd i'r afael â'r mesurau lliniaru tirwedd arfaethedig;
 - Gofyniad 17 CEMP; a
 - Gofyniad 26 sy'n mynnu cynllun goleuo yn y nos.
- 4.12.21. Mae'r Ymgeisydd o'r farn bod y rhain yn cydymffurfio â pholisi ac yn ddigonol, o'u hystyried gyda'i gilydd, i ddarparu'r holl fesurau lliniaru sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael ag effeithiau tirweddol a gweledol niweidiol. Roedd yr Ymgeisydd o'r farn bod yr holl effeithiau gweddilliol yn briodol o fewn y fframwaith a ddarperir gan bolisi [APP-007].

Casgliadau'r ExA

- 4.12.22. Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus iawn i faterion yn ymwneud â'r effaith dirweddol a gweledol. Yn rhan o'r Archwiliad, rwyf wedi cynnal archwiliadau safle digwmni (Atodiad F [PD-005]) a gyda chwmni [EV-008] â lleoliadau derbynnyddion allweddol. Rwyf wedi defnyddio fy archwiliadau safle i ddeall y pryderon a godwyd mewn cynrychiolaethau ac i brofi digonolrwydd yr ymatebion polisi a wnaed gan yr Ymgeisydd yn yr AEA a'r prosesau dylunio.
- 4.12.23. Yn gyffredinol, byddai'r Prosiect yn cael effaith weledol arwyddocaol o'i weld yn agos i'r safle. Fodd bynnag, byddai'r effaith o fewn lleoliad diwydiannol presennol ac sy'n datblygu, ac esboniodd yr Ymgeisydd nad oedd yr effaith ychwanegol o ddatblygiad arall yn arwyddocaol [REP1-010]. Yn fy marn i, byddai modd osgoi niwed trwy gynigion lliniaru priodol. Ni ystyrir y byddai effeithiau tirweddol cronol yn sgil cyflwyno'r Prosiect i'r lleoliad hwn sydd eisoes wedi'i ddatblygu yn arwain at ganlyniad arwyddocaol.
- 4.12.24. Byddai CCS yn gyfrifol am reoli'r agweddau hyn trwy'r DCO drafft [REP6-003]:
- Gofyniad 2 Dyluniad Manwl y DCO sy'n nodi'r raddfa a'r uchder mwyaf;
 - Gofyniad 3 sy'n mynnu bod cynllun rheoli tirwedd yn cael ei gyflwyno a fyddai'n mynd i'r afael â'r mesurau lliniaru tirwedd arfaethedig;
 - Gofyniad 17 CEMP; a
 - Gofyniad 26 sy'n mynnu cynllun goleuo yn y nos.

- 4.12.25. Yn dilyn diwygiad yr ExA i Ofynion 2 a 3 sy'n ymwneud â rheoli dylunio a mesurau lliniaru priodol, ac o ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd yn gyffredinol â Pharagraff 5.9.8 EN-1, PPW Adran 6.3 a pholisïau CDLI CCS sy'n ymwneud â dylunio (PS 2), gosodiad a gwelededd (ER 5 ac EU 1). Deuaf i'r casgliad bod y Datblygiad Arfaethedig, fel y darperir ar ei gyfer yn y DCO Argymelledig, yn cynrychioli dyluniad da yn dirweddol ac yn weledol ac y bydd yn cydymffurfio â pholisïau.

4.13. DYLUNIO

Materion

- 4.13.1. Cododd nifer o IPs faterion dylunio yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol o ran yr effaith weledol:
- Cododd Claire Thatcher [RR-020] a Chyngor Cymuned Llangyfelach [RR-021] bryderon ynglŷn ag effeithiau gweledol; a
 - Chododd CCS faterion dylunio yn uniongyrchol yn ei LIR [REP1-021].
- 4.13.2. Mae dylunio yn cynnwys materion yn ymwneud â gosodiad, graddfa, ffurf, mäs, uchder, dwysedd, lliw, deunyddiau a manylion penodol. Mae dyluniad gwael nid yn unig yn tynnu oddi ar gymeriad a golwg ardal ond yn gallu niweidio ansawdd bywyd cymdogion.
- 4.13.3. Mae CCS yn cyfeirio at ddyluniad, lleoli a lleoliad ym Mholisi PS 2 y CDLI ar Ffurfio a Rheoli Lle, ac yn datgan bod rhaid i ddatblygiad wella ansawdd lleoedd a mannau ac ymateb yn gadarnhaol i agweddau ar gyddestun a chymeriad lleol sy'n cyfrannu at ymdeimlad o le. Mae'n rhaid i ddyluniad, gosodiad a chyfeiriad adeiladau arfaethedig, a'r lle rhyngddynt, ddarparu ar gyfer amgylchedd atyniadol, eglur a diogel, a sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol yn cael eu hachosi i amwynder pobl [REP1-021].

Ystyriaethau polisi

- 4.13.4. Mae a10(3)(b) PA2008 yn mynnu bod yr SoS yn ystyried dymunoldeb cyflawni dyluniad da wrth ystyried a yw'r penderfyniadau lleoli a dylunio cywir wedi cael eu gwneud ynglŷn â datblygiad seilwaith ynni. Mae EN-2 paragraff 2.3.15 yn amlygu'r angen i ystyried yr egwyddorion a sefydlir yn NPS EN-1 adran 4.5 yn hyn o beth.
- 4.13.5. Mae NPS EN-1 yn cynghori ym mharagraff 4.5.4 y dylai Ymgeiswyr 'allu dangos yn eu dogfennau cais sut y cynhaliwyd y broses ddylunio a sut yr esblygodd y dyluniad arfaethedig'. Mae EN-1 yn cydnabod ym mharagraff 4.2.7 *'efallai na fydd yn bosibl ar adeg y cais i ganiatâd datblygu ar gyfer pob agwedd ar y cynnig fod wedi'i benderfynu'n fanwl'*. Yn yr amgylchiadau hyn, mae paragraff 4.2.8 NPS EN-1 yn mynnu bod Ymgeiswyr yn asesu graddau mwyaf (h.y. achos gwaethaf realistig) y datblygiad arfaethedig. Mae'r ymagwedd hon yn ategu'r ymagwedd amlen Rochdale a ddisgrifir ym mharagraff 4.9.1 uchod.

- 4.13.6. Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) 12²⁶ a 22²⁷. Mae TAN 12 yn cefnogi'r ymrwymiad i ddylunio da ac yn gosod gofyniad am Ddatganiad Dylunio a Mynediad. Mae TAN 22 yn mynnu bod datganiadau dylunio a mynediad yn dangos sut y bydd y datblygiad yn bodloni neu'n rhagori ar safonau adeiladu cynaliadwy ac yn lleihau ei ôl troed carbon.

Ymateb yr Ymgeisydd

- 4.13.7. Mae'r Ymgeisydd yn dweud bod Pennod 3, Adran 3.4 yr ES [APP-042] a'r Datganiad Egwyddorion Dylunio [APP-048] yn esbonio ac yn cyfiawnhau'r ymagwedd ddylunio at y Datblygiad Arfaethedig. Fel yr esboniwyd uchod, defnyddiwyd ymagwedd amlen Rochdale ac mae'r asesiad yn yr ES yn symud ymlaen ar y sail honno. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu bod nifer o ganlyniadau dylunio wedi'u mynegi mewn termau parametrig a gellir eu hamrywio yn y cynllun a adeiladir yn derfynol. Fodd bynnag, mae'r effeithiau niweidiol achos gwaethaf wedi cael eu hasesu a darperir y mesurau lliniaru canlynol:

- Mae Gofyniad 2 is-adrannau (4) a (5) yn sicrhau y byddai'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth bellach i ddyluniad manwl y cynnig ac yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddogfen Datganiad Egwyddorion Dylunio; ac
- Mae Gofyniad 3 yn ymdrin mewn modd tebyg â darparu a chynnal a chadw tirwedd.

Casgliadau'r ExA

- 4.13.8. Mae'r Datganiad Egwyddorion Dylunio [APP-048] yn dwyn ynghyd canfyddiadau'r amryw ddogfennau fel y bônt yn berthnasol i ddylunio ac yn sefydlu ymrwymadau cadarn a chyflawnadwy o ran dylunio da i lywio'r dyluniad manwl. Mae'r ymrwymadau hyn wedi'u sicrhau trwy ofyniad yn y DCO sy'n mynnu gweithredu yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Dylunio h.y. Gofyniad 2(5). At ei gilydd, ystyrir bod cyddestun y safle wedi cael ei arfarnu'n gynhwysfawr fel yr esbonnir yn y cais ac yr amlinellir isod. Rwyf wedi'm calonogi gan yr ymagwedd ddylunio at y Prosiect. Sicrhawyd hyn yng Ngofynion 2 a 3 y DCO drafft a chan y terfynau a osodir ar gyfleoedd i newid yn ddilynol yng Ngofyniad 29 [REP6-003]. Mae'r ymagwedd ddylunio yn cyd-fynd â nodau NPS EN-1, TAN 12 a 22 a Pholisïau EU1 a PS2 CDLI CCS. O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, rwyf yn fodlon bod dyluniad boddhaol yn debygol o ymddangos.

4.14. ANSAWDD AER

²⁶ Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio (2009).

<https://gweddill.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan12/?skip=1&lang=cy>

²⁷ Nodyn Cyngor Technegol 22: Adeiladau Cynaliadwy (2010).

<http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan22/?lang=en>

Materion

- 4.14.1. Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan y llywodraeth nac asiantaethau ynglŷn â pherfformiad y Datblygiad Arfaethedig o ran ansawdd aer ac allyriadau, o'i ystyried ar ei ben ei hun neu'n gronol / ar y cyd â datblygiadau eraill. Yn benodol, roedd CNC yn fodlon ar berfformiad ansawdd aer ac allyriadau arfaethedig y Datblygiad Arfaethedig a bod yr Ymgeisydd wedi defnyddio'r broses asesu gywir [REP1-004].
- 4.14.2. Cododd nifer o IPs bryderon ynglŷn ag ansawdd aer yn eu RRs [RR-001], [RR-003 i 005], [RR-007], [RR-015 i 017] ac [RR-020 i 021]. Cyfeiriodd Mr Rasbridge at "wryiadau tymheredd" yn safle'r Datblygiad Arfaethedig [REP3-018].
- 4.14.3. Ni chafodd Tîm Trwyddedu CNC unrhyw ymatebion i'w ymgynghoriad cyhoeddus 'O Blaid Caniatáu', felly rhoddodd y drwydded ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig ar 18 Ionawr 2019. Mae copi o'r drwydded a roddwyd ar gael ar wefan CNC trwy'r ddolen ganlynol:
<https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/permit-applicationsconsultations-and-decisions/final-permit-decisions-for-sites-under-industrialemissions-directive/south-west-wales/drax-aber-gelli/?lang=en>.
- 4.14.4. Gofynnais nifer o gwestiynau i CNC, yr Ymgeisydd a CCS ynglŷn â pherfformiad y Datblygiad Arfaethedig pan fyddai ar waith o ran ansawdd aer ac allyriadau yn ExQs1 [PD-005(3)] ac ExQs2 [PD-006].

Ystyriaethau polisi

- 4.14.5. Mae'r AQD yn berthnasol.
- 4.14.6. Mae paragraff 5.2.1 EN-1 yn cydnabod bod datblygiad seilwaith yn gallu cael effeithiau niweidiol ar ansawdd aer. Yn ôl paragraff 4.10.1 EN-1:
'Gallai materion sy'n ymwneud â gollyngiadau neu allyriadau o brosiect arfaethedig sy'n effeithio ar ansawdd aer, ansawdd dŵr, ansawdd tir a'r amgylchedd morol, neu sy'n cynnwys sŵn a dirgryniad, fod yn destun rheoleiddio ar wahân o dan y fframwaith rheoli llygredd neu gyfundrefnau cydsynio a thrwyddedu eraill'.
- 4.14.7. Mae adran 4.13 EN-1 yn cynghori sut y dylai Ymgeiswyr fynd ati i asesu sut y gallai cynlluniau effeithio ar iechyd a lles pobl ar gyfer pob elfen o'r datblygiad arfaethedig. Yn ôl paragraff 4.13.1 EN-1:
'Mae cynhyrchu ynni yn gallu effeithio ar iechyd a lles y boblogaeth'.
- 4.14.8. Mae'n cynghori y dylai Ymgeiswyr asesu'r effeithiau hyn ar gyfer pob elfen o'r prosiect arfaethedig ac amlygu mesurau i osgoi, lleihau neu wneud iawn am yr effeithiau hyn, fel y bo'n briodol.
- 4.14.9. Mae adran 4.14 EN-1 yn amlygu'r angen i ystyried ffynonellau allyriadau a allai fod yn niwsans posibl o dan Adran 79(1) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

- 4.14.10. Mae adran 2.5 EN-2 yn cadarnhau y dylid dilyn y canllawiau a gynhwysir yn EN-1 o ran allyriadau o orsafoedd cynhyrchu tanwydd ffosil.
- 4.14.11. Mae Pennod 6: Ansawdd Aer yr ES [APP-042] yn rhoi gwybodaeth fanwl am ddeddfwriaeth Ewropeaidd a rheoliadau Cymru ar ansawdd aer ac yn gosod y safonau cenedlaethol ar gyfer diogelu iechyd pobl a llystyfiant.

Ymateb yr Ymgeisydd

- 4.14.12. Roedd Penodau 6 a 15 [APP-042] ac Atodiad 6.1 [APP-044] yr ES yn asesu effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig ar ansawdd aer yr amgylchedd. Roedd hyn yn cynnwys effeithiau'r llygryddion canlynol:
- ocsidau nitrogen (NO_x) a (CO) a allyrrir o'r tyrbinau nwy trwy'r stac yn ystod gweithredu; ac
 - NO_x a deunydd gronynnol (PM₁₀ a PM_{2.5}) sy'n gysylltiedig â symudiadau cerbydau yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r datblygiad arfaethedig.
- 4.14.13. Nododd yr Ymgeisydd na ragwelir unrhyw ormodiant perthnasol, ac felly nid oes angen unrhyw fesurau ansawdd aer yn ychwanegol at y rhai a ddarperir yn y DCO. Amlygodd CCS nad oedd diamedr mewnol y stac wedi'i sicrhau yn y DCO. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd nad oedd modelu ansawdd aer wedi'i seilio ar ddiamedr mewnol y stac, a chytunwyd nad oes angen sicrhau diamedr mewnol y stac yn y DCO [EV-004].
- 4.14.14. Rhoddodd asesiad yr Ymgeisydd ystyriaeth benodol i'r potensial i wyriadau tymheredd effeithio ar wasgariad allyriadau, ac nid yw'r Ymgeisydd o'r farn y bydd yr amodau meteorolegol lleol yn atal gwasgariad priodol yn safle'r Datblygiad Arfaethedig [REP4-005].
- 4.14.15. Aseswyd effeithiau'r Prosiect ar y newid yn yr hinsawdd o ran allyriadau ym Mhennod 6: Ansawdd Aer. Dywedodd yr Ymgeisydd ym mharagraff 15.4.1:

"Ystyrir bod allyriadau carbon y Prosiect yn ymylol o ran allyriadau cyffredinol y Deyrnas Unedig ac, felly, o ystyried y polisi presennol, ni ystyrir bod yr effeithiau ar y newid yn yr hinsawdd yn arwyddocaol o ran allyriadau carbon deuocsid."

Casgliadau'r ExA

- 4.14.16. Er bod nifer o IPs wedi cyfeirio at ansawdd aer o ganlyniad i bryderon ynglŷn ag allyriadau a gwasgaru, mae CNC, sef y rheoleiddiwr perthnasol, wedi pwysleisio nad yw'n gweld unrhyw reswm pam na ddylai'r Datblygiad Arfaethedig gydymffurfio'n llawn â'r holl bolisiau a safonau perthnasol. Rhoddodd CNC EP ar gyfer gweithredu i fodloni gofynion CNC ar 18 Ionawr 2019.
- 4.14.17. Rwyf yn fodlon y bydd yr allyriadau arfaethedig yn bodloni'r AQD. Rwyf hefyd yn fodlon y bydd polisiau perthnasol EN-1 ac EN-2 a pholisiau Llywodraeth Cymru, yn enwedig ar rwymedigaethau yn ymwneud â'r

newid yn yr hinsawdd, ynghyd â Pholisïau ER1 y CDLI ar newid yn yr hinsawdd ac RP3, yn cael eu bodloni.

4.15. SŴN A DIRGRYNIAD

Materion

- 4.15.1. Mae'r pwnc hwn yn ymwneud â sŵn a dirgryniad sy'n deillio o weithgareddau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig. Mae'n ymwneud ag aliniad y cysylltiad nwy ac aliniad y cysylltiad trydanol i'r graddau y bo angen yn unig i fynd i'r afael ag ystyriaethau yn ymwneud â'r effaith gronnol.
- 4.15.2. Ni chodwyd unrhyw bryderon mewn egwyddor ynglŷn â sŵn a dirgryniad gan asiantaethau'r llywodraeth, yn benodol CNC, na chan CCS, ar y sail y byddai'r mesurau lliniaru sydd wedi'u hymgorffori yn y DCO drafft yn cael eu darparu. Cododd CCS rai pryderon ynglŷn â'r lefelau graddio a osodir yn Nhabl 3 Gofyniad 25 a'r cyfnodau cychwyn a diffodd hanner awr ar bob pen o'r diwrnod gwaith yng Ngofyniad 23 [REP1-021].
- 4.15.3. Yn dilyn esboniad pellach o'r sail resymegol i'r graddfeydd gan yr Ymgeisydd [REP2-003], roedd CCS yn fodlon bod yr ymagwedd a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd yn dderbyniol ac, o ganlyniad, nid yw CCS o'r farn y byddai'r lefelau a nodwyd yn arwain at unrhyw faterion yn ymwneud â sŵn ar gyfer eiddo amgylchynol [REP4-027].
- 4.15.4. Ailystyriodd CCS ei safbwynt o ran cyfnod diffodd, a thynnodd ei wrthwynebiad yn ôl i gynnwys cyfnod diffodd yn y DCO, am y cyfnod penodol a nodwyd [REP4-017]. Roedd CCS yn fodlon ar gynnwys yr eitemau offer a nodwyd a fyddai'n cael eu croesgyfeirio yn y CEMP [REP4-010].
- 4.15.5. Ar ddiwedd yr Archwiliad, roedd y cyfnod cychwyn yn parhau i fod yn asgwrn cynnen rhwng CCS a'r Ymgeisydd.
- 4.15.6. Codwyd pryderon cyffredinol ynglŷn â sŵn gan nifer o breswylwyr lleol ac IPs cymunedol, fel a ganlyn:
- Mr Michael Edwards [RR-001];
 - Cynghorydd Ward Mawr [RR-004];
 - Mr Rasbridge [RR-005];
 - Mr Mark Adams [RR-016];
 - Alyson Adams [RR-017]; a
 - Claire Thatcher [RR-020].
- 4.15.7. Gofynnais sawl cwestiwn i'r Ymgeisydd a CCS ynglŷn ag allyriadau sŵn y Datblygiad Arfaethedig pan fyddai ar waith yn ExQs1 [PD-005(3)] ac ExQs2 [PD-006].

Ystyriaethau polisi

- 4.15.8. Mae adran 5.11 NPS EN-1 yn nodi bod sŵn gormodol yn gallu arwain at effeithiau niweidiol ar amrywiaeth o dderbynyddion, gan gynnwys bywyd dynol, bywyd gwyllt a bioamrywiaeth. Mae paragraff 5.11.9 EN-1 yn datgan na ddylid rhoi caniatâd datblygu oni bai bod effeithiau sŵn niweidiol arwyddocaol ar iechyd ac ansawdd bywyd yn cael eu hosgoi a bod effeithiau niweidiol eraill yn cael eu lliniaru a'u lleihau i'r eithaf. Mae'r paragraff hefyd yn cynghori bod rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad fod yn fodlon, lle y bo'n bosibl, bod cynigion yn cyfrannu at welliannau i iechyd ac ansawdd bywyd trwy reoli sŵn yn effeithiol.
- 4.15.9. Mae adran 2.7 NPS EN-2 yn nodi bod gorsafoedd cynhyrchu tanwydd ffosil yn gallu cynhyrchu sŵn.
- 4.15.10. Mae TAN 11: Sŵn yn rhoi cyngor ar sut y gellir defnyddio'r system gynllunio i leihau effaith niweidiol sŵn i'r eithaf heb osod cyfyngiadau afresymol ar ddatblygiad nac ychwanegu'n ddiangen at gostau a baich gweinyddol busnes. Mae'n amlinellu rhai o'r prif ffactorau y dylai awdurdodau cynllunio lleol eu hystyried wrth lunio polisiau cynllun datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad a fydd naill ai'n cynhyrchu sŵn neu'n agored i ffynonellau sŵn presennol.
- 4.15.11. Mae polisi RP2 CDLI CCS yn ceisio diogelu iechyd ac amwynder y cyhoedd a diogelu'r amgylchedd rhag effeithiau sŵn niweidiol. [REP4-025].

Ymateb yr Ymgeisydd

- 4.15.12. Mae Pennod 7 (sŵn a dirgryniad) yr ES [APP-042] ac [APP-043] yn amlinellu asesiad o effeithiau sŵn a dirgryniad y Datblygiad Arfaethedig. Un o'r canfyddiadau allweddol yw y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael ei adeiladu ac yn gweithredu mewn cyd-destun acwstig a ddarperir gan y mesurau lliniaru ymgorfforedig.
- 4.15.13. Dywedodd yr Ymgeisydd:
- "o ganlyniad i gymhwyso mesurau lliniaru ymgorfforedig, bydd sŵn a dirgryniad yn cael effaith niweidiol fach yn unig ar yr holl Dderbynyddion sy'n Sensitif i Sŵn (NSRs) yn ystod y cam adeiladu, nad yw'n arwyddocaol. Felly, nid oes angen mesurau lliniaru neu fonitro ychwanegol"* [APP-042].
- 4.15.14. Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad, yn y nos, y rhagwelir y bydd yr effeithiau niweidiol yn fach, ar eu gwaethaf, heblaw o ran Derbynydd sy'n Sensitif i Sŵn 1 (NSR 1):
- "Bydd y lefel sŵn amgylchynol yn NSR 1 ar ôl cynnwys yr Offer Generadu yn cynhyrchu effaith o arwyddocaâd cymedrol o ganlyniad i'r lefelau amgylchynol uchel sydd eisoes yn bodoli yn y lleoliad hwnnw. Fodd bynnag, bydd ychwanegu sŵn yr orsaf bŵer yn achosi i'r lefel amgylchynol yn NSR 1 gynyddu 1 dB yn unig"* [APP-042].
- 4.15.15. Nid oedd yr Ymgeisydd o'r farn y byddai cynnydd o'r fath yn arwyddocaol, felly mae effaith y cynllun ar yr amgylchedd sŵn yn

ddibwys. O ganlyniad, daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad nad yw effaith gweithredu'r Offer Generadu yn arwyddocaol.

- 4.15.16. Diwygiwyd y DCO erbyn Terfyn Amser 1 [REP1-015] i gynnwys diffiniad o "gyfnod diffodd" a "chyfnod cychwyn" i ddiffinio'r gweithgareddau y gellir eu cynnal yn ystod y cyfnod a osodir yng Ngofyniad 23 y DCO drafft.
- 4.15.17. Esboniodd yr Ymgeisydd na fyddai gwaith adeiladu arferol yn cael ei wneud yn ystod y cyfnod cychwyn. Diben hyn oedd caniatáu i weithwyr adeiladu gyrraedd y safle, mynd i sesiynau briffio blwch offer a chasglu eu cyfarpar diogelu personol (PPE) [REP4-010].
- 4.15.18. Mae'r Ymgeisydd wedi cynnig y mesur lliniaru canlynol yn y DCO i fynd i'r afael ag effeithiau sŵn sy'n gysylltiedig â gweithredu:
- Mae Gofyniad 25 yn gosod terfyn ar gyfer rheoli sŵn yn ystod y cam gweithredol.

Casgliadau'r ExA

- 4.15.19. Rwyf yn fodlon bod y mesurau a ddisgrifir yn yr ES ac a sicrhau yn y DCO Argymelledig (Atodiad Ch) yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r NPS a pholisïau'r CDLI a amlygwyd yn yr adran hon yn ystod y cyfnod adeiladu.
- 4.15.20. Rheoleiddir effeithiau sŵn adeiladu yn briodol yn y CEMP (R17). Mae'r diffiniad o gychwyn yn Erthygl 2:
- "Mae "cyfnod cychwyn" yn golygu'r cyfnod a neilltuir yng ngofyniad 23 pryd y caiff gweithwyr adeiladu gyrraedd y safle, mewngofnodi, gwisgo cyfarpar diogelu personol, mynd i sesiynau briffio diogelwch a sesiynau briffio eraill, a symud o gwmpas y safle, ond ni cheir gweithredu unrhyw offer na pheiriannau;"*
- yn ddigon eglur i liniaru unrhyw bryderon ynglŷn â gweithgareddau swmlyd rhwng 07:30 ac 08:00.
- 4.15.21. Bydd Gofyniad 25 ar reoli sŵn yn ystod y cam gweithredol yn sicrhau y byddai lefelau sŵn wrth dderbynyddion yn dderbyniol. Fe'm darbwyllwyd y bydd Gofyniad 25 yn rheoli sŵn gweithredol yn briodol, ac na ddylai lefelau wrth dderbynyddion perthnasol (anheddu lleol) beidio â chydymffurfio o ganlyniad i'r datblygiad, ond y bydd camau gweithredu trwy gyfundrefn COPA 1974 yn ddigonol i fynd i'r afael ag unrhyw ormodiant sy'n digwydd [REP1-021].
- 4.15.22. O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, credaf fod materion sŵn a dirgryniad wedi derbyn sylw'n ddigonol a'u bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn 5.11 NPS EN-1, TAN 11 a Pholisi RP 2 CDLI CCS.

4.16. MATERION BIOAMRYWIAETH

- 4.16.1. Yn ei Gynrychiolaeth Berthnasol [RR-025] ar 2 Awst 2018, cododd CNC bryderon penodol ynglŷn ag:
- Ystlumod;
 - Llygod y Dŵr/Dyfrgwn; a
 - Goleuadau.
- 4.16.2. O dan Ofyniad 11(2), gofynnodd CNC i gyfeiriad gael ei gynnwys at yr angen i gael trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (EPS) (o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017) os canfyddir unrhyw ystlumod sy'n clwydo ar y safle ac y bydd y datblygiad yn effeithio arnynt [REP1-026].
- 4.16.3. Mae Tabl Llygod y Dŵr a Dyfrgwn 8.14 yr ES [APP-042] yn nodi:
- "Bydd camau rheoli cynefin yn cael eu cynnal i leihau ansawdd y cynefinoedd ar gyfer creu tyllau/gwalau/lle i orwedd".*
- 4.16.4. Mynnodd CNC fod manylion llawn y cynefin y gallai Llygod y Dŵr a Dyfrgwn gael eu dadleoli iddo yn cael eu darparu yn rhan o'r cynigion lliniaru. Yn ogystal, mae'n rhaid i gynefin amgen fod yn addas i'r rhywogaethau ac ar gael i'w gytrefu cyn iddynt gael eu dadleoli. Nododd CNC fod y manylyn hwn i'w gynnwys yng Ngofynion 3 a 9 (Cynllun Rheoli Ecolegol) [REP1-026].
- 4.16.5. Mae Gofyniad 8 yn cyfeirio at arolygon cyfyngiadau ecolegol cyn-adeiladu o ran Llygod y Dŵr a Dyfrgwn, a groesawyd gan CNC. Fodd bynnag, nododd CNC y dylai unrhyw ofynion trwyddedu o dan Ddeddf Diogelu 1992 gael eu sicrhau gan adran drwyddedu CNC [REP1-026].
- 4.16.6. Nododd CNC fod yr OLS a ddarparwyd yn cynnwys manylion ynglŷn â sut y bydd golau'n cael ei reoli ar draws y safle, ac mae'r LEMP amlinellol [APP-036] yn rhoi rhai manylion am y coridorau tywyll arfaethedig. Dywedodd CNC y bydd angen i'r strategaeth oleuo gynnwys cynllun goleuo sydd, ynghyd â'r uchod, yn cadarnhau lleoliad y goleuadau, eu manylebau, ble y bydd mesurau gollyngiad golau'n cael eu defnyddio (e.e. lwferau, cyflau, amseryddion, manylion unrhyw oleuadau sy'n gweithredu yn ôl amserydd) a'r gollyngiad golau disgwylidig. Nododd CNC fod darparu cynllun goleuo wedi cael ei gynnwys fel gofynion DCO ar wahân ar gyfer y cam adeiladu o dan Ofyniad 17 (CEMP), ac ar gyfer y cam gweithredol o dan Ofyniad 26 (Rheoli Allyriadau Golau Artiffisial yn ystod Gweithredu) [REP1-026].
- 4.16.7. Cynghorodd adran 1.3 WR CNC [REP1-026]:
- "Bydd angen manylion am osod unrhyw gwlfertau ac ailgyfeirio cyrsiau dŵr, a chadw/adfer cynefin glannau afon, yn ogystal â'r mesurau a fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod rhywogaethau a warchodir yn gallu parhau i symud ar hyd y cyrsiau dŵr. Dylai'r rhain gael eu darparu o fewn y Gofynion DCO priodol."*
- 4.16.8. Roedd CCS o'r farn bod angen mwy o wybodaeth i asesu'r mesurau lliniaru'n ddigonol, a gofynnodd am wybodaeth ychwanegol mewn LEMS

wedi'i diweddarau [APP-036], sy'n cynnwys mesurau lliniaru a mesurau gwella bioamrywiaeth. Honnodd CCS y dylai'r rhain geisio cyflawni enillion ecolegol net yn hytrach na chael eu dylunio'n unig i gyfyngu ar niwed a/neu amnewid yn uniongyrchol [REP1-021].

- 4.16.9. Nododd CCS fod yr LEMS amlinellol [APP-036] yn ceisio dangos y mesurau lliniaru sydd wedi cael eu cynnwys wrth ddylunio'r dirwedd. Fodd bynnag, nid oedd CCS yn credu bod digon o fanylion ynglŷn â'r Ardal Lliniaru Ecolegol o ran sut yn union y bydd yn cael ei gwella i liniaru ar gyfer colli amrywiaeth o gynefinoedd. Heblaw am byllau a phlannu tirwedd ymgorfforedig, nid oedd yn eglur pa gynefinoedd eraill a fydd yn cael eu creu o'r newydd trwy'r mesurau lliniaru. Dywedodd CCS hefyd y byddai angen arolwg Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) wedi'i ddiweddarau yn rhan o'r gwiriadau cyn-adeiladu [REP1-021].
- 4.16.10. Roedd CCS o'r farn y byddai angen eglurhad a mesurau lliniaru/ gwella ychwanegol i sicrhau bod y cynllun yn dderbyniol o ran ei effaith ecolegol [REP1-021].
- 4.16.11. Cododd nifer o IPs bryderon cyffredinol ynglŷn â bioamrywiaeth:
- Peter Rasbridge [RR-005];
 - Wynne Watkins [RR-014] a
 - Kirsty Dando Thomas [RR-015].
- 4.16.12. Gofynnais nifer o gwestiynau i'r Ymgeisydd, CNC a CCS am effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar fioamrywiaeth a chynefinoedd yn ExQs1 [PD-005(3)] ac ExQs2 [PD-006]. Codwyd y mater hefyd fel eitem agenda benodol (Eitem 7.6) yn yr ISH ar Faterion Amgylcheddol [EV-012].

Ystyriaethau polisi

- 4.16.13. Mae adran 4.3 NPS EN-1 yn darparu polisi sy'n berthnasol i HRA. Fe'i hystyrir a rhoddir ymatebion iddo ym Mhennod 5 isod.
- 4.16.14. Mae paragraff 5.3.3 EN-1 yn datgan y dylai ES nodi'n eglur:
- 'unrhyw effeithiau ar safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth ecolegol neu ddaearegol a ddynodwyd yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol, ar rywogaethau a warchodir ac ar gynefinoedd a rhywogaethau eraill yr amlygwyd eu bod yn bwysig iawn ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth'.*
- 4.16.15. Mae paragraff 5.3.4 EN-1 hefyd yn mynnu bod yr Ymgeisydd yn:
- 'dangos sut mae'r prosiect wedi achub ar gyfleoedd i warchod a gwella buddiannau cadwraeth bioamrywiaeth a daearegol'.*
- 4.16.16. Mae adran 5.3 NPS EN-1 yn canolbwyntio ar yr effeithiau ar hierarchaeth safleoedd dynodedig, rhywogaethau a warchodir gan Ewrop ac yn genedlaethol a choetiroedd hynafol. Cododd CNC bryderon i ddechrau ynglŷn â'r posibilrwydd o niwed i rywogaethau a warchodir [RR-025].
- 4.16.17. Nid yw NPS EN-2 yn cynnwys polisi penodol ynglŷn ag effeithiau ar yr amgylchedd naturiol sy'n benodol i orsafoedd cynhyrchu nwy.

- 4.16.18. Mae adran 2.21 NPS EN-4 yn ceisio cynigion ar gyfer adfer wyneb y ddaear ac osgoi neu liniaru niwed i'r amgylchedd naturiol wrth ganiatáu piblinell. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r rhain yn faterion i'r caniatadau cynllunio ar gyfer aliniad y cysylltiad nwy gan CCS.
- 4.16.19. Mae TAN 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio yn rhoi cyngor ar sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at warchod a gwella cadwraeth bioamrywiaeth a daearegol.
- 4.16.20. Mae polisiau ER1, ER 2, ER 8, ER 9, ER 10 ac ER 11 CDLI CCS oll yn berthnasol i effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar fioamrywiaeth a chynefinoedd [REP4-025].

Ymateb yr Ymgeisydd

- 4.16.21. Mae Pennod 8 yr ES [APP-042] yn cynnwys yr asesiad bioamrywiaeth ac mae'n amlygu safleoedd, cynefinoedd, rhywogaethau neu ecosystemau dynodedig y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio arnynt, ac yn asesu tebygolrwydd effeithiau arwyddocaol. Mae'r bennod hefyd yn ystyried effeithiau posibl ar dderbynyddion ecolegol o ganlyniad i ansawdd aer, sŵn, dŵr, tirwedd a goleuadau. Cynhaliwyd astudiaeth ddesg ar gyfer radiws 2 km ar gyfer safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol (SoDdGA, SINC) a 10 km ar gyfer safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol (Ramsar, ACA, AGA). Dangosir safleoedd a ddynodwyd ar gyfer y radiws 2 km a 10 km yn Ffigurau 8.1-8.3 [APP-021].
- 4.16.22. Mae'r Ymgeisydd wedi cynnal yr arolygon ecolegol canlynol [APP-016, 017, 038, 039 a 041] i sefydlu'r llinell sylfaen ecolegol:
- Arolwg cynefinoedd;
 - Arolwg madfallod dŵr cribog;
 - Arolwg ymlusgiaid;
 - Arolwg dyfrgwn a llygod y dŵr;
 - Arolwg pathewod;
 - Gwrychoedd;
 - Arolwg moch daear; ac,
 - Asesiad ac arolwg gweithgarwch clwydi ystlumod.
- 4.16.23. Yn ogystal â'r mesurau lliniaru ymgorfforedig a ddisgrifir yn Adran 3.11 yr ES [APP-042], bydd y mesurau lliniaru ychwanegol canlynol yn cael eu gweithredu hefyd:
- Mesurau gwella ecolegol fel amnewid cynefin, lle y bo'n bosibl, trwy'r Cynllun Lliniaru Tirwedd ac Ecoleg (LEMP) amlinellol a sicrheir trwy R3 ac R9;
 - LEMS amlinellol a sicrheir trwy R3 ac R9;
 - Cynllun Rheoli Dŵr Wyneb a sicrheir trwy R7; ac
 - Arolygon cyn-adeiladu a sicrheir trwy R8.
 - Arolygon INNS wedi'u diweddarau a chamau unioni a sicrheir trwy R10.
- 4.16.24. Nododd yr Ymgeisydd fod rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli a gwarchod bioamrywiaeth wedi'u cynnwys yn Adran 2.1 y CEMP [APP-

036]. Cyflwynir rheolaeth ecolegol drwy gydol yr LEMS [REP1-016]. Sicrheir y CEMP a'r LEMS trwy Ofynion 17 a 9, yn ôl eu trefn. Manylir ar bob pwynt a awgrymwyd i'w gynnwys isod, gan gyfeirio at ble yr ymdrinnir ag ef yn y ddwy ddogfen hyn [REP2-003]:

- *"Bod asesiad risg o weithgareddau adeiladu a allai fod yn niweidiol yn cael ei leoli yn yr arolygon cyn-adeiladu a'r briffiau gwyllo yn yr LEMS [REP1-016] Atodiadau A-G;*
- *Bod parthau gwarchod bioamrywiaeth a amlygwyd yn cael eu lleoli ym mhob Atodiad A-G perthnasol o'r LEMS [REP1-016];*
- *Bod mesurau ymarferol a datganiadau o ddull yn cael eu lleoli yn yr LEMS [REP1-016] Atodiadau A-G a thrwy gydol y CEMP [APP-036];*
- *Bod lleoliad ac amseriad gwaith sensitif i osgoi niweidio nodweddion bioamrywiaeth yn cael eu lleoli ym mhob Atodiad A-G perthnasol o'r LEMS [REP1-016];*
- *Bod yr adegau yn ystod y cam adeiladu pan fydd angen i ecolegydd arbenigol fod yn bresennol ar y safle i oruchwylio'r gwaith yn cael eu lleoli ym mhob Atodiad A-G perthnasol o'r LEMS [REP1-016];*
- *Bod llinellau cyfathrebu cyfrifol yn cael eu lleoli yn y CEMP Adran 2.1 a'r CEMP Atodiad A: Cofrestr Mesurau Lliniaru;*
- *Bod rôl a chyfrifoldebau clerc gwaith ecolegol ar y safle yn cael eu lleoli o fewn Adran 2.1 y CEMP [APP-036] ac ym mhob Atodiad A-G perthnasol o'r LEMS [REP1-016]; a*
- *Bydd ffensys amddiffynnol, rhwystrau allgáu ac arwyddion rhybudd yn cael eu darparu yn yr LEMS derfynol, os bydd angen."*

4.16.25. Bydd yr LEMS derfynol yn cynnwys:

- Nodau ac amcanion rheoli;
- Amodau ar gyfer opsiynau rheoli;
- Manylion y corff neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun; ac
- Adrodd am fesurau adfer a'u gweithredu.

4.16.26. Dadleuodd yr Ymgeisydd nad yw'n bosibl darparu manylion penodol, fel y gofynnwyd gan CNC a CCS, gan fod hyn yn dibynnu ar gadarnhau dyddiadau dechrau adeiladu, a chontractwr/contractwyr, yn ogystal â chymeradwyaeth CCS cyn i waith adeiladu ddechrau [REP2-003].

4.16.27. Nododd yr Ymgeisydd [REP2-003]:

"Mae'r Ardal Lliniaru Ecolegol yn cynnwys ardal o laswelltir corsïog ac asidig a fydd yn cael ei chreu trwy leihau/dileu pori ar y safle, gan felly ganiatáu i'r rhywogaethau botanegol brodorol adfywio. Bydd yr ardal yn newid i fod yn ardal o brysgwydd brodorol a fydd, yn ei dro, yn newid yn rhywogaethau coed brodorol a fydd yn ffurfio'r ffin orllewinol, gan gysylltu llinellau'r coed yn y gogledd ag Afon Llan yn y de, fel y dangosir yn y Cynllun Lliniaru Tirwedd ac Ecoleg (LEMP) ES Ffigur 3.6 [APP-021]. Bydd yr LEMS derfynol yn cynnwys amserlenni plannu, dwysedd stocio ac uchder coed. Defnyddir technegau safonol i sicrhau bod y stoc a blennir yn goroesi ac yn cael ei monitro fel bod unrhyw stoc nad yw'n ymsefydlu'n dda yn cael ei hamnewid."

- 4.16.28. Mae'r Ymgeisydd wedi diwygio Gofyniad 8 i fynnu bod arolygon cyn-adeiladu'n cael eu hailadrodd lle nad yw'r gwaith perthnasol wedi dechrau o fewn 2 flynedd o ddyddiad yr arolwg. Mae'r Ymgeisydd o'r farn bod hyn yn darparu digon o sicrwydd a chadernid i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan CCS.
- 4.16.29. Yn ôl paragraff 15.4.1 yr ES [APP-042]:
- "Mae enghreifftiau o ganlyniadau ecolegol posibl y newid yn yr hinsawdd yn cynnwys newid i wasgariad rhywogaethau, colli rhywogaethau ar eithafion eu gwasgariad, amharu ar brosesau ecolegol yn y pen draw, a niwed i weithrediad ehangach ecosystemau. Fodd bynnag, gellir lleihau'r effeithiau hyn ar rywogaethau trwy gryfhau rhwydweithiau ecolegol i ganiatáu i rywogaethau fudo wrth i'r hinsawdd newid. Mae'r mesurau lliniaru ecolegol (gweler Pennod 8: Ecoleg) a'r cynllun tirweddu (gweler Pennod 11: Effeithiau Tirweddol a Gweledol) arfaethedig ar gyfer y Prosiect hwn yn ceisio cryfhau cysylltedd yn yr ardal ehangach, ac felly byddent yn cyfrannu at yr ymdrechion i ddarparu cyfleoedd i rywogaethau fudo wrth i'r hinsawdd newid."*
- 4.16.30. Ni amlygodd yr Ymgeisydd unrhyw effeithiau arwyddocaol gweddilliol ar gyfer pob elfen o'r Datblygiad Arfaethedig, nac yn ei gyfanrwydd, o ganlyniad i'r mesurau lliniaru ymgorfforedig sy'n rhan annatod o'r dyluniad a'r mesurau lliniaru ychwanegol, fel cynefinoedd cyfnewid, lle y bo'n bosibl, trwy'r LEMP (a sicrheir trwy Ofyniad 3 a Gofyniad 9), yr LEMS (a sicrheir trwy Ofyniad 2 a Gofyniad 9) ac arolygon cyn-adeiladu (a sicrheir trwy Ofyniad 8).

Casgliadau'r ExA

- 4.16.31. O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, ystyriaf fod materion cadwraeth bioamrywiaeth a natur (gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd) wedi cael eu hasesu'n ddigonol, a bod gofynion NPS EN-1 a TAN 5 wedi'u bodloni.
- 4.16.32. Mynegodd CCS ei fodlonrwydd â Diwygiad 4 yr LEMS [REP4-008] yn Atodiad D [REP5-007].

Mae'r ExA yn fodlon bod pryderon CNC a CCS ynglŷn â'r effeithiau ar fioamrywiaeth wedi derbyn sylw'n ddigonol gan yr Ymgeisydd trwy Ofynion 3, 7, 8, 9 a 10 y DCO.

4.17. ANSAWDD AC ADNODDAU DŴR A PHERYGL LLIFOGYDD

Materion

- 4.17.1. Ni fynegodd CNC [RR-025] bryderon ynglŷn â materion amgylchedd dŵr.
- 4.17.2. Cododd Dŵr Cymru [RR-023] y pryderon penodol canlynol ynglŷn â'r effaith bosibl ar:
- Gronfa Ddŵr Lliw Isaf;
 - Gwaith Trin Dŵr Felindre;

- Ansawdd ac adnoddau dŵr;
- Cyfanrwydd strwythurol asedau a chyfarpar DC;
- Hawliau mynediad statudol DC i'w brif bibellau dŵr a'i gyfarpar cysylltiedig;
- Gallu DC i gyflawni ei rwymedigaethau statudol; a
- Hawliau tir a chysylltiedig DC.

4.17.3. Ni fynegodd CCS bryderon ynglŷn â materion amgylchedd dŵr yn ei LIR [REP1-021]. Daeth i'r casgliad:

"Nid yw'r Cyngor o'r farn bod y datblygiad yn codi unrhyw faterion arwyddocaol o ran llifogydd neu ddraenio na ellir eu lliniaru, ac felly ystyrir bod y cynigion yn cydymffurfio â pholisïau'r CDLI sy'n dod i'r amlwg yn hyn o beth."

Ystyriaethau polisi

4.17.4. Mae'r WFD yn berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig.

4.17.5. Mae adran 5.15 EN-1 yn cynghori, lle mae effeithiau ar yr amgylchedd dŵr yn debygol, y dylai asesiad gael ei gynnal o statws presennol ansawdd dŵr, adnoddau dŵr a nodweddion ffisegol yr amgylchedd dŵr, ac effeithiau datblygiad arnynt. Anogir mesurau lliniaru adeiladu trwy CEMP a mesurau lliniaru gweithredol trwy ddylunio cynllun draenio (ymhlith pethau eraill).

4.17.6. Mae adran 5.7 yn mynnu bod Asesiad o Berygl Llifogydd (FRA) (Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd Lefel 2 yng Nghymru) yn cael ei gyflwyno gyda cheisiadau.

4.17.7. Mae TAN 15: Datblygu a Pherygl o Llifogydd yn rhoi arweiniad technegol sy'n ategu'r polisi a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru o ran datblygu a llifogydd. Mae'n cynghori ar ddatblygu a pherygl llifogydd fel y bo'n berthnasol i egwyddorion cynaliadwyedd, ac yn darparu fframwaith ar gyfer asesu risgiau sy'n codi o lifogydd afonol ac arfordirol, ac o ddŵr ffo ychwanegol o ddatblygiad mewn unrhyw leoliad.

4.17.8. Mae Polisi RP 4 CDLI CCS yn diogelu ansawdd dŵr rhag llygredd sy'n gysylltiedig â datblygiad newydd.

Ymateb yr Ymgeisydd

4.17.9. Cynhaliwyd asesiad o'r Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (LSE) ar ansawdd dŵr, adnoddau dŵr a pherygl llifogydd ym Mhennod 9 yr ES [APP-042]. Mae'r ardal a astudiwyd o ran ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr yn ymestyn y tu hwnt i Ffin Safle'r Prosiect, fel y dangosir yn Ffigurau 9.1 a 9.2 [APP-021]. Felly, mae'r ardal a astudiwyd yn cynnwys yr ardal o fewn Ffin Safle'r Prosiect a pharth dylanwad (ZoI) posibl, a ddiffinnir fel pellter y gellid disgwyl yn rhesymol i effeithiau arwyddocaol ddigwydd ar dderbynyddion/nodweddion dŵr pwysig. Yn yr achos hwn, o ran derbynyddion/nodweddion dŵr, fe'i diffinnir fel ZoI clustogol o 1 km o amgylch Ffin Safle'r Prosiect.

- 4.17.10. Cynhaliodd yr Ymgeisydd astudiaeth ddesg ac arolwg ar droed o amgylch Safle'r Prosiect a amlygodd nifer o dderbynyddion (cyrff dŵr) o fewn 1 km o Ffin Safle'r Prosiect, gan gynnwys Afon Llan a'i hisafonydd, pyllau o fewn Ffin Safle'r Prosiect a sawl SINC. Mae ACA Aber Afon Llŵchwr/Cilfach Tywyn wedi'i lleoli 7 km o Ffin Safle'r Prosiect. Nid oes unrhyw ran o'r Safle Offer Cynhyrchu wedi'i lleoli o fewn parth perygl llifogydd, fel y'i dynodwyd gan CNC. Fodd bynnag, mae ardal fach ar gyrion ffin ddwyreiniol y Safle Offer Cynhyrchu o fewn Parth B (tystiolaeth flaenorol o lifogydd hanesyddol) ar Fapiau Cyngor Datblygu TAN15.
- 4.17.11. Ym mharagraff 15.4.1 yr ES, mae'r Ymgeisydd yn dweud [APP-042]:
- "Ymdriniwyd â'r newid yn yr hinsawdd hefyd yn Atodiad 9.1: Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd, sy'n ystyried perygl llifogydd ar Safle'r Prosiect. Ystyriwyd y newid yn yr hinsawdd (rhagwelir digwyddiadau glawiad amlach a/neu fwy difrifol nag a fu yn y gorffennol) yng nghyfrifiadau storio pyllau arafu o 20% uwchlaw'r digwyddiad llifogydd 1 mewn 100 mlynedd. Bydd hyn yn golygu bod angen i'r dyluniad draenio wneud cwlfertau'n ddigon mawr i ganiatáu am y digwyddiadau glawiad hyn a allai fod yn fwy difrifol. Felly, ni ystyrir bod yr effeithiau ar y newid yn yr hinsawdd o ganlyniad i lifogydd yn arwyddocaol."*
- 4.17.12. Dywedodd yr Ymgeisydd:
- "ni amlygwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol gweddilliol ar gyfer pob elfen o'r Prosiect, na'r Prosiect yn ei gyfanrwydd, o ganlyniad i'r mesurau lliniaru ymgorfforedig sy'n rhan annatod o'r dyluniad. Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad nad oes angen unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol" [APP-042].*
- 4.17.13. Yn ogystal, mae CNC wedi cytuno â chasgliadau'r FCA [AS-009] ac Asesiad Sgrinio'r WFD [APP-040] yn rhan o'i ymatebion ymgynghori i PEIR 2018 [RR-025].
- 4.17.14. Datrysodd Dŵr Cymru a'r Ymgeisydd eu holl bryderon penodol ynglŷn ag effaith bosibl y Datblygiad Arfaethedig ar eu hasedau mewn SoCG llofnodedig [REP5-006] cyn diwedd yr archwiliad.
- 4.17.15. Mae Gofynion 2, 6, 7, 17 a 19 y DCO drafft [REP6-003] yn rhoi dulliau ar waith i reoli ansawdd ac adnoddau dŵr yn ystod y camau dylunio, adeiladu a gweithredu.

Casgliadau'r ExA

- 4.17.16. Mae SoCG rhwng Dŵr Cymru a'r Ymgeisydd [REP5-006 yn adrannau 3.1-3.2] yn cofnodi'r holl faterion a oedd yn weddill ynglŷn â dyluniad a gweithrediad y gwaith dŵr wyneb a godwyd gan Dŵr Cymru sydd wedi cael eu datrys er boddhad y corff hwnnw.
- 4.17.17. Mae'r ExA o'r farn bod y materion ansawdd ac adnoddau dŵr (gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd) wedi derbyn sylw'n ddigonol ac yn bodloni gofynion NPS EN-1 a TAN 15.

4.17.18. Mae gofynion yr WFD wedi derbyn sylw'n ddigonol.

4.18. DAEAREG, AMODAU'R DDAEAR A HYDRODAEAREG

Materion

4.18.1. Yn ei LIR [REP1-021], mae CCS yn dweud bod y Datblygiad Arfaethedig wedi'i leoli ar dir a amlygwyd yn adnodd "Adnoddau Glo" a "Thywod a Gro" a ddiogelir. Mae Polisi RP 12 y CDLI yn berthnasol. Mae Polisi RP 12 y CDLI yn datgan:

"Caniateir echdynnu adnoddau mwynau lle y bodlonir y meini prawf canlynol: i. Gellir dangos bod angen y mwyn i fodloni angen cymdeithas naill ai'n genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol, ac ni ellir bodloni'r angen hwnnw trwy ddeunyddiau eilaidd neu wedi'u hailgylchu na chronfeydd wrth gefn presennol;"

4.18.2. Gofynnodd CCS am asesiad llawn o'r adnoddau mwynau posibl ac effaith y cynnig ar sterileiddio'r adnodd mwynau [REP1-021].

4.18.3. Nid oedd unrhyw IPs eraill wedi codi hyn fel mater yn eu cyflwyniadau i'r archwiliad.

4.18.4. Gofynnais nifer o gwestiynau i'r Ymgeisydd a CCS yn ExQs1 [PD-005(3)] ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai'r Datblygiad Arfaethedig sterileiddio cronfeydd wrth gefn glo ac agregau. Codwyd y mater hefyd mewn eitemau agenda penodol (Eitemau 8.2 a 9.2) yn yr ISH Amgylcheddol [EV-012].

Ystyriaethau polisi

4.18.5. Mae paragraff 5.3.4 NPS EN-1 yn mynnu bod yr ymgeisydd yn dangos sut mae'r prosiect wedi achub ar gyfleoedd i warchod a gwella buddiannau cadwraeth daearegol.

4.18.6. Mae polisiau RP 12 ac RP 13 y CDLI yn ymwneud yn benodol â diogelu mwynau, ac yn mynnu bod asesiad yn cael ei gynnal o echdynnu glo, tywod a gro [REP4-023].

Ymateb yr Ymgeisydd

4.18.7. Mae'r Prosiect wedi'i leoli o fewn ardaloedd a amlygwyd yn gronfeydd mwynau wrth gefn yn CDLI CCS, fel y dangosir yn yr ES Ffigur 2.1 [APP-021]. Mae bron yr holl dir sydd o fewn Terfynau'r Gorchymyn ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig o fewn ardal o gronfeydd glo wrth gefn, heblaw am y ffordd fynediad bresennol o'r B4489 (Gwaith Rhif 2).

4.18.8. Byddai adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at sterileiddio adnoddau mwynau glo o dan yr ôl troed yn ystod yr oes weithredol. Dywedodd yr Ymgeisydd:

"bydd yr adnodd mwynau'n aros yn gyfan a byddai ar gael i genedlaethau'r dyfodol y tu hwnt i oes y datblygiad. Yn ogystal, nid yw echdynnu glo trwy ddulliau cloddio tanddaear yn debygol o fod yn

dderbyniol o ganlyniad i'r seilwaith NGG a thrydan presennol sydd wedi'i leoli yn yr ardal leol" [REP1-010].

- 4.18.9. Cytunodd yr Ymgeisydd y bydd Arolwg Adnodd Mwynau yn cael ei gynnal cyn adeiladu, a sicrhew trwy Ofyniad 15 (Arolwg Adnoddau Mwynau), ac mae Gofyniad 28 yn mynnu bod yr Ymgeisydd yn ystyried canlyniad yr arolwg adnoddau mwynau wrth baratoi'r cynllun datgomiisydd.

Casgliadau'r ExA

- 4.18.10. Rwyf yn fodlon bod Gofyniad 15 yn mynd i'r afael â phryderon CCS a'i fod yn cydymffurfio â Pholisïau R12 ac R13 y CDLI.
- 4.18.11. Rwyf yn fodlon bod asesiad digonol o Ddaear, Amodau'r Ddaear a Hydroddaear wedi cael ei gynnal a'i fod yn bodloni gofynion adran 5.3 EN-1.

4.19. TRAFFIG, TRAFNIDIAETH A MYNEDIAD

Materion

- 4.19.1. Roedd y Post Brenhinol [RR-010] yn pryderu y gallai adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer newydd arfaethedig hon gael effaith niweidiol ar ei allu i ddarparu gwasanaeth didoli a dosbarthu post effeithlon i'r cyhoedd yn y dyfodol yn unol â'i rwymedigaethau statudol. I fynd i'r afael â hyn, gofynnodd y Post Brenhinol am y canlynol:
- a. "Bod y cais DCO sydd i ddod yn cynnig gofyniad bod Abergelli Power Limited yn ymgynghori â'r Post Brenhinol o flaen llaw ynglŷn ag unrhyw fwriad o gau ffyrdd/ dargyfeiriadau/ trefniadau mynediad amgen, oriau gwaith a chynnwys y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) terfynol.*
- b. Bod y cais DCO sydd i ddod yn cynnig gofyniad bod y CTMP terfynol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dull o roi gwybod i ddefnyddwyr ffyrdd pwysig am waith sy'n effeithio ar y rhwydwaith lleol (gan roi sylw penodol i gyfleusterau dosbarthu'r Post Brenhinol yng nghyffiniau safle'r cais DCO)".*
- 4.19.2. Codwyd pryderon ynglŷn â thraffig a thrafnidiaeth gan breswylwyr lleol ac IPs cymunedol, fel a ganlyn:
- Roedd Cynghorydd Ward Mawr [RR-004] yn pryderu y byddai'r traffig adeiladu'n cael effaith arwyddocaol ar breswylwyr lleol;
 - Roedd Michael Edwards [RR-011] yn credu nad oedd yr Ymgeisydd wedi ystyried dewisiadau amgen ar gyfer y ffordd fynediad. Mae'r ffordd fynediad yn croesi tir Mr Edwards; ac
 - Roedd gan Mark Adams [RR-016] bryderon cyffredinol ynglŷn â thraffig.
- 4.19.3. Gofynnais nifer o gwestiynau i'r Ymgeisydd a CCS am effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar draffig yn ExQs1 [PD-005(3)].

Ystyriaethau polisi

4.19.4. Mae adran 5.13 EN-1 yn amlygu'r effeithiau ar draffig a thrafnidiaeth sy'n gallu deillio o ddatblygiadau seilwaith ynni. Mae paragraff 5.13.3 EN-1 yn galw am asesu amodau trafndiaeth a thraffig gan ddefnyddio methodolegau y cytunwyd arnynt â'r awdurdodau priffyrdd a thrafnidiaeth cenedlaethol a lleol perthnasol, ac am sicrhau mesurau lliniaru i fynd i'r afael ag effeithiau niweidiol.

4.19.5. Mae paragraff 2.5 TAN 18 ar Gynllunio Trafnidiaeth yn datgan:

"Er mwyn sicrhau patrwm datblygu mwy cynaliadwy mae angen deall y rhyngweithio a'r cysylltiadau rhwng defnydd tir a thrafnidiaeth a llunio strategaethau, amcanion a pholisïau integredig yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Yn rhanbarthol, gwelir gwaith cydweithredol gan awdurdodau lleol mewn gwaith ardal ar gyfer Cynllun Gofodol Cymru (CGC) a thrwy Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh). Yn lleol, mae hyn yn golygu sicrhau bod strategaethau, amcanion a pholisïau mewn strategaethau cymunedol, cynlluniau datblygu, strategaethau iechedd, gofal cymdeithasol a lles a strategaethau a chynlluniau perthnasol eraill yn gyson, yn gydategol ac yn integredig."

Ymateb yr Ymgeisydd

4.19.6. Mae Pennod 12 Traffig yr ES [APP-042] yn ystyried effeithiau traffig a gynhyrchir gan y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r asesiad yn cadarnhau y bydd rhai effeithiau niweidiol dros dro yn sgil mwy o symudiadau Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV) yn ystod y cyfnod adeiladu.

4.19.7. Mae CTMP Amlinellol (ES Atodiad 3.3a, [APP-036]) yn darparu mesurau i reoli traffig a lleihau effeithiau niweidiol i'r eithaf. Mae'r adran "Gwasanaethau Lleol" (paragraff 3.3.9) yn y CTMP Amlinellol (ES Atodiad 3.3a, APP-036) yn cynnwys ymrwymiad y bydd y contractwr a'r cwmni cludo nwyddau yn gwneud pob ymdrech resymol i weithio gyda darparwyr gwasanaethau lleol, gan gynnwys y Post Brenhinol, yn ystod y cyfnod adeiladu i sicrhau bod aflonyddu a achosir gan ddanfoniadau Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin (AIL) yn cael ei osgoi [REP1-010].

4.19.8. Sicrheir y CTMP trwy Ofyniad 21 y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft [REP6-003] "Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu". Felly, mae'r DCO, trwy Ofyniad 21 a'r CTMP, yn sicrhau yr ymgynghorir â'r Post Brenhinol, yn unol â'u dymuniad.

4.19.9. Mae asesiad trafndiaeth wedi cael ei gynnal gan yr Ymgeisydd ac mae'n amlygu effeithiau ar y rhwydwaith priffyrdd, diogelwch ar y ffyrdd a hygyrchedd (Pennod 12 yr ES, [APP-042]). Rhagwelwyd y bydd y Prosiect yn cael effeithiau arwyddocaol yn ystod y cam adeiladu a datgomisiynu, er y byddai'r rhain dros dro.

4.19.10. Mae CEMP Amlinellol (ES Atodiad 3.1, [APP-036]) ac OCTMP (ES Atodiad 3.3a, [APP-036]) wedi cael eu paratoi. Dogfennau strategol yw'r rhain sy'n amlinellu dulliau arfer gorau o leihau effeithiau amgylcheddol gymaint â phosibl yn ystod y cam adeiladu, a rheoli symudiadau a

rhyngweithiau deunyddiau â'r rhwydwaith ffyrdd amgylchynol yn ystod camau amrywiol y broses adeiladu.

4.19.11. Mae Cynllun Teithio Staff Adeiladu Amlinellol (CSTP) (ES Atodiad 3.3b, [APP-036]) wedi cael ei baratoi hefyd i amlinellu sut y bydd symudiadau staff yn cael eu rheoli yn ystod camau amrywiol y broses adeiladu. Bydd y dogfennau rhagarweiniol hyn yn cael eu cwblhau'n derfynol a'u mabwysiadu gan y Contractwr i'w gweithredu ar y safle, pan fydd y cynnwys wedi cael ei gytuno â CCS.

4.19.12. Dadleuodd yr Ymgeisydd nad oes angen iddo ddarparu gwybodaeth amgylcheddol am bob dewis amgen a awgrymwyd gan barti â buddiant. Mae'r Ymgeisydd o'r farn ei fod wedi cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (AEA) 2009 i ddarparu gwybodaeth am y:

"prif ddewisiadau amgen a astudiwyd gan yr Ymgeisydd a syniad o'r prif resymau dros ddewis yr Ymgeisydd, gan ystyried yr effeithiau amgylcheddol".

Casgliadau'r ExA

4.19.13. Er y mynegwyd pryderon mewn cynrychiolaethau, rwyf yn fodlon nad yw'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at effeithiau sylweddol ar draffig a thrafnidiaeth. Dylid hefyd cofnodi, o gymharu â materion eraill a godwyd yn yr Archwiliad, nad oedd lefel y pryder a godwyd ynglŷn â'r materion hyn yn uchel.

4.19.14. Rwyf yn fodlon bod yr asesiad traffig a thrafnidiaeth a amlinellir yn yr ES yn gadarn. Rwyf yn fodlon y bydd y mesurau lliniaru, gan gynnwys CTMP a sicrhau o dan Ofyniad 21, rheoleiddio oriau adeiladu o dan Ofyniad 23 a pharatoi'r CSTP (a sicrhau trwy Ofyniad 22) yn lliniaru effeithiau niweidiol y Datblygiad Arfaethedig i'r graddau sy'n ofynnol i fodloni NPS EN-1 paragraff 5.13.3 a TAN 18.

4.20. YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL

Materion

4.20.1. Nid yw'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys unrhyw asedau hanesyddol, er bod un heneb gofrestredig, un adeilad rhestredig a 26 heneb anghofrestredig yn bresennol o fewn yr ardal astudio 1 km, a bod 16 Heneb Gofrestredig, 54 Adeilad Rhestredig (pob gradd), dwy Ardal Gadwraeth a thri Pharc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig yn bresennol o fewn yr ardal astudio 5 km (Ffigurau 13.1 a 13.2 [APP-024]).

4.20.2. Daeth CCS i'r casgliad, ar yr amod bod Gofyniad 13 Archaeoleg yn cael ei gynnwys yn y DCO yn unol â pharagraff 16.29 yr LIR [REP1-021], ac yn amodol ar unrhyw sylwadau gan CADW a gyflwynir yn uniongyrchol i'r ExA, yr ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisïau HC1, HC2 a PS2 y CDLI.

4.20.3. Roedd CADW yn cytuno â chasgliadau'r Adroddiad Rhagarweiniol ar yr Effaith Amgylcheddol (PEIR) ynglŷn ag effaith y cynnig ar yr asedau

hanesyddol a amlygwyd yn yr ardal astudio [APP-061]. Ni wnaeth unrhyw gyflwyniadau i'r archwiliad.

- 4.20.4. Gofynnais nifer o gwestiynau am effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar yr amgylchedd hanesyddol i'r Ymgeisydd a CCS yn ExQs1 [PD-005(3)]. Cynhaliais ASI, ar 14 Rhagfyr 2018, i weld y safle o'r cefn gwlad amgylchynol [EV-008].

Ystyriaethau polisi

- 4.20.5. Mae NPS EN-1 yn amlinellu'r polisi ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn adran 5.8. Ni chodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio, felly, er y rhoddwyd ystyriaeth i'r polisi hwn, ni thrafodir ef yn fanwl. Nid yw NPS EN-2 yn codi unrhyw faterion yn ymwneud â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol sy'n benodol i waith hylosgi nwy. Yn yr un modd, nid yw NPS EN-4 yn codi unrhyw beth penodol ynglŷn ag aliniad y cysylltiad nwy, gan nodi hefyd nad yw datblygiad gweithredol yno o fewn y cais hwn.
- 4.20.6. Diben TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol yw rhoi arweiniad ar sut mae'r system gynllunio'n ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth baratoi cynllun datblygu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio a Chaniatâd Adeilad Rhestredig (LBC).

Ymateb yr Ymgeisydd

- 4.20.7. Aseswyd effeithiau posibl y Prosiect ar adnodd amgylchedd hanesyddol y Datblygiad Arfaethedig a'r ardal amgylchynol ym Mhenod 13 yr ES [APP-042]. Cynhaliwyd asesiad desg o asedau hanesyddol ar draws ardal astudio 1 km ynghyd ag ymgynghoriad pellach â CCS ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent (GGAT), fel y dangosir yn Ffigur 13.2 [APP-024].
- 4.20.8. Paratôdd yr Ymgeisydd Barth Gwelededd Damcaniaethol (ZTV) wedi'i seilio ar y senario achos gwaethaf realistig o stac 45 m ar gyfer y bennod ar effeithiau tirweddol a gweledol, a llywiodd hyn yr asesiad o asedau hanesyddol dynodedig. Yr ardal astudio ar gyfer asesu asedau hanesyddol dynodedig yw 5 km [APP-024].
- 4.20.9. Ni amlygwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol gweddilliol ar gyfer pob elfen o'r Datblygiad Arfaethedig, nac yn gronol o ganlyniad i'r mesurau lliniaru sydd wedi'u hymgorffori yn y dyluniad.

Casgliadau'r ExA

- 4.20.10. Mae'r Ymgeisydd wedi dilyn y polisi ar asesu'r amgylchedd hanesyddol o fewn EN-1 a TAN 24.
- 4.20.11. Yn fy marn i, nid oes llawer o botensial am effeithiau gweddilliol ar leoliad asedau hanesyddol yn yr Ardaloedd Astudio. Bydd rhaglen o fesurau lliniaru archaeolegol cyn adeiladu, a sicrhau trwy Ofyniad 13 [REP6-003], ynghyd â'r pellter i dderbynyddion sensitif a'r dopograffeg leol, yn golygu bod yr effeithiau gweddilliol hyn yn annhebygol o fod yn arwyddocaol.

4.21. EFFEITHIAU ECONOMAIDD A CHYMDEITHASOL

Materion

- 4.21.1. Derbyniodd CCS [REP1-021] gasgliadau cyffredinol Pennod 14 yr ES [APP-042]. Ni chytunwyd ar gwmpas a pharmedrau'r asesiad o effeithiau ar dwristiaeth, gan fod CCS o'r farn bod y rhain yn rhy gyfyngol [REP3-010].
- 4.21.2. Ni wnaed unrhyw gyflwyniadau eraill gan IPs ar y mater hwn.
- 4.21.3. Gofynnais nifer o gwestiynau am effeithiau economaidd-gymdeithasol y Datblygiad Arfaethedig i'r Ymgeisydd yn ExQs1 [PD-005(3)].

Ystyriaethau polisi

- 4.21.4. Mae paragraff 3.2.1 NPS EN-1 yn nodi'r effeithiau economaidd-gymdeithasol cadarnhaol, ar y cyfan, sy'n deillio o gynhyrchu trydan i fodloni anghenion ynni a amlygwyd yn genedlaethol ar lefel genedlaethol. Mae paragraff 5.12.1 EN1 yn nodi y gallai fod effeithiau lleol sy'n gadarnhaol ac yn niweidiol.
- 4.21.5. Mae paragraff 15.12.6 NPS EN-1 yn gofyn i'r SoS ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol posibl seilwaith ynni newydd a amlygwyd gan yr Ymgeisydd ac o unrhyw ffynonellau eraill sy'n berthnasol ac yn bwysig yn ei farn ef. Mae paragraff 15.12.7 yn pwysleisio, o ystyried yr angen am seilwaith cynhyrchu trydan, 'dylid rhoi pwys cyfyngedig i honiadau ynghylch effeithiau economaidd-gymdeithasol nad ydynt wedi'u hategu gan dystiolaeth'. Mae paragraff 15.12.8 yn gofyn i'r SoS ystyried 'unrhyw ddarpariaethau cadarnhaol perthnasol y mae'r datblygwr wedi'u gwneud neu'n bwriadu eu gwneud i liniaru'r effeithiau'.
- 4.21.6. Mae paragraff 1.1.1 TAN 23 ar Ddatblygu Economaidd yn datgan:
"Mae'n bwysig bod y system gynllunio'n cydnabod yr agweddau economaidd ar bob datblygiad a bod penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud mewn ffordd gynaliadwy gan bwyso a mesur ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd."

Ymateb yr Ymgeisydd

- 4.21.7. Mae Pennod 14 yr ES [APP-042] yn asesu effeithiau economaidd-gymdeithasol tebygol y Datblygiad Arfaethedig ar y farchnad lafur, yr economi dwristiaeth a seilwaith cymunedol. Mae'r ardal astudio economaidd-gymdeithasol wedi'i seilio ar ddalgylchoedd amser gyrru o'r Datblygiad Arfaethedig.
- 4.21.8. Amlygodd yr Ymgeisydd fod yr 'ardal leol' o fewn amser gyrru 30 munud; bod yr 'ardal ehangach' o fewn amser gyrru 45 munud; a bod y 'rhanbarth ehangach' o fewn amser gyrru 60 munud. Mae'r ardal astudio hon wedi amlygu gweithlu sydd ar gael yn rhwydd, sy'n cynnwys nifer uchel o lafurwyr.

- 4.21.9. Mae ardal astudio'r arolwg twristiaeth / busnes wedi'i chyfyngu i radiws 10 km o'r Prosiect, oherwydd dyma lle y disgwylir mwyafrif yr effeithiau. Cynhaliwyd astudiaeth ddesg a amlygodd nifer gyfyngedig o atyniadau i dwristiaid o fewn y safle, sef Gwarchodfa Natur Cwm Clydach, Llwybr Beicio Cenedlaethol 43 a Chanolfan Weithgareddau Pledu Paent a Thag Laser Teamforce.
- 4.21.10. Mae'r Nodyn Esboniadol ar y Bennod Economaidd-gymdeithasol (Atodiad B y SoCG [REP1-003]) yn esbonio'r sail resymegol a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd wrth bennu cwmpas a pharamedrau'r arolwg busnes twristiaeth ac asesu effeithiau twristiaeth; cyflwynir y ddau ym Mhennod 14 yr ES [APP-042].
- 4.21.11. Nid oedd yr Ymgeisydd yn credu y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol ar dderbynyddion twristiaeth a hamdden yn yr ardal yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. Fodd bynnag, gellir gwella effeithiau buddiol ar gyflogaeth trwy gysylltiadau â chanolfannau gwaith, colegau, rhaglenni cyflogadwyedd ac ymgysylltu â chwmnïau adeiladu lleol a chwmnïau eraill y gadwyn gyflenwi [APP-042].

Casgliadau'r ExA

- 4.21.12. Rwyf wedi dod i'r casgliad bod yr Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effeithiau economaidd-gymdeithasol y cynnig a'i fod wedi darparu tystiolaeth ddigonol i ategu ei honiadau ynglŷn â'r effeithiau.
- 4.21.13. O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, deuaf i'r casgliad bod y cynnig wedi mynd i'r afael â gofynion EN-1 a TAN 23 yn ddigonol ac na fyddai'n cael effeithiau niweidiol arwyddocaol yn gymdeithasol nac yn economaidd. Gallai hefyd gefnogi datblygu economaidd yn yr ardal yn unol â pholisïau CCS, sy'n ffactor cadarnhaol yn y cydbwysedd cyffredinol o blaid y Datblygiad Arfaethedig.

4.22. PARODRWYDD AR GYFER GWRES A PHŴER CYFUNEDIG (CHP)

Materion

- 4.22.1. Fel mater o bolisi, mae angen i gais o'r math hwn fod yn barod ar gyfer CHP. Ni chododd unrhyw IP bryderon ynglŷn â pharodrwydd ar gyfer CHP yn ystod yr archwiliad.

Ystyriaethau polisi

- 4.22.2. Mae paragraff 4.6.6 NPS EN-1 yn datgan:

'O dan ganllawiau a gyhoeddwyd gan DECC (sef DTI bryd hynny) [BEIS erbyn hyn] yn 2006, mae'n rhaid i unrhyw gais i ddatblygu gorsaf gynhyrchu thermol o dan Adran 36 Deddf Trydan 1989 naill ai gynnwys CHP neu gynnwys tystiolaeth bod y posibilïadau ar gyfer CHP wedi cael eu harchwilio'n llawn i lywio ystyriaeth [yr Ysgrifennydd Gwladol] o'r cais ... Mae'r un egwyddor yn berthnasol i unrhyw orsaf bŵer thermol sy'n destun cais am ganiatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008.'

4.22.3. Mae EN-1 (ym mharagraff 4.6.8) yn datgan:

"Os yw'r cynnig ar gyfer cynhyrchu thermol heb CHP, dylai'r Ymgeisydd:

Esbonio pam nad yw CHP yn bosibl yn economaidd neu'n ymarferol, er enghraifft, os oes dull mwy effeithlon o fodloni galw cyfagos am wres domestig;

Darparu manylion unrhyw ofynion gwres posibl yn yr ardal yn y dyfodol y gallai'r orsaf eu bodloni; a

Manylu ar y darpariaethau yn y cynllun arfaethedig i sicrhau y gellir manteisio ar unrhyw alw posibl am wres yn y dyfodol."

4.22.4. Ers i'r Canllawiau CHP gael eu cyhoeddi, mae CNC wedi cyhoeddi ei ganllawiau ei hun, sef 'Canllawiau Parodrwydd ar gyfer CHP o ran Hylosgi ac Ynni o Orsafoedd Gwastraff' (2014) (Canllawiau CHP-R). Mae'r canllawiau hyn yn dweud (yn Adran 1.2):

"Pan fydd yr Awdurdodau Cynllunio yn ymgynghori ag ef ynglŷn â cheisiadau caniatâd perthnasol am orsafoedd newydd, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn amlygu'r angen i'r orsaf fod yn CHP neu'n CHP-R a bydd yn cyfeirio at y Canllawiau CHP-R hyn. Pan fydd angen DCO, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud sylwadau ar ganlyniadau'r Asesiad CHP hefyd."

Ymateb yr Ymgeisydd

4.22.5. Mae'r Nodyn Technegol CHP yn Atodiad 5.1 a gyflwynwyd gyda'r cais [APP-037] yn nodi bod technoleg OCGT wedi cael ei dewis ar gyfer y Prosiect. Mae'r Nodyn Technegol ar CHP yn crynhoi pam nad oes ymchwiliad pellach i'r defnydd o wres gwastraff yn cael ei gynnal, ac mae'n rhoi tystiolaeth o'r rheswm pam y dylai'r orsaf gynhyrchu thermol arfaethedig gael ei heithrio o Barodrwydd ar gyfer CHP.

4.22.6. Mae'r Ymgeisydd yn dadlau bod pedwar rhwystr sy'n atal cymhwyso CHP ar gyfer y Prosiect [APP-037]:

- 1) *"Nid oes marchnad wres ranbarthol yn bodoli ar hyn o bryd. Mae chwiliadau lleol yn dangos nad oes defnyddwyr gwres addas ar gael ar raddfa berthnasol ac nad oes defnyddwyr gwres a fyddai'n gallu derbyn y cyflenwad anrhagweladwy o wres a fyddai ar gael.*
- 2) *Ni amlygwyd unrhyw ofynion posibl am wres yn yr ardal yn y dyfodol, nac unrhyw rai a fyddai'n cyfateb i batrwm gweithredol Gorsaf Galw Uchel.*
- 3) *Mae moddau gweithredu ysbeidiol a galw uchel OCGT yn anghydnaws â gofynion defnyddwyr gwres, sy'n debygol o fod yn barhaus. Oherwydd diffyg gofynion gwres perthnasol, gellir eithrio darpariaethau yn y cynllun arfaethedig ar gyfer manteisio ar unrhyw alw posibl am wres yn y dyfodol.*
- 4) *Nid yw gorsafoedd OCGT yn cynhyrchu ager yn rhan o'r broses cynhyrchu trydan, ac felly byddai angen ychwanegu offer cynhyrchu ager i ddarparu gallu CHP, a fyddai'n arwain at dariff capasiti uwch (£/kW/blwyddyn) a heriau technegol ychwanegol."*

Casgliadau'r ExA

- 4.22.7. Rwyf yn fodlon bod Nodyn Technegol yr Ymgeisydd ar CHP [APP-037] yn dangos nad oes angen i'r Datblygiad Arfaethedig ymchwilio i CHP ymhellach ar gyfer yr orsaf gynhyrchu thermol arfaethedig, a'i fod yn darparu tystiolaeth o'r rheswm pam y dylai'r orsaf gynhyrchu thermol arfaethedig gael ei heithrio o Barodrwydd ar gyfer CHP. Mae hyn yn ddigonol i sicrhau bod gofyniad NPS EN-1 paragraff 4.6.8 yn cael ei fodloni.

4.23. MATERION ERAILL

- 4.23.1. Rwyf wedi ystyried yr holl faterion eraill sy'n codi o ddogfennau'r cais ac a godwyd mewn cynrychiolaethau. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion eraill sy'n ymddangos yn bwysig ac yn berthnasol i benderfyniad yr SoS a fyddai'n pwysu yn erbyn rhoi caniatâd datblygu neu a fyddai'n awgrymu bod angen newid y DCO.

5. CANFYDDIADAU A CHASGLIADAU MEWN PERTHYNAS AG ASESIAID RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

5.1. CYFLWYNIAD

- 5.1.1. Yr SoS yw'r awdurdod cymwys at ddibenion y Gyfarwydddeb Cynefinoedd²⁸ a'r Rheoliadau Cynefinoedd²⁹. Mae Rheoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd yn datgan os yw cynnig mewn cais yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar Safle Ewropeaidd a ddynodwyd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd³⁰ (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill), mae'n rhaid i'r awdurdod cymwys gynnal asesiad priodol o'r goblygiadau i'r safle hwnnw o ystyried ei amcanion cadwraeth.
- 5.1.2. Mae adran 4.3 NPS EN-1 yn disgrifio'r ymagwedd y dylid ei dilyn gan y penderfynwr mewn perthynas â'r Rheoliadau Cynefinoedd. At ddibenion cynllunio defnydd tir, mae PPW yn datgan y dylai Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) posibl, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ymgeisiol (cSAC) a safleoedd Ramsar rhestredig gael yr un amddiffyniad ag AGAau dosbarthedig ac ACAau dynodedig.
- 5.1.3. Gellir rhoi caniatâd i'r Datblygiad Arfaethedig dim ond os yw asesiad priodol yr awdurdod cymwys yn dod i'r casgliad na fyddai effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd, yn amodol ar Rheoliad 64 (ystyriaethau er budd cyhoeddus tra phwysig).
- 5.1.4. Gyda'r nod o sicrhau bod gan yr SoS gymaint o wybodaeth ag y gellid bod ei hangen yn rhesymol i gyflawni ei ddyletswyddau fel yr awdurdod cymwys, ceisiwyd tystiolaeth drwy gydol yr Archwiliad gan yr Ymgeisydd a'r IPs perthnasol trwy gwestiynau ysgrifenedig ac ISHs. Cyhoeddais Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES) [PD-008] ar 4 Mawrth 2019.
- 5.1.5. Ymgynghorwyd ar yr RIES rhwng 4 Mawrth 2019 a 4 Ebrill 2019. Cyhoeddwyd yr RIES i sicrhau bod IPs, gan gynnwys CNC, wedi cael eu hymgyngori'n ffurfiol ar faterion yn ymwneud â'r Rheoliadau Cynefinoedd. Gall yr SoS ddibynnu ar y broses hon at ddibenion Rheoliad 63(3) y Rheoliadau Cynefinoedd.

²⁸ Cyfarwydddeb y Cyngor 92/43/EEC 21, Mai 1992, ar gadwraeth cynefinoedd naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion gwyllt (fel y'i codeiddiwyd) ('y Gyfarwydddeb Cynefinoedd').

²⁹ Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y 'Rheoliadau Cynefinoedd').

³⁰ Safleoedd o Bwysigrwydd Cymunedol (SCIs), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), ACAau ymgeisiol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau); ac, o dan bolisi'r Deyrnas Unedig, AGAau posibl a safleoedd Ramsar rhestredig.

5.2. LLEOLIAD Y PROSIECT

- 5.2.1. Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 2 uchod, y Datblygiad Arfaethedig yw gorsaf bŵer OCGT â chapasiti cynhyrchu trydanol o hyd at 299MW. Ceisir y caniatad(au) angenrheidiol ar gyfer y cysylltiadau nwy a thrydanol ar wahân i'r Cais DCO.
- 5.2.2. Mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i leoli ger pentref Felindre, Abertawe. Nid yw wedi'i leoli o fewn na gerllaw unrhyw safleoedd Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae Afon Llan gerllaw pen deheuol ffin y Datblygiad Arfaethedig ac mae'n un o isafonydd Afon Lliw, sy'n llifo i ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ac AGA a Ramsar Cilfach Tywyn.
- 5.2.3. Amlygodd yr Ymgeisydd ddwy ffordd bosibl y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio ar safleoedd Ewropeaidd, sef: trwy newidiadau i ansawdd dŵr o ganlyniad i weithgareddau adeiladu a allai effeithio ar ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ac AGA a Ramsar Cilfach Tywyn; a newidiadau i ansawdd aer o ganlyniad i allyrru ocsidau nitrogen (NOx) i'r aer o'r orsaf bŵer tra'i bod yn gweithredu, a allai effeithio ar ACA a Ramsar Cors Crymlyn, ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ac AGA a Ramsar Cilfach Tywyn trwy ddyddodion nitrogen a/neu asideiddio. Yn ogystal, ystyriwyd effeithiau mwy o allyriadau i'r aer o ganlyniad i drafnidiaeth ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill. Ystyriodd Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol (NSER) yr Ymgeisydd yr holl safleoedd Ewropeaidd o fewn 10km o'r Datblygiad Arfaethedig, ac yn benodol lleoliad arfaethedig y stac, ar sail ehangder daearyddol tebygol yr effeithiau posibl a amlygwyd.

5.3. GOBLYGIADAU HRA Y PROSIECT

- 5.3.1. Darparodd yr Ymgeisydd NSER, sef 'Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu sy'n Rhedeg ar Nwy Abergelli Power: Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol' [APP-066], gyda'r cais DCO. Roedd yr SoS o'r farn bod y wybodaeth a ddarparwyd yn yr NSER yn ddigonol i dderbyn y cais i'w Archwilio ar 21 Mehefin 2018 [PD-002].
- 5.3.2. Nid yw'r Datblygiad Arfaethedig yn gysylltiedig â rheolaeth unrhyw rai o'r safle(oedd) Ewropeaidd a ystyriwyd o fewn asesiad yr Ymgeisydd o safbwynt cadwraeth natur, nac yn angenrheidiol ar gyfer hynny.
- 5.3.3. Fel y nodwyd uchod, cwmpasodd yr Ymgeisydd ei asesiad trwy amlygu safleoedd Ewropeaidd o fewn 10km o'r Datblygiad Arfaethedig. Rhestrir y safleoedd Ewropeaidd a ystyriwyd yn yr NSER yn Nhabl 2.1 yr RIES [PD-008]. Mewn ymateb i'm FWQ 1.6.18 [PD-005(3)], cadarnhaodd CNC [REP1-026] ei fod o'r farn bod yr ardal astudio 10km yn dderbyniol a bod y safleoedd a'r nodweddion cywir wedi cael eu hamlygu. Roedd yr ymateb hwn hefyd yn cadarnhau bod yr LSE priodol wedi cael eu hamlygu a'i fod yn cytuno â chwmpas a methodoleg yr asesiad ar y cyd a gyflwynwyd yn yr NSER.

- 5.3.4. Ni amlygodd CNC unrhyw safle Ewropeaidd arall na nodweddion eraill safle Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio arnynt. Nid oedd unrhyw barti arall wedi amlygu unrhyw safleoedd a nodweddion Ewropeaidd eraill y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio arnynt.

5.4. ASESIAID O EFFEITHIAU ARWYDDOCAOL TEBYGOL (LSE)

- 5.4.1. Amlygodd NSER yr Ymgeisydd [APP-066] y safle(oedd) (a'r nodweddion) Ewropeaidd canlynol y mae'r Deyrnas Unedig yn gyfrifol amdanynt i'w cynnwys yn yr asesiad:

- ACA Cors Crymlyn
- Ramsar Cors Crymlyn
- ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin
- AGA Cilfach Tywyn
- Ramsar Cilfach Tywyn

- 5.4.2. Rhestrir nodweddion dynodedig y safleoedd hyn a ystyriwyd yn asesiad yr Ymgeisydd yn Nhabl 2.1 yr RIES [PD-008].

- 5.4.3. Ystyriodd yr NSER effeithiau cynnig y Cais yn unigol ac ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill. Rhestrir y cynlluniau a'r prosiectau a sgriniwyd ar gyfer effeithiau ar y cyd yn Atodiad 1 yr RIES [PD-016]. Ystyriwyd y cysylltiadau nwy a thrydanol yn rhan o'r Datblygiad Arfaethedig at ddibenion yr asesiad o effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd yn NSER yr Ymgeisydd [APP-066]. Ni chododd IPs unrhyw bryderon yn ystod yr Archwiliad ynglŷn â chwmpas asesiad ar y cyd yr Ymgeisydd. Mewn ymateb i'm FWQ, cadarnhaodd CNC [REP1-026] a CCS [REP1-024] eu bod yn cytuno â chwmpas yr asesiad ar y cyd.

- 5.4.4. Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad na fyddai cynnig y Cais yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd yn unigol nac ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill [APP-066]. Roedd hyn ar y seiliau canlynol:

- Ansawdd dŵr – bydd y ffactor gwanhau a fyddai'n digwydd rhwng y Datblygiad Arfaethedig a'r safleoedd Ewropeaidd sydd wedi'u cysylltu'n hydrolegol yn arwain at effeithiau llygredd dibwys.
- Ansawdd aer – rhagwelir y bydd y cynnydd mewn crynodiadau NOx atmosfferig sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig islaw'r Lefel Gritigol. O ganlyniad, cyfrifir y bydd y gyfradd dyddodi nitrogen uwch sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig yn ddibwys fel canran o'r Llwythi Critigol (trothwyon na ddylai effeithiau fynd yn uwch na nhw) ar gyfer cynefinoedd y safleoedd Ewropeaidd.
- Effeithiau ar y cyd – ni amlygwyd unrhyw fewnbynnau ansawdd dŵr yn ystod y cam adeiladu a allai weithredu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill. Disgwylir i ollyngiadau dŵr gwastraff gweithredol fod mor fach fel na ellir eu mesur ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill. O ran ansawdd aer, ni fyddai unrhyw LSE yn codi o ganlyniad i allyriadau traffig o ystyried cyfraniad isel y Datblygiad Arfaethedig at

lif traffig a'r pellter rhwng y ffyrdd yr effeithir arnynt a'r safleoedd Ewropeaidd. Ni amlygwyd unrhyw darddleoedd allyriadau eraill a allai weithredu ar y cyd â'r Datblygiad Arfaethedig.

- 5.4.5. Mewn ymateb i'm FWQ yn ystod yr archwiliad, aeth yr Ymgeisydd i'r afael â mân anghysondebau yn yr NSER a gyflwynwyd, a darparodd NSER wedi'i ddiweddarau [REP1-011], a gyflwynwyd i'r ExA ar 9 Tachwedd 2018. Nid oedd yr NSER wedi'i ddiweddarau yn newid unrhyw un o'r casgliadau mewn perthynas ag LSE a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd.
- 5.4.6. Fel yr adroddwyd yn Adran 5.1 yr RIES [PD-008], ceisiwyd eglurhad yn ystod yr Archwiliad ynglŷn â ph'un a fyddai effaith ar gasgliadau'r asesiad o LSE pe na byddai'r mesurau osgoi a lliniaru ar gyfer gwarchod cyrsiau dŵr ac ansawdd dŵr a ddisgrifir yn yr NSER ar waith. Ceisiwyd yr eglurhad yn dilyn dyfarniad *People Over Wind, Peter Sweetman v Coillte Teoranta (2018)* ('Dyfarniad Sweetman') a gyhoeddwyd ar 12 Ebrill 2018. Dyfarnodd hyn y dylai mesurau lliniaru (y cyfeiriwyd atynt yn y dyfarniad fel mesurau y bwriedir iddynt osgoi neu leihau effeithiau) gael eu hasesu o fewn fframwaith asesiad priodol, ac ni chaniateir ystyried mesurau y bwriedir iddynt osgoi neu leihau effeithiau niweidiol y cynllun neu'r prosiect ar safle Ewropeaidd ar adeg penderfynu ar LSE (y cyfeirir ati fel arfer fel y cam sgrinio HRA). Yn ei ymateb i FWQ [REP1-010], dywedodd yr Ymgeisydd na fyddai hyn yn effeithio ar gasgliadau'r NSER ac eglurodd na fwriadwyd i'r mesurau lliniaru leihau neu osgoi effeithiau ar y safleoedd Ewropeaidd. Dywedodd yr Ymgeisydd y cynigir y mesurau hyn i warchod cyrsiau dŵr lleol yn ystod y cam adeiladu ac i reoli gollyngiadau gweithredol er mwyn bodloni meini prawf sy'n berthnasol i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.
- 5.4.7. Archwiliais ymhellach yr ymagwedd a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd mewn perthynas â'r mesurau lliniaru wrth asesu LSE yn yr ISH ar Faterion Amgylcheddol a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2018. Mae'r Ymgeisydd [REP3-006] yn cofnodi bod CNC yn cytuno â'r safbwynt hwn. Ni wnaeth CNC gynrychiolaeth bellach ar wahân ynglŷn â'r mater hwn. Cofnodwyd hefyd bod CCS yn derbyn y canfyddiad o ddim LSE [REP3-006]. Cadarnhaodd CNC [REP1-026] a CCS [REP1-024] eu bod yn cytuno â chanfyddiadau'r NSER cyn yr ISH.
- 5.4.8. Codwyd cwestiynau yn fy FWQ ynglŷn ag asesu effeithiau o lwch adeiladu, allyriadau traffig, a'r casgliad o ddim LSE o ran ACA a safle Ramsar Cors Crymlyn, lle y dywedir yn yr ES [APP-042] ac yn yr NSER [APP-066] bod lefel gefndirol y dyddodion nitrogen eisoes yn fwy na'r Llwyth Critigol. Mae'r NSER [APP-066] yn dod i'r casgliad bod cyfraniad y Datblygiad Arfaethedig mor fach fel y byddai cynnydd dibwys i'r Llwythi Critigol ar gyfer cynefinoedd yr ACA a'r safle Ramsar. Rhoddodd yr Ymgeisydd ymatebion i'r cwestiynau hyn i egluro'r asesiadau a gynhaliwyd a'r dystiolaeth sy'n ategu'r casgliad o ddim LSE [REP1-10]. Cadarnhaodd CNC ei fod yn cytuno â chasgliadau'r Ymgeisydd a mynegodd ei farn na fyddai effaith ar amcanion cadwraeth ACA Cors Crymlyn [REP1-026]. Ni wnaeth unrhyw bartïon eraill unrhyw sylwadau pellach.

- 5.4.9. Yn dilyn cyhoeddi'r RIES [PD-008], cadarnhaodd yr Ymgeisydd [REP6-002], CNC [REP7-006], a CCS [REP7-005] nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau ar ei gynnwys ac nad oeddent yn ceisio unrhyw ddiwygiadau.

5.5. CASGLIADAU HRA

- 5.5.1. O ystyried y wybodaeth a ddarparwyd yn y cais, gan gyfeirio'n benodol at yr ES a'r NSER gyda'i gilydd, a rhoi ystyriaeth lawn i'r ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig perthnasol a chwestiynau llafar yn yr ISHs, rwyf wedi crynhoi fy nealltwriaeth o faterion sy'n berthnasol i'r HRA yn yr RIES [PD-008]. Yn ei dro, nid oedd yr ymgynghoriad ar yr RIES wedi codi unrhyw faterion na phryderon newydd perthnasol na phwysig sy'n tynnu'n groes i'r casgliad o ddim effeithiau arwyddocaol tebygol ar safleoedd Ewropeaidd, fel yr amlinellir yn yr NSER. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth hyn, rwyf yn fodlon bod digon o wybodaeth ar gael i'r SoS i'w alluogi i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar safleoedd Ewropeaidd, ar ôl cymhwyso'r egwyddor ragofalus ac ar y sail nad oes amheuaeth wyddonol resymol yn weddill ynglŷn â nhw.

6. CASGLIAD AR YR ACHOS DROS GANIATÂD DATBLYGU

6.1. CYFLWYNIAD

- 6.1.1. Mae'r Bennod hon yn rhoi gwerthusiad cytbwys o rinweddau cynllunio'r Datblygiad Arfaethedig. Mae'n gwneud hynny yng ngoleuni'r cyd-destun cyfreithiol a pholisi a amlinellir ym Mhennod 3 a gofynion cyfreithiol a pholisi perthnasol unigol a amlygir ym Mhenodau 4 a 5 uchod. Mae'n cymhwyso cyfraith a pholisi perthnasol i'r cais yng nghyd-destun y dystiolaeth a'r materion a amlinellir ym Mhennod 4. Er yr ymdriniwyd â'r HRA ar wahân ym Mhennod 5, rhoddir ystyriaeth lawn i dystiolaeth a materion perthnasol a amlinellir yn y bennod honno.
- 6.1.2. O ran rhoi caniatâd datblygu, rwyf wedi dod i sawl casgliad, a amlinellir yn y paragraffau canlynol.

Angen a Dewisiadau Amgen

- 6.1.3. Mae ymagwedd yr Ymgeisydd at yr angen am y Datblygiad Arfaethedig wedi'i sefydlu trwy'r NPS. Rwyf hefyd yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi profi'r dewisiadau amgen ar gyfer lleoli'r OCGT arfaethedig yn drwyadl. Yn hyn o beth, mae gofynion NPS EN-1, Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, polisi Llywodraeth Cymru a gynhwysir yn "Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, 2019" a'r Rheoliadau AEA wedi cael eu bodloni.

Y Datganiad Amgylcheddol

- 6.1.4. Mae'r ES, ynghyd â'r wybodaeth arall a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn ystod yr Archwiliad, yn ddigonol ac yn bodloni gofynion y Rheoliadau AEA. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r holl wybodaeth amgylcheddol wrth asesu'r cais ac yn yr argymhelliad i'r SoS.

Y Cysylltiad Trydan

- 6.1.5. Nid yw datblygu'r cysylltiad trydan yn rhan o'r Cais, ac mae CCS eisoes wedi rhoi caniatâd cynllunio ar ei gyfer o dan TCPA 1990. Mae'r DCO yn darparu ar gyfer CA a TP o ran tir sy'n ofynnol ar gyfer aliniad y cysylltiad trydan ac yn darparu pwerau cysylltiedig i'r ymgymwrwr hwyluso datblygu'r aliniad a ganiatawyd. I'r graddau cyfyngedig sy'n briodol i ystyried tir yn unig a phwerau yn unig, a heb ymdrin â chaniatâd datblygu, mae aliniad arfaethedig y cysylltiad trydan yn cydymffurfio â pholisïau EN-1 ac EN5 ym NPS at ei gilydd.

Y Cysylltiad Nwy

- 6.1.6. Nid yw datblygu'r cysylltiad nwy yn rhan o'r Cais, ac mae CCS eisoes wedi rhoi caniatâd cynllunio ar ei gyfer o dan TCPA 1990. Mae'r DCO yn darparu ar gyfer CA a TP o ran tir sy'n ofynnol ar gyfer aliniad y cysylltiad nwy ac yn darparu pwerau cysylltiedig i'r ymgymwrwr hwyluso datblygu'r aliniad a ganiatawyd. I'r graddau cyfyngedig sy'n briodol i ystyried tir yn unig a phwerau yn unig, a heb ymdrin â chaniatâd datblygu, mae aliniad

arfaethedig y cysylltiad nwy yn cydymffurfio â pholisïau EN-1 ac EN4 yr NPS at ei gilydd.

Effeithiau tirweddol a gweledol

- 6.1.7. Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith weledol arwyddocaol o'i weld yn agos i'r safle. Fodd bynnag, byddai'r effaith o fewn lleoliad diwydiannol presennol ac sy'n datblygu. Yn fy marn i, byddai modd osgoi niwed trwy gynigion lliniaru priodol. Mae'r Ymgeisydd wedi ceisio lliniaru niwed tirweddol a gweledol, a rhagwelir lefel y niwed gan bolisïau NPS, felly nid yw'n pwyso yn erbyn y datblygiad. Yn gyffredinol, mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd â pholisïau EN-1, EN-2, EN-4, EN-5, Polisi Cynllunio Cymru a CDLI CCS o ran dylunio (PS 2), gosodiad a gwelededd (ER 5 ac EU 1). Deuaf i'r casgliad bod y Datblygiad Arfaethedig, fel y darperir ar ei gyfer yn y DCO argymelledig, yn cynrychioli dyluniad da o safbwynt tirweddol a gweledol, ac felly bod yr ystyriaeth hon yn niwtral.

Dylunio

- 6.1.8. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynrychioli dyluniad da, gan ddarparu dyluniad cytbwys a chynaliadwy, at ei gilydd, mewn ymateb i'w safle a'i leoliad. Ystyrir bod cyd-destun y safle wedi cael ei arfarnu'n gynhwysfawr. Mae'r ymagwedd ddylunio'n cyd-fynd â nodau NPS EN-1, TAN 12 a Pholisïau EU1 a PS2 CDLI CCS. O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, mae'r ystyriaeth hon yn niwtral.

Ansawdd aer ac allyriadau

- 6.1.9. Mae CNC, sef y rheoleiddiwr perthnasol, wedi datgan yn eglur nad yw'n gweld unrhyw reswm pam na ddylai'r Datblygiad Arfaethedig gydymffurfio'n llawn â'r holl bolisïau a safonau perthnasol. Rhoddodd CNC EP ar gyfer gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig i fodloni gofynion CNC ar 18 Ionawr 2019. Rwyf yn fodlon y bydd yr AQD yn cael ei bodloni gan yr allyriadau arfaethedig. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd â pholisïau EN-1 ac EN-2 a Llywodraeth Cymru (gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd), ac â pholisïau ER1 Newid yn yr Hinsawdd ac RP3 y CDLI. Bydd yr ystyriaeth hon yn niwtral.

Sŵn a dirgryniad

- 6.1.10. O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, credaf fod materion yn ymwneud â sŵn a dirgryniad wedi derbyn sylw'n ddigonol a'u bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn 5.11 NPS EN-1, TAN 11 a Pholisi RP2 CDLI CCS. Mae'r agwedd hon yn niwtral.

Bioamrywiaeth, ecoleg a'r amgylchedd naturiol (gan gynnwys HRA)

- 6.1.11. Bydd y Datblygiad Arfaethedig yn achosi niwed cyfyngedig i fioamrywiaeth, ecoleg a'r amgylchedd naturiol, ac mae'n osgoi niweidio safleoedd Ewropeaidd. O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, credaf fod materion yn ymwneud â bioamrywiaeth a chadwraeth natur (gan

gynnwys y newid yn yr hinsawdd) wedi cael eu hasesu'n ddigonol, a bod gofynion NPS EN-1 a TAN 5 wedi'u bodloni. Ochr yn ochr â'r mesurau lliniaru tirwedd arfaethedig h.y. y Strategaeth Liniaru Tirwedd ac Ecoleg (LEMS), mae gwir effaith y mesurau tirwedd ac ecolegol yn niwtral.

Yr amgylchedd dŵr

- 6.1.12. Mae'r ExA o'r farn bod materion yn ymwneud ag ansawdd ac adnoddau dŵr (gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd) wedi derbyn sylw'n ddigonol a'u bod yn bodloni gofynion NPS EN-1, TAN 15 a'r WFD. Mae'r ystyriaeth hon yn niwtral.

Daeareg, Amodau'r Ddaear, a Hydroddaeareg

- 6.1.13. Mae asesiad digonol wedi cael ei gynnal o Ddaeareg, Amodau'r Ddaear, a Hydroddaeareg. Mae'r ystyriaeth hon yn niwtral.

Trafnidiaeth a thraffig

- 6.1.14. Bydd effeithiau niweidiol bach ar draffig yn gysylltiedig ag adeiladu yn bennaf. Bydd y mesurau lliniaru, gan gynnwys CTMP a sicrhwr o dan Ofyniad 21, rheoleiddio oriau adeiladu o dan Ofyniad 23 a pharatoi'r CSTP (a sicrhwr trwy Ofyniad 22) yn lliniaru effeithiau niweidiol y Datblygiad Arfaethedig i'r graddau sy'n ofynnol i fodloni NPS EN-1 paragraff 5.13.3 a TAN 18. Mae'r ystyriaeth hon yn niwtral.

Yr amgylchedd hanesyddol

- 6.1.15. Ni fydd y Datblygiad Arfaethedig yn niweidio asedau hanesyddol hysbys, ac mae'r safle wedi cael ei ddewis yn dda i osgoi niwed. Fe allai effeithio ar asedau (archaeolegol) anhysbys. Fodd bynnag, mae'r Ymgeisydd wedi ceisio lliniaru'r effaith hon ac, wrth wneud hynny, mae wedi cydymffurfio â Pholisïau EN-1 ac EN-2 yr NPS a TAN 24. Nid oes llawer o botensial am effeithiau gweddilliol ar leoliad asedau hanesyddol yn yr Ardaloedd Astudio. Bydd rhaglen o fesurau lliniaru archaeolegol cyn adeiladu, a sicrhwr trwy Ofyniad 13 [REP6-003], ynghyd â'r pellter i dderbynyddion sensitif a'r dopograffeg leol yn golygu bod yr effeithiau gweddilliol hyn yn annhebygol o fod yn arwyddocaol. Mae'r ystyriaeth hon yn niwtral.

Effeithiau economaidd-gymdeithasol

- 6.1.16. Deuaf i'r casgliad bod y cynnig wedi rhoi sylw priodol i ofynion EN-1 a TAN 23, ac na fyddai'n cael effeithiau niweidiol arwyddocaol yn gymdeithasol nac yn economaidd. Gallai hefyd gefnogi datblygu economaidd yn yr ardal yn unol â pholisïau'r awdurdod lleol a chreu asesiad buddiol net ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r ystyriaeth hon yn gadarnhaol.

Parodrwydd ar gyfer gwres a phŵer cyfunedig (CHP)

- 6.1.17. Rwyf yn fodlon bod Nodyn Technegol yr Ymgeisydd ar CHP [APP-037] yn dangos nad oes angen i'r Datblygiad Arfaethedig ymchwilio i CHP

ymhellach ar gyfer yr orsaf gynhyrchu thermol arfaethedig, a'i fod yn darparu tystiolaeth o'r rheswm pam y dylai'r orsaf gynhyrchu thermol arfaethedig gael ei heithrio o Barodrwydd ar gyfer CHP. Mae hyn yn ddigonol i sicrhau bod gofyniad NPS EN-1 paragraff 4.6.8 yn cael ei fodloni. Mae'r ystyriaeth hon yn niwtral.

Materion eraill

- 6.1.18. Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n bwysig ac yn berthnasol i'r canlyniad y mae angen i'r SoS eu hystyried wrth bwysu a mesur y cydbwysedd cynllunio.

6.2. Y CYDBWYSEDD CYNLLUNIO

- 6.2.1. Nid oes unrhyw effeithiau niweidiol sy'n ddigon pwysig i ddadlau yn erbyn gwneud y DCO. Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at niwed llai nag arwyddocaol i fuddiannau ac mae'r rhain, yn eu tro, wedi cael eu lliniaru fel sy'n ofynnol gan bolisiâu NPS. Deuaf i'r casgliad bod y niwed cyfyngedig yn cael ei wrthbwysu gan y budd sylweddol a ddaw yn sgil darparu ynni i fodloni'r angen a amlygir yn NPS EN-1 a pholisi Llywodraeth Cymru a chan fuddion eraill y cais, fel y'u crynhoir uchod. Deuaf i'r casgliad hefyd nad oes achos o dorri NPS na pholisi Llywodraeth Cymru yn gyffredinol.
- 6.2.2. Am y rhesymau a amlinellwyd yn y penodau blaenorol ac a grynhoir uchod, deuaf i'r casgliad bod y Datblygiad Arfaethedig yn dderbyniol mewn egwyddor o safbwynt cynllunio. Dygaf y casgliad hwn ymlaen wrth ystyried cynigion CA a TP a gwrthwynebiadau i'r rhain ym Mhennod 7 a Phennod 8 isod.

7. CAFFAEL GORFODOL A MATERION CYSYLLTIEDIG

7.1. CYFLWYNIAD

- 7.1.1. Roedd y cais sy'n destun archwiliad yn cynnwys cynigion ar gyfer CA a TP o ran tir a hawliau dros dir. Mae'r bennod hon yn cofnodi'r archwiliad o'r cynigion hyn a materion cysylltiedig.

7.2. Y CAIS AM BWERAU CAFFAEL GORFODOL A MEDDIANT DROS DRO

- 7.2.1. Roedd Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft y cais [APP-014] a phob fersiwn ddilynol a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn cynnwys darpariaethau a fwriadwyd i awdurdodi CA o ran tir a hawliau. Ceisiwyd pwerau ar gyfer TP o ran tir hefyd.
- 7.2.2. Ar y sail hon, cyflwynwyd Llyfr Cyfeirio (BoR) [APP-011], Cynlluniau Tir [APP-057], Datganiad o Resymau (SoR) [APP-010] a Datganiad Cyllido (FS) [APP-012] gyda'r cais. O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn amlinellu'r tir a'r hawliau a geisir gan yr Ymgeisydd ynghyd â'r rhesymau pam y mae eu hangen a'r sail ar gyfer ariannu iawndal. Yn ôl yr arfer, arweiniodd prosesau'r Archwiliad a diwydrwydd dyladwy at newidiadau i rai o'r dogfennau hyn. Erbyn diwedd yr Archwiliad, roedd y fersiynau mwyaf cyfredol fel a ganlyn:
- BoR Diwygiad [AS-002];
 - SoR Atodiad 2 llythyr eglurhaol [REP6-002];
 - Arhosodd y Cynlluniau Tir fel y'u cyflwynwyd gyda'r cais, ond ymdriniwyd â materion perthnasol mewn tystiolaeth ddiweddarach a gofnodir yn unigol isod; [APP-057]; ac
Arhosodd yr FS [APP-012] fel y'i cyflwynwyd gyda'r cais hefyd, ond ymdriniwyd â materion perthnasol mewn tystiolaeth ddiweddarach a gofnodir yn unigol isod.
- 7.2.3. Mae'r dogfennau hyn, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn sail i'r dadansoddiad yn y Bennod hon. Dylid darllen cyfeiriadau at y BoR a'r Cynlluniau Tir o hyn ymlaen yn y Bennod hon fel cyfeiriadau at y fersiynau diweddaraf a nodir uchod.
- 7.2.4. Cyfeirir at dir y ceisir pwerau CA a / neu TP drosto yn y Bennod hon fel tir y Gorchymyn.

7.3. Y DIBENION Y MAE ANGEN TIR AR EU CYFER

- 7.3.1. Amlinellir y dibenion y mae angen y pwerau CA a TP ar eu cyfer yn y BoR [AS-002] a'r SoR [APP-010], fel yr ymhelaethir gan dystiolaeth ychwanegol berthnasol a drafodir isod.
- 7.3.2. Ceisir y cyfuniad o bwerau CA a TP i gefnogi pedwar prif ganlyniad datblygu:

- Ar gyfer prif ddatblygiad gorsaf gynhyrchu a defnydd ohoni;
- I ffurfio coridor tir ar gyfer aliniad cysylltiad trydanol;
- I ffurfio coridor tir ar gyfer aliniad ffordd fynediad; ac
- I ffurfio coridor tir ar gyfer aliniad cysylltiad nwy, rhwng yr orsaf gynhyrchu a'r rhwydwaith trosglwyddo nwy presennol yn Rhyd-y-pandy Road ac sy'n angenrheidiol i alluogi nwy i gael ei gyflenwi i'r orsaf gynhyrchu. Fel y cofnodir ym mharagraffau 2.1.16 uchod, mae CCS eisoes wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y cysylltiad trydanol a nwy.

- 7.3.3. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau CA i sicrhau tiroedd, hawliau a buddiannau penodol o fewn Terfynau'r Gorchymyn i hwyluso'r Prosiect.
- 7.3.4. Mae'r tir y ceisir pwerau CA drosto o ran caffael y rhydd-ddaliad wedi'i ddangos ag ymyl coch ac wedi'i liwio'n binc ar y Cynlluniau Tir [APP-057]. Disgrifir y tir hwn yn fanylach yn y Llyfr Cyfeirio [AS-002]. Dibynnir ar Erthygl 19 y DCO mewn perthynas â'r tir hwn.
- 7.3.5. Mae'r tir y ceisir caffael hawliau newydd a gosod cyfyngiadau drosto'n orfodol wedi'i ddangos ag ymyl coch ac wedi'i liwio'n las ar y Cynlluniau Tir [APP-057]. Disgrifir y tir hwn yn fanylach yn y Llyfr Cyfeirio [AS-002]. Dibynnir ar Erthygl 23 y DCO mewn perthynas â'r tir hwn.
- 7.3.6. Mae'r tir y ceisir TP drosto a defnydd ohono, yn unol ag Erthyglau 29 a 30 y DCO, wedi'i ddangos ag ymyl coch ac wedi'i liwio'n felyn ar y Cynlluniau Tir [APP-057]. Disgrifir y tir hwn yn fanylach yn y Llyfr Cyfeirio [AS-002]. Dibynnir ar Erthyglau 29 a 30 y DCO mewn perthynas â'r tir hwn.
- 7.3.7. Mae'n rhaid nodi bod y DCO drafft yn cynnwys pwerau CA a TP sy'n berthnasol i adeiladu aliniad arfaethedig y cysylltiad trydanol a nwy. Pan wnaed y cais, ni allai DCO roi caniatâd ar gyfer datblygiad cysylltiedig yn ymwneud â gorsaf gynhyrchu yng Nghymru. Am y rheswm hwn, gofynnais i'r Ymgeisydd ac IPs am eu barn ar y sail gyfreithiol y gellid ei defnyddio er mwyn i DCO gynnwys pwerau CA a TP yn briodol ar gyfer elfennau a allai fod yn ddatblygiad cysylltiedig, lle na ddarparwyd ar gyfer y datblygiad cysylltiedig ei hun [EV-004].

Tir y Goron

- 7.3.8. Mae'r Ymgeisydd yn datgan yn y BoR [APP-011] nad yw'r pwerau CA na TP yn cynnwys unrhyw Dir y Goron nac yn effeithio arno.

Tir Categori Arbennig

- 7.3.9. Nid yw'r pwerau CA na TP yn cynnwys nac yn effeithio ar unrhyw dir sy'n perthyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, man agored, tir comin na rhandir gardd gae [APP-011].

7.4. GOFYNION DEDDFWRIAETHOL

- 7.4.1. Gellir rhoi pwerau CA dim ond os bodlonir yr amodau a amlinellir yn adrannau 122 a 123 PA2008, ynghyd â'r canllawiau perthnasol yn *"Canllawiau yn Ymwneud â Gweithdrefnau ar gyfer Caffael Tir yn Orfodol"*, DCLG, mis Medi 2013 (Canllawiau CA y DCLG).
- 7.4.2. Yn ôl adran 122 (2), mae'n rhaid i dir sy'n destun CA fod yn angenrheidiol ar gyfer y datblygiad y mae'r caniatâd datblygu yn ymwneud ag ef neu fod yn angenrheidiol i hwyluso'r datblygiad neu'n gysylltiedig ag ef. O ran tir sy'n angenrheidiol ar gyfer y datblygiad, rhaid i'r tir sydd i'w gymryd beidio â bod yn fwy nag sy'n rhesymol angenrheidiol a rhaid iddo fod yn gymesur.³¹
- 7.4.3. Yn ôl adran 122(3), mae'n rhaid bod achos cymhellol er budd y cyhoedd i gaffael y tir yn orfodol, sy'n golygu bod rhaid i'r budd i'r cyhoedd sy'n deillio o'r CA fod yn drech na'r golled breifat a fyddai'n cael ei dioddef gan y rhai yr effeithir ar eu tir. Wrth gydbwysu budd y cyhoedd yn erbyn colled breifat, mae'n rhaid bod modd cyfiawnhau CA ynddo'i hun. Ond nid yw hyn yn golygu y gellir ystyried y cynnig CA ar wahân i ystyried rhinweddau'r prosiect yn ehangach. Mae'n rhaid bod angen am y Datblygiad Arfaethedig ac mae'n rhaid bod cysondeb a chydlynïad yn y broses benderfynu am y cais am bwerau CA ac am y Datblygiad Arfaethedig yn ei gyfanrwydd.
- 7.4.4. Mae adran 123 yn mynnu bod rhaid i gynnig y cais fodloni un o'r tri amod gweithdrefnol yn is-adrannau (2) i (4), sef:
- (2) Yr amod yw bod y cais am y gorchymyn yn cynnwys cais i awdurdodi Caffael y tir yn Orfodol.
 - (3) Yr amod yw bod yr holl bobl sydd â buddiant yn y tir yn cydsynio i gynnwys y ddarpariaeth.
 - (4) Yr amod yw bod y weithdrefn ragnodedig wedi cael ei dilyn o ran y tir.
- 7.4.5. Dylid nodi o'r cychwyn fy mod yn fodlon bod yr amod yn is-adran (2) wedi'i fodloni.
- 7.4.6. Mae'n rhaid mynd i'r afael â nifer o ystyriaethau cyffredinol hefyd, naill ai o ganlyniad i ddilyn y canllawiau perthnasol neu yn unol â dyletswyddau cyfreithiol ar benderfynwyr:
- Mae'n rhaid bod yr holl ddewisiadau amgen rhesymol yn lle CA wedi cael eu harchwilio;
 - Mae'n rhaid bod gan yr Ymgeisydd gynllun eglur ar gyfer sut y mae'n bwriadu defnyddio'r tir sy'n destun pwerau CA;
 - Mae'n rhaid bod yr Ymgeisydd yn gallu dangos bod arian ar gael i fodloni'r rhwymedigaethau iawndal a allai ddeillio o arfer pwerau CA; ac
 - Mae'n rhaid i'r penderfynwr fod yn fodlon bod y dibenion a nodwyd ar gyfer y CA yn ddilys ac yn rhoi cyfiawnhad digonol i'r ymyrraeth anochel â hawliau dynol y rhai yr effeithir arnynt.

³¹ Canllawiau CA y DCLG

- 7.4.7. Profwyd y materion hyn yn yr Archwiliad ac adroddir arnynt ymhellach isod.
- 7.4.8. Yn dilyn ymlaen o baragraff 2 Atodlen 5 PA2008, mae pwerau TP yn gallu bod y fewn cwmplas DCO. Nid yw PA2008 a Chanllawiau CA cysylltiedig y DCLG yn cynnwys yr un faint o fanylion a phrofion i'w bodloni o ran rhoi pwerau TP, gan fod natur pwerau o'r fath yn golygu nad ydynt yn ceisio amddifadu unigolyn o'i fuddiannau mewn tir neu newid ei fuddiannau mewn tir yn barhaol. At hynny, mae pwerau o'r fath yn tueddu i fod yn atodol ac yn ddibynnol ar gynnig y cais yn ei gyfanrwydd: gallant fynd ymlaen dim ond os oes cyfiawnhad i'r prif ddatblygiad.
- 7.4.9. Ystyriaif yr holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol wrth ymresymu isod, a deuir i gasgliadau perthnasol ar ddiwedd y Bennod hon.

7.5. ARCHWILIO'R ACHOS CA A TP

- 7.5.1. Wrth archwilio'r cais, ystyriaif yr holl ddeunydd ysgrifenedig a gyflwynwyd a oedd yn berthnasol i CA a TP. Gofynnais WQ i'r Ymgeisydd ynglŷn â'r cyfiawnhad dros y pwerau a geisir [PD-005(3)] [PD-006], cynhaliais Wrandawriad CA (CAH)[EV-004] [EV-009] a gofynnais am archwiliadau o dir sy'n destun ceisiadau CA a TP [EV-008]. Disgrifiaf y prosesau hyn isod.

Y broses ysgrifenedig

- 7.5.2. Roedd y Cwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf ExQ1 [PD-005(3)] yn cynnwys cwestiynau a oedd yn berthnasol i CA a TP, a gellir eu crynhoi trwy ddweud eu bod yn mynd i'r afael â'r materion canlynol:
- Y sefyllfa o ran gwrthwynebiadau;
 - Cwestiynau am FS;
 - Cytundebau cysylltiad nwy a thrydanol.
- 7.5.3. Roedd yr Ail Gwestiynau Ysgrifenedig ExQ2 [PD-006] yn gofyn i'r Ymgeisydd ddarparu cofnod wedi'i ddiweddarau o gynnydd yr holl faterion CA a TP a oedd heb eu datrys.

Gwrandawriadau

- 7.5.4. Darparais ar gyfer CAH, lle y gofynnais gwestiynau llafar i'r Ymgeisydd a chynrychiolydd APs. Cynhaliwyd y CAH ar 12 Rhagfyr 2018 [EV-004] [EV-009]. Rhoddodd y Gwrandawriad hwn gyfle i unrhyw unigolyn a oedd yn gwrthwynebu rhoi pwerau CA neu TP gael ei glywed.
- 7.5.5. Roedd fy nghwestiynau llafar yn ceisio gwybodaeth am y canlynol:
- Materion nad oeddent yn eglur o WRs ac ymatebion i gwestiynau;
 - Ymholiadau drafftio ynglŷn ag Erthyglau perthnasol yn y DCO drafft;
 - Darpariaethau i sicrhau tir lliniaru;
 - Yr angen am hawliau TP a'r ymagwedd atynt, a graddau terfynol hawliau dros dro yn hytrach na hawliau parhaol;
 - Cyllid a gwarantau o ran talu iawndal;

- Profion y Ddeddf Hawliau Dynol;
- Cynnydd ar drafodaethau â thirfeddianwyr yr effeithir arnynt;
- Yr angen i gaffael hawliau ac ystyried dewisiadau amgen;
- Y Llyfr Cyfeirio;
- Darpariaethau amddiffynnol o ran ymgwymerwyr statudol ac eraill; a'r Sail i achos cymhellol er budd y cyhoedd.

7.5.6. Rhoddais gyfle i APs a'u cynrychiolwyr wneud sylwadau ar y broses a chynnydd trafodaethau a ph'un a oedd ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'r hawliau a geisir. Rhoddais gyfle i ymgwymerwyr statudol wneud sylwadau am yr hawliau a geisir a'r darpariaethau yn y DCO drafft. Roedd y cyfleoedd hyn yn cynnwys y cyfle i gael eu clywed yn y CAH ([EV-004] [EV-009]).

Archwiliad Safle gyda Chwmni (ASI)

7.5.7. Cynhaliats ASI pryd y cefais fynediad i dir preifat gyda chaniatâd i archwilio aliniad arfaethedig y ffordd fynediad ac aliniad y cysylltiad trydanol. Rhoddwyd cyfle i bartïon â buddiant (IP) ac AP enwebu tir i'w gynnwys yn yr archwiliad hwn.

7.5.8. Cynhaliwyd yr ASI ar 14 Rhagfyr 2018 [EV-008]. Diben hyn yn rhannol oedd archwilio tir sy'n destun cynigion CA a TP sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r ffordd fynediad a'r cysylltiad trydanol. Mae'r tir yn destun gwrthwynebiad i CA a TP. Ymwelodd yr ASI â lleiniau 13, 13A, 13B, 14, 15, 17A a 17B Fferm Maes-eglwys i weld tir sydd ym mherchenogaeth Mr Michael Edwards. Daeth Mr Wynne Watkins gyda ni hefyd, sef AP sy'n berchen ar leiniau 18, 18A, 18B, 21 a 24.

Rhoddodd yr ASI ddealltwriaeth i mi o leoliad a chyflwr yr holl leiniau y ceisiwyd pwerau CA a TP ar eu cyfer a oedd yn destun gwrthwynebiad.

7.6. YSTYRIED MATERION CA A TP

7.6.1. Mae'r adran hon yn amlinellu achos cyffredinol yr Ymgeisydd dros CA a TP ac ymatebion gan wrthwynebwyr iddo. Yna, mae'n cofnodi ystyriaeth o'r holl agweddau sy'n weddill ar yr achosion CA a TP, gan gynnwys ystyried gwrthwynebiadau unigol a thir nad oedd gwrthwynebiad ffurfiol yn weddill iddo o ran CA a TP.

7.6.2. Yn olaf, mae'r adran yn ystyried amrywiaeth o faterion technegol sy'n berthnasol i CA, gan gynnwys argaeledd a digonolrwydd cyllid, ymgwymerwyr statudol a darpariaethau amddiffynnol.

ACHOS YR YMGEISYDD

7.6.3. Mae achos cyffredinol yr Ymgeisydd dros CA a TP wedi'i seilio ar y tir sy'n angenrheidiol i adeiladu a gweithredu'r orsaf gynhyrchu, ynghyd â'r tir sy'n angenrheidiol ar gyfer y cysylltiad nwy a'r cysylltiad trydanol.

7.6.4. Er nad yw'r Cais yn gofyn am ganiatâd datblygu ar gyfer y Cysylltiad Nwy na'r Cysylltiad Trydanol, mae'r Gorchymyn drafft yn cynnwys, yn unol ag adran 122(2)(b) PA 2008, pwerau ar gyfer CA o ran y tir sy'n

angenrheidiol a'r hawliau dros dir sy'n ofynnol ar gyfer y Cysylltiad Nwy a'r Cysylltiad Trydanol [APP-010].

7.6.5. Mae'r Cysylltiad Nwy yn cynnwys yr AGI (gyda mynediad parhaol newydd) a'r Biblinell. Byddai'r Biblinell yn dilyn llwybr oddeutu 1.4 km o hyd o'r gogledd i'r de yn fras, i ddod â nwy naturiol o'r rhwydwaith nwy System Drosoglwyddo Genedlaethol pwysedd uchel presennol gerllaw Rhyd-y-pandy Road (yng ngogledd Safle'r Prosiect) i'r Safle Offer Cynhyrchu [APP-057]. Mae gan aliniad y cysylltiad nwy, fel y'i cynigiwyd, ganiatâd cynllunio a roddwyd gan CCS o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

7.6.6. Byddai'r Cysylltiad Trydanol yn dilyn llwybr oddeutu 900 metr o hyd o'r dwyrain i'r gorllewin, i gysylltu'r Offer Cynhyrchu â'r System Trosglwyddo Trydan Genedlaethol yn Is-orsaf Gogledd Abertawe trwy gebl tanddaear 400kV [APP-057]. Mae gan aliniad y cysylltiad trydanol, fel y'i cynigiwyd, ganiatâd cynllunio a roddwyd gan CCS o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Dewisiadau amgen

7.6.7. Mae Canllawiau CA y DCLG yn mynnu (ym mharagraff 20):

- *'Dylai'r hyrwyddwr allu dangos er boddhad y penderfynwr bod yr holl ddewisiadau amgen rhesymol yn lle caffael gorfodol (gan gynnwys addasiadau i'r cynllun) wedi cael eu harchwilio...'*

7.6.8. Amlinellir ymagwedd yr Ymgeisydd at ystyried dewisiadau amgen ar gyfer safle'r orsaf gynhyrchu ym Mhennod 4 uchod. Gan grynhoi o'r esboniad hwnnw, eglurodd yr Ymgeisydd fod ystod o leoliadau posibl ar gyfer yr orsaf gynhyrchu wedi cael eu hadolygu, a dewiswyd safle'r cais oherwydd ei fod yn galluogi datblygu gorsaf OCGT â mynediad i'r rhwydwaith trosglwyddo nwy a'i fod mewn lleoliad lle y gellid allforio trydan i'r rhwydwaith dosbarthu, ar dir lle'r oedd hanes cynllunio a chefnogaeth trwy bolisiau lleol i ddatblygiad ar raddfa ddiwydiannol.

7.6.9. Rhoddodd yr Ymgeisydd esboniad manwl o'r gwerthusiad o safleoedd amgen ar gyfer aliniad y ffordd fynediad yn ei grynoded o gyflwyniadau llafar i'r CAH ar 12 Rhagfyr 2018 (Atodiad 5 [REP3-005]). I grynhoi, aeth y dystiolaeth honno i'r afael â dewis yr aliniad i fodloni'r meini prawf canlynol:

- Effeithlonrwydd y llwybr (lleihau ei hyd gymaint â phosibl); ac
- Osgoi effaith ar asedau'r amgylchedd naturiol a hanesyddol h.y. coetir hynafol [REP4-016].

7.6.10. Cynhaliwyd gwerthusiad o aliniadau posibl y ffordd fynediad, a daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad mai'r aliniad a ddewiswyd oedd yr aliniad mwyaf ymarferol lle y gellid darparu ffordd fynediad rhwng safle'r orsaf gynhyrchu a'r B4489. Roedd yr Ymgeisydd o'r farn bod y dewisiadau amgen a gynigiwyd gan y Gwrthwynebwyr yn y CAH yn anaddas am y rhesymau a ddisgrifir uchod [REP3-005].

- 7.6.11. Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad bod llwybrau Opsiwn 2 yn addas i symudiadau AIL heb ledu'r ffordd ac y bydd defnydd o'r llwybr gan HGVs yn cael effaith leiafswmionol gan nad oes anheddau gerllaw. Mae llwybrau Opsiwn 2 hefyd yn osgoi'r angen i redeg yn gyfochrog â phrif bibell ddŵr Dŵr Cymru, gan fod modd croesi mewn un man gan ddefnyddio pont [REP3-005].
- 7.6.12. Roedd yr Ymgeisydd o'r farn y byddai Opsiynau 2A, 2B1 a 2C yn golygu bod angen colli Coetir Hynafol a chynefin, sef rhywbeth y mae Opsiwn 2B2 yn ei osgoi. Yn ogystal, mae rhesymau technegol eraill pam mae Opsiwn 2C yn heriol ac efallai na fyddai'n cael ei ganiatáu gan y Grid Cenedlaethol [REP3-005].
- 7.6.13. Roedd yr Ymgeisydd o'r farn bod ei ddewis o Opsiwn 2B2 yn y Cais yn llwybr mynediad cadarn a phriodol, a'i fod wedi rhoi ystyriaeth briodol i ystod o ffactorau, gan gynnwys yr effaith ar berchenogaeth dir, effeithiau amgylcheddol, ymgynghori, yn ogystal ag ymarferoldeb technegol a'r cydgysylltiad â seilwaith cyfleustodau amgylchynol wrth ddod i'w benderfyniad ar ei lwybr a ffeirir [REP3-005].
- 7.6.14. Honnodd yr Ymgeisydd fod llwybr mynediad presennol y Grid Cenedlaethol wedi'i adeiladu'n fwriadol i fod yn addas i safonau symudiadau HGV. Dadleuodd yr Ymgeisydd fod y llwybr mynediad presennol yn ddiogel, yn ymarferol o ran trefnu ac eisoes wedi cael ei ddefnyddio i gludo llwythi a cherbydau tebyg. Dadleuodd yr Ymgeisydd na fyddai'n ymddangos yn briodol diystyru'r llwybr hwn sy'n addas i'r diben o blaid gwaith adeiladu mawr mewn ardal wledig ar ffyrdd nad ydynt mor uniongyrchol nac mor hwylus, ac sydd oll hefyd yn gofyn am ddefnyddio tir trydydd parti.

Graddfa'r datblygiad arfaethedig, microleoli a lleihau faint o dir a gymerir i'r eithaf

- 7.6.15. Esboniodd yr Ymgeisydd fod y tir sy'n angenrheidiol i adeiladu'r orsaf gynhyrchu wedi cael ei amlygu'n fanwl gywir. Roedd wedi ymrwymo i leihau faint o dir a gymerir i'r eithaf ar gyfer caffael hawliau yn orfodol o fewn aliniad arfaethedig y ffordd fynediad. Roedd yn bwriadu gwneud hyn trwy sicrhau bod tir sy'n angenrheidiol ar gyfer prosesau adeiladu yn unig ond nad yw'n destun gofyniad gweithredol yn cael ei geisio ar gyfer pwerau TP yn unig (wedi'i liwio'n felyn [APP-057]).
- 7.6.16. O fewn safle'r brif orsaf gynhyrchu a'r AGI, mae'r ymagwedd hon yn annhebygol o effeithio ar ddosbarthiad tir y ceisir caffael ei rydd-ddaliad yn orfodol ac y mae angen hawliau yn unig neu TP mewn perthynas ag ef.
- 7.6.17. Mae'r Ymgeisydd yn ceisio cytundeb i gaffael tir a hawliau lle y bo'n bosibl.

ACHOS CYFFREDINOL GWRTHWYNEBWYR

- 7.6.18. Achos cyffredinol y Gwrthwynebwyr (Mr Michael Edwards, Mr Wynne Watkins a Redisplay Limited, a gynrychiolwyd i gyd gan Gyfreithwyr Loxley) yn erbyn CA a TP oedd bod aliniad arfaethedig y ffordd fynediad wedi cael ei ddewis yn seiliedig ar ymgynghoriad diffygiol ac ymarfer opsiuneiddio. Mae'r Gwrthwynebwyr yn honni bod trefniadau mynediad amgen ar gael i'r Ymgeisydd a fyddai'n achosi cryn dipyn yn llai o niwed ac nad oes cyfiawnhad i gaffael hawliau dros dir y Gwrthwynebwyr yn orfodol [REP3-016].
- 7.6.19. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gwreiddiol ynglŷn â'r Cynllun yn 2014 pan gynigiwyd dau opsiwn mynediad. Dewiswyd Opsiwn 2 yn dilyn yr ymarfer ymgynghori hwnnw. Y prif gyfiawnhad, fel y'i nodwyd yn yr SoR, oedd bod mwyafrif aelodau'r cyhoedd yr ymgynghorwyd â nhw yn 2014 yn cefnogi Opsiwn 2.
- 7.6.20. Mae'r Gwrthwynebwyr yn honni, wrth symud y Prosiect yn ei flaen yn 2018, y dylai'r Ymgeisydd fod wedi ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael iddo, gan gynnwys Opsiwn Llwybr 1, yn enwedig o ystyried bod 4 blynedd wedi mynd heibio ers yr ymarfer ymgynghori blaenorol.
- 7.6.21. Mae'r Gwrthwynebwyr yn honni bod y broses yn ddiffygiol oherwydd y dylai'r Ymgeisydd fod wedi ystyried yr holl ddewisiadau amgen yn 2018. Nid oedd ymarfer ymgynghori 2018 wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i lwybr amgen rhesymol na fyddai wedi golygu bod angen caffael buddiant tir y Gwrthwynebwyr yn orfodol.
- 7.6.22. Wrth ymateb i WR y Gwrthwynebwyr, mae'r Ymgeisydd wedi ceisio cyfiawnhau'r broses a ddefnyddiwyd i ddewis yr opsiwn ar gyfer llwybr. Mae'r Ymgeisydd yn cadarnhau gwerth uchel Coetir Hynafol a'r amddiffyniad a roddir iddo o safbwynt cynllunio fel ffactor allweddol wrth ddewis yr opsiwn ar gyfer llwybr [REP2-002].
- 7.6.23. Mae llwybrau amrywiol yr is-opiynau yn arwyddocaol i'r Gwrthwynebwyr oherwydd, rhyngddynt, maen nhw'n amrywio'n sylweddol o ran amharu ar dir a buddiannau'r Gwrthwynebwyr. Dangosir hyn yn y cynllun sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1 Ymateb yr Ymgeisydd i WR [REP2-002].
- 7.6.24. Mae'r cynllun yn dangos ardal eithaf mawr a ddosberthir yn "Safle Coetir Hynafol o Gategori Anhysbys" yn ogystal â phwysleisio ei bwysigrwydd – fe'i dangosir wedi'i lliwio'n frown ar y Cynllun. Mae'r Gwrthwynebwyr yn nodi bod mwyafrif helaeth yr ardal a ddosberthir yn Safle Coetir Hynafol wedi'i meddiannu gan Orsaf bresennol y Grid Cenedlaethol; mae wedi'i datblygu ac, mewn gwirionedd, nifer fach o goed yn unig sydd o fewn yr ardal a liwiwyd yn frown ar y Cynllun [REP3-016].
- 7.6.25. Mae'r Gwrthwynebwyr yn honni bod y broses ar gyfer dewis y llwybrau is-opiwn wedi'i seilio ar dybiaethau anghywir a'i bod yn ddiffygiol yn ei hanfod. O ystyried y canlyniadau i'r Gwrthwynebwyr, roedd dewisiadau amgen rhesymol ac eglur ar gael i'r Ymgeisydd a fyddai wedi osgoi unrhyw Goetir Hynafol ac a fyddai'n lleihau'r effaith ar fuddiannau eiddo'r Gwrthwynebwyr yn sylweddol [REP3-016].

- 7.6.26. Mae'r Gwrthwynebwyr yn honni nad yw'r Ymgeisydd wedi dangos yn ddigonol ei fod wedi cydymffurfio â Chanllawiau'r DCLG gan nad yw wedi archwilio'r holl ddewisiadau amgen rhesymol yn briodol, gan gynnwys addasiadau i'r Prosiect. Cyfeirir at y Canllawiau hynny ar dudalen 27 y SoR [APP-010].
- 7.6.27. Mae'r Gwrthwynebwyr yn honni nad yw'r Ymgeisydd wedi bodloni gofynion Adran 122 PA2008 ac, oherwydd hynny, ni all yr Ymgeisydd gyfiawnhau bod yr holl dir yn angenrheidiol ar gyfer y datblygiad neu i hwyluso'r datblygiad hwnnw neu'n gysylltiedig ag ef.
- 7.6.28. I raddau helaeth, mae'r pryderon hyn yn ymwneud â'r driniaeth o ddewisiadau amgen, yr ymdrinnir â nhw ym Mhennod 4 (adran 4.8) uchod, neu effeithiau penodol CA neu TP ar dir unigolyn, yr ymdrinnir â nhw'n fanwl isod.

CASGLIAD YR EXA

- 7.6.29. Cyflwynaf fy nghasgliadau cyffredinol ar yr achos CA a TP yma, er y dylid cofnodi bod y casgliadau hyn wedi cael eu llywio gan achosion manwl unigol ac ystyriaethau technegol a amlinellir ymhellach isod o baragraff 7.6.33 i 7.6.69, ac yn rhoi ystyriaeth lawn iddynt.
- 7.6.30. Am resymau a fynegir yn fras ym Mhennod 4 uchod, rwyf yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi cynnal gwerthusiad trylwyr o opsiynau lleoli ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Mae hyn wedi cynnwys gwerthusiad trylwyr o ddewisiadau amgen. O ystyried addasrwydd sylfaenol y safle i gynnal datblygiad o'r math hwn o safbwynt defnydd tir a pholisi, ac oherwydd bod cysylltiad â'r grid nwy a chapasiti rhwydwaith dosbarthu ar gyfer allforio trydan ar gael yn agos, mae'n amlwg i mi fod safle'r cais wedi cael ei ddewis yn briodol. Yn benodol, egluraf yn y bennod honno, at ddibenion CA, nad wyf yn gweld sail i aliniad ffordd fynediad amgen o fewn y safle.
- 7.6.31. Rwyf wedi adolygu'r defnydd arfaethedig o dir ar safle'r orsaf gynhyrchu ac wedi nodi bod yr anghenion am offer a mesurau lliniaru yn rhoi esboniad eglur o'r angen am yr holl dir y bwriedir ei gaffael yn barhaol. Esboniwyd y sail ar gyfer faint o dir sy'n angenrheidiol dros dro i hwyluso'r broses adeiladu ac ar gyfer hawliau parhaus hefyd [APP-010]. Rwyf yn fodlon bod y tir sy'n destun CA a TP ar gyfer yr orsaf gynhyrchu arfaethedig wedi cael ei leihau i'r eithaf a bod pob dewis amgen rhesymol yn lle CA wedi cael ei archwilio. Cytunaf fod y tir a geisir ar gyfer yr orsaf gynhyrchu yn dir sy'n angenrheidiol at ddibenion a122 (2)(a) PA2008 ac, yn amodol ar fy rhesymu manwl ar leiniau unigol isod ac o ystyried hynny, ei fod yn bodloni'r prawf a nodir yn yr adran honno.
- 7.6.32. Rwyf hefyd wedi ystyried y tir sy'n destun cynigion CA a TP ar gyfer aliniad y ffordd fynediad. O ystyried fy mod yn cytuno bod y safle a ddewiswyd ar gyfer yr orsaf gynhyrchu yn briodol, ystod gyfyngedig o opsiynau sydd ar gael ar gyfer aliniad ffordd fynediad. Cytunaf mai'r aliniad a ddewiswyd ar gyfer y ffordd fynediad yw'r canlyniad gorau o werthusiad trylwyr o ddewisiadau amgen a'i fod yn lleihau faint o dir a

gymerir ac effeithiau amgylcheddol niweidiol i'r eithaf [REP4-016]. Ystyriaif fod y tir a geisir ar gyfer aliniad y ffordd fynediad yn dir sy'n angenrheidiol at ddibenion a122 (2)(b) PA2008 ac, yn amodol ar fy rhesymu manwl ar leiniau unigol isod ac o ystyried hynny, ei fod yn bodloni'r prawf a nodir yn yr adran honno.

CYNNYDD AR GYNIGION CA A TP

7.6.33. Yn fy FWQs, sefydlais broses ar gyfer cofnodi gwrthwynebiadau heb eu datrys sy'n berthnasol i CA a TP [PD-005(3)]. Amlygodd ymateb yr Ymgeisydd i'm FWQs [REP1-010] a'i Atodiad Gwrthwynebiadau, Atodiad 4 [REP6-002] diweddarach, fod gan saith AP wrthwynebiadau heb eu datrys i CA a / neu TP, sef:

- WPD;
- Mr Michael Edwards;
- Mr Wynne Watkins;
- Redisplay Limited;
- Abergelli Solar Limited;
- National Grid Gas; a
- National Grid Electrical Transmission

7.6.34. Cofnodir isod gynnydd ar bob un o'r gwrthwynebiadau hyn trwy'r Archwiliad.

Western Power Distribution (South Wales) plc (WPD)

Lleoliad: Ar draws Tir y Gorchymyn drwyddo draw

Buddiannau Parhaol: 3, 3A, 3B, 10, 12, 16, 18, 19, 20, 21, 22, 24.

Dros Dro: 7C, 13A, 16A, 18A, 18B, 19A

Statws: gwrthwynebwr sy'n ymgwymerwr statudol (tynnwyd yn ôl).

7.6.35. Gwnaeth WPD [RR-006] gynrychiolaethau ynglŷn â CA o ran tir, hawliau a TP yn Abergelli, a cheisiodd negodi darpariaethau amddiffynnol.

7.6.36. Rhoddwyd y darpariaethau amddiffynnol a'r cytundebau ochr drafft cyntaf i WPD ar 21 Mai 2018. Mae'r darpariaethau amddiffynnol a'r cytundeb ochr wedi cael eu cytuno erbyn hyn ac fe'u cyflwynwyd i'r Archwiliad yn y DCO drafft diwygiedig erbyn DL3. Llofnodwyd a dyddiwyd y cytundeb ochr ar 22 Ionawr 2019. [REP6-002].

7.6.37. Ar 23 Ionawr 2019, cadarnhaodd WPD ei fod wedi cytuno ar ddarpariaethau amddiffynnol gyda'r Ymgeisydd a'i fod eisiau tynnu ei gynrychiolaethau'n ôl mewn perthynas â'r cais [AS-010].

7.6.38. I'r graddau bod hwn yn wrthwynebiad yr oedd a127 PA2008 yn berthnasol iddo, rwyf yn fodlon bod y gwrthwynebiad hwn wedi'i dynnu'n ôl ac felly nad yw'n weithredol. Nid yw'r amgylchiadau sy'n weddill yn

codi unrhyw faterion sy'n awgrymu na ddylid cymeradwyo'r darpariaethau CA a geisir gan yr Ymgeisydd. Rwyf yn fodlon nad oes unrhyw bryderon ychwanegol sy'n weddill o ran buddiannau WPD fel y'u cofnodir uchod ac, yn arbennig, o ran y darpariaethau amddiffynnol yn Rhan 4 Atodlen 11 y DCO y mae angen i'r SoS eu hystyried.

- 7.6.39. Mae'r Ymgeisydd wedi cynnwys pwerau i ddiddymu unrhyw hawl neu ddileu unrhyw gyfarpar (a gynhwysir yn Erthygl 31³² y DCO drafft [REP6-003]), ond fe'u gwneir yn amodol ar y darpariaethau amddiffynnol yn Atodlen 11. O ystyried bod y darpariaethau amddiffynnol wedi'u cytuno yn Atodlen 11, gall yr SoS fod yn fodlon y byddai unrhyw ddiddymiad neu ddilead yn angenrheidiol at ddiben cynnal y datblygiad awdurdodedig (a138).

National Grid Gas (NGG) plc

Lleoliad: Ar draws Tir y Gorchymyn drwyddo draw

Buddiannau Parhaol: 2, 6, 16, 19, 23

Dros Dro: 6A, 6B, 16A, 19A

Statws: gwrthwynebwr sy'n ymgymwrwr statudol (tynnwyd yn ôl).

- 7.6.40. Gwnaeth NGG Plc [RR-024] gynrychiolaethau ynglŷn â CA o ran tir, hawliau a TP yn Abergelli, a cheisiodd negodi darpariaethau amddiffynnol.
- 7.6.41. Rhoddwyd y darpariaethau amddiffynnol a'r cytundebau ochr drafft cyntaf i NGG ar 23 Mai 2018. Anfonwyd Datganiadau Tir Cyffredin (un ar gyfer pob ymgymwrwr statudol) at NGG ar 12 Medi 2018 ac fe'u diweddarwyd a'u cyflwynwyd erbyn DL1. Mae'r darpariaethau amddiffynnol a'r cytundeb ochr wedi cael eu cytuno erbyn hyn. Mae'r cytundeb ochr yn y broses o gael ei lofnodi [REP6-002].
- 7.6.42. Ar 21 Mawrth 2019, cadarnhaodd NGG ei fod wedi cytuno ar ddarpariaethau amddiffynnol gyda'r Ymgeisydd a'i fod eisiau tynnu ei gynrychiolaethau'n ôl mewn perthynas â'r cais [REP6-013].
- 7.6.43. I'r graddau bod hwn yn wrthwynebiad yr oedd a127 PA2008 yn berthnasol iddo, rwyf yn fodlon bod y gwrthwynebiad hwn wedi'i dynnu'n ôl ac felly nad yw'n weithredol. Nid yw'r amgylchiadau sy'n weddill yn codi unrhyw faterion sy'n awgrymu na ddylid cymeradwyo'r darpariaethau CA a geisir gan yr Ymgeisydd. Rwyf yn fodlon nad oes unrhyw bryderon ychwanegol sy'n weddill o ran buddiannau NGG fel y'u cofnodir uchod ac, yn arbennig, o ran y darpariaethau amddiffynnol yn Rhan 3 Atodlen 11 y DCO y mae angen i'r SoS eu hystyried.
- 7.6.44. Mae'r Ymgeisydd wedi cynnwys pwerau i ddiddymu unrhyw hawl neu ddileu unrhyw gyfarpar (a gynhwysir yn Erthygl 31³³ y DCO drafft [REP6-

³² Erthygl 31 DCO argymelledig yr ExA, Atodiad Ch

³³ Erthygl 29 DCO argymelledig yr ExA, Atodiad Ch

003]) ond fe’u gwneir yn amodol ar y darpariaethau amddiffynnol yn Atodlen 11. O ystyried bod y darpariaethau amddiffynnol wedi’u cytuno yn Atodlen 11, gall yr SoS fod yn fodlon y byddai unrhyw ddiddymiad neu ddilead yn angenrheidiol at ddiben cynnal y datblygiad awdurdodedig (a138).

National Grid Electricity Transmission Systems (NGETS) plc

Lleoliad: Ar draws Tir y Gorchymyn drwyddo draw

Buddiannau Parhaol: 6, 10, 13, 14, 15, 16, 18, 19, 20, 21, 24

Dros Dro: 6A, 6B, 16A, 18A, 18B, 19A

Statws: gwrthwynebwr sy’n ymgymwrwr statudol (tynnwyd yn ôl).

- 7.6.45. Gwnaeth NGETS [RR-024] gynrychiolaethau ynglŷn â CA o ran tir, hawliau a TP yn Abergelli, a cheisiodd negodi darpariaethau amddiffynnol.
- 7.6.46. Rhoddwyd y darpariaethau amddiffynnol a’r cytundebau ochr drafft cyntaf i NGETS ar 23 Mai 2018. Anfonwyd Datganiadau Tir Cyffredin (un ar gyfer pob ymgymwrwr statudol) at NGETS ar 12 Medi 2018 ac fe’u diweddarwyd a’u cyflwynwyd erbyn DL1. Mae’r darpariaethau amddiffynnol a’r cytundeb ochr wedi cael eu cytuno erbyn hyn. Mae’r cytundeb ochr yn y broses o gael ei lofnodi [REP6-002].
- 7.6.47. Ar 21 Mawrth 2019, cadarnhaodd NGETS ei fod wedi cytuno ar ddarpariaethau amddiffynnol gyda’r Ymgeisydd a’i fod eisiau tynnu ei gynrychiolaethau’n ôl mewn perthynas â’r cais [REP6-013].
- 7.6.48. I’r graddau bod hwn yn wrthwynebiad yr oedd a127 PA2008 yn berthnasol iddo, rwyf yn fodlon bod y gwrthwynebiad hwn wedi’i dynnu’n ôl ac felly nad yw’n weithredol. Nid yw’r amgylchiadau sy’n weddill yn codi unrhyw faterion sy’n awgrymu na ddylid cymeradwyo’r darpariaethau CA a geisir gan yr Ymgeisydd. Rwyf yn fodlon nad oes unrhyw bryderon ychwanegol sy’n weddill o ran buddiannau NGETS fel y’u cofnodir uchod ac, yn arbennig, o ran y darpariaethau amddiffynnol yn Rhan 3 Atodlen 11 y DCO y mae angen i’r SoS eu hystyried.
- 7.6.49. Mae’r Ymgeisydd wedi cynnwys pwerau i ddiddymu unrhyw hawl neu ddileu unrhyw gyfarpar (a gynhwysir yn Erthygl 31³⁴ y DCO drafft [REP6-003]) ond fe’u gwneir yn amodol ar y darpariaethau amddiffynnol yn Atodlen 11. O ystyried bod y darpariaethau amddiffynnol wedi’u cytuno yn Atodlen 11, gall yr SoS fod yn fodlon y byddai unrhyw ddiddymiad neu ddilead yn angenrheidiol at ddiben cynnal y datblygiad awdurdodedig (a138).

Abergelli Solar Limited (ASL)

³⁴ Erthygl 29 DCO argymelledig yr ExA, Atodiad Ch

Lleoliad: Ar draws Tir y Gorchymyn drwyddo draw

Buddiannau Parhaol: 2, 3, 3A, 3B, 4, 5, 6,

Dros Dro: 4A, 5A, 5B, 6A, 6B, 7C.

Statws: cynrychiolydd sy'n ymgymrwyr statudol.

- 7.6.50. Gwnaeth ASL [RR-018] gynrychiolaeth ynglŷn â chebl trydanol a chebl cyfathrebu ffeibr optig tanddaear y mae ASL yn berchen arnynt sy'n cysylltu dwy ran o Fferm Solar Abergelli y bydd Piblinell Nwy'r Ymgeisydd ar gyfer y Prosiect yn eu croesi.
- 7.6.51. Rhoddwyd y darpariaethau amddiffynnol a'r cytundebau ochr drafft cyntaf i ASL ar 22 Mai 2018.
- 7.6.52. Mae'r darpariaethau amddiffynnol a'r cytundeb ochr wedi cael eu cytuno erbyn hyn a chyflwynwyd y darpariaethau amddiffynnol i'r archwiliad yn y DCO drafft diwygiedig erbyn DL5. Llofnodwyd a dyddiwyd y cytundeb ochr ar 13 Mawrth 2019.
- 7.6.53. Ar 13 Mawrth 2019, cadarnhaodd ASL ei fod wedi cytuno ar ddarpariaethau amddiffynnol gyda'r Ymgeisydd a'i fod eisiau tynnu ei gynrychiolaethau'n ôl mewn perthynas â'r cais [REP6-011].
- 7.6.54. I'r graddau bod hwn yn wrthwynebiad yr oedd a127 PA2008 yn berthnasol iddo, rwyf yn fodlon bod y gwrthwynebiad hwn wedi'i dynnu'n ôl ac felly nad yw'n weithredol. Nid yw'r amgylchiadau sy'n weddill yn codi unrhyw faterion sy'n awgrymu na ddylid cymeradwyo'r darpariaethau CA a geisir gan yr Ymgeisydd. Rwyf yn fodlon nad oes unrhyw bryderon ychwanegol sy'n weddill o ran buddiannau Abergelli Power Limited fel y'u cofnodir uchod ac, yn arbennig, o ran y darpariaethau amddiffynnol yn Rhan 6 Atodlen 11 y DCO y mae angen i'r SoS eu hystyried.
- 7.6.55. Mae'r Ymgeisydd wedi cynnwys pwerau i ddiddymu unrhyw hawl neu ddileu unrhyw gyfarpar (a gynhwysir yn Erthygl 31³⁵ y DCO drafft [REP6-003]) ond fe'u gwneir yn amodol ar y darpariaethau amddiffynnol yn Atodlen 11. O ystyried bod y darpariaethau amddiffynnol wedi'u cytuno yn Atodlen 11, gall yr SoS fod yn fodlon y byddai unrhyw ddiddymiad neu ddilead yn angenrheidiol at ddiben cynnal y datblygiad awdurdodedig (a138).

Mr Michael Edwards

Lleoliad: Aliniad y ffordd fynediad a'r cysylltiad trydanol.

Buddiannau:

Rhydd-ddaliad: 12.

Parhaol: 13, 14, 15, 17.

³⁵ Erthygl 29 DCO argymelledig yr ExA, Atodiad Ch

Dros Dro: 13A, 13B, 17A, 17B.

Statws: gwrthwynebwr.

- 7.6.56. Roedd Mr Michael Edwards [RR-011] yn gwrthwynebu CA o ran rhydd-ddaliad, hawliau a TP o ran tir yn fferm Maes-eglwys ar gyfer aliniad y ffordd fynediad a'r cysylltiad trydanol. Mae Mr Edwards yn byw mewn tŷ ar y fferm. Hyd yn oed os oedd yr orsaf gynhyrchu wedi'i lleoli'n gywir, nid oedd wedi'i ddarbwylllo bod angen i aliniad y ffordd fynediad gael ei leoli yn y man lle'r oedd wedi'i leoli, ac felly bod angen iddo fynd trwy ei dir ef. Credai fod dewisiadau lleoli eraill ar gael a ddisgrifir ym mharagraffau 7.6.16-7.6.28 uchod.
- 7.6.57. Cyflwynodd yr Ymgeisydd ei achos dros yr aliniad a ddewiswyd ar gyfer y ffordd fynediad ym mharagraffau 7.6.9-7.6.14 uchod.
- 7.6.58. Nid yw'r partïon wedi dod i gytundeb. Cynhaliodd asiant tir yr Ymgeisydd gyfarfod â Mr Edwards a'i asiant tir ef ar 27 Ebrill 2018 i gychwyn trafodaeth ynglŷn â'r caffaeliad tir arfaethedig. Cynhaliwyd trafodaethau pellach rhwng yr asiantiaid tir i adolygu egwyddorion prisio i gaffael yr hawliau trwy negodi [REP6-002]:
- Trafododd Carter Jonas (Asiant Tir yr Ymgeisydd) y cynnig a oedd i'w wneud gydag asiant y perchennog ar 2 Mai 2018;
 - Gwnaeth yr Ymgeisydd gynnig ysgrifenedig â thelerau llawn i Mr Edwards ar 18 Mai 2018;
 - Ar 6 Mehefin 2018, holodd Carter Jones asiant tir Mr Edwards a oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran gwrthgynnig neu gynnig;
 - Cynhaliwyd cyfarfodydd eraill rhwng yr asiantiaid tir, gyda'r Ymgeisydd yn bresennol, ar 24 Medi a 10 Hydref 2018 i symud y trafodaethau ymlaen;
 - Yn dilyn y cyfarfodydd, rhoddodd asiant y perchennog dystiolaeth gymaradwy trwy neges e-bost ar 2 Tachwedd 2018 a gwahoddodd yr Ymgeisydd i ddiwygio'r cynigion a wnaed;
 - Cysylltodd yr Ymgeisydd ac asiant tir Mr Edwards â'i gilydd i egluro'r dystiolaeth ar 20 Tachwedd 2018;
 - Anfonodd Carter Jonas, sef asiant tir yr Ymgeisydd, ymateb llawn i'r materion prisio a godwyd ar 14 Rhagfyr 2018, gan nodi manylion a gwybodaeth ychwanegol i'w trafod gan y partïon;
 - Gwnaeth yr Ymgeisydd gynnig diwygiedig ar gyfer cytundeb opsiwn i asiant Mr Edwards ar 16 Ionawr 2019 ac a oedd yn egluro'r ardaloedd o dir yr effeithir arnynt gan yr hawliau hawddfaint y byddai'r Ymgeisydd eisiau eu cofnodi. Gwrthodwyd y cynnig gwell hwn gan yr asiant ar 22 Ionawr; a
 - Chyflwynodd Carter Jonas gais ar 22 Ionawr i wrthgynnig gael ei wneud i lywio trafodaethau parhaus yn well [REP6-002].
- 7.6.59. Gwelais y cynnig ar gyfer aliniad y ffordd fynediad yn y lleoliad hwn yn ystod fy ASI [EV-008] yng nghwmni Mr Edwards a Mr Wynne Watkins, sef y ddau AP. Mae lled y ffordd fynediad wedi cael ei leihau i 15m ac mae wedi'i chydleoli â'r cysylltiad trydanol i leihau faint o dir a gymerir i'r eithaf. Mae lleoliad y ffordd fynediad yn golygu na fydd effaith arwyddocaol ar weithrediad y fferm.

- 7.6.60. Yn dilyn fy archwiliad safle, daeth i'r amlwg nad oedd dewis amgen ymarferol ar gyfer lleoli aliniad y ffordd fynediad ar y tir hwn. Am y rhesymau a roddwyd gennyf yn Adran 4.8 uchod ac ym mharagraffau 7.6.7 – 7.6.32, rwyf yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi cynnal arfarniad llawn a theg o opsiynau lleoli ac na ellir mynd i'r afael â phryderon Mr Edwards yn rhesymol trwy leoli'r ffordd fynediad ar dir arall. Felly, at ei gilydd, rwyf yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi dangos yr achos dros CA a TP fel y'u cynigir yn y lleoliad hwn (gweler paragraffau 7.6.29-7.6.32 uchod).

Mr Wynne Watkins

Lleoliad: Aliniad y ffordd fynediad a'r cysylltiad trydanol.

Buddiannau:

Parhaol: 18, 21, 22, 23, 24.

Dros Dro: 18A, 18B.

Statws: gwrthwynebwr.

- 7.6.61. Roedd Mr Wynne Watkins [RR-011] yn gwrthwynebu CA o ran hawliau a TP o ran tir rhwng safle'r cywasgydd nwy a'r B4489, ar gyfer aliniad y ffordd fynediad a'r cysylltiad trydanol. Hyd yn oed os oedd yr orsaf gynhyrchu wedi'i lleoli'n gywir, nid oedd wedi'i ddarbwylllo bod angen i aliniad y ffordd fynediad gael ei leoli yn y man lle'r oedd wedi'i leoli, ac felly bod angen iddo fynd trwy ei dir ef. Credai fod dewisiadau lleoli eraill ar gael a ddisgrifir ym mharagraffau 7.6.16-7.6.28 uchod.
- 7.6.62. Cyflwynodd yr Ymgeisydd ei achos dros yr aliniad a ddewiswyd ar gyfer y ffordd fynediad ym mharagraffau 7.6.9-7.6.14 uchod.
- 7.6.63. Nid yw'r partïon wedi dod i gytundeb. Cynhaliwyd cyfarfod â Mr Watkins a'i asiant tir ar 27 Ebrill 2018 i gychwyn trafodaeth ynglŷn â'r caffaeliad tir arfaethedig:
- Gwnaeth yr Ymgeisydd gynnig ysgrifenedig â thelerau llawn i Mr Watkins ar 18 Mai 2018;
 - Cafodd Carter Jonas, sef asiant tir yr Ymgeisydd, ohebiaeth gan asiant tir y perchennog ar 7 Awst 2018 yn cadarnhau nad oedd penawdau'r telerau (HoT) a gynigiwyd yn y cynnig a wnaed ar 18 Mai 2018 yn dderbyniol i'r perchennog, a chyflwynwyd gwrthgynnig;
 - Ysgrifennodd Carter Jonas at asiant y perchennog ar 3 Medi 2018 i gadarnhau'r hawliau a geisir o dan y DCO ac i ofyn am dystiolaeth o drafodion cymaradwy i gefnogi'r gwrthgynnig a wnaed;
 - Cynhaliwyd cyfarfod arall rhwng yr asiantiaid tir, gyda'r Ymgeisydd yn bresennol, ar 24 Medi 2018;
 - Cyflwynwyd dystiolaeth gymaradwy i Carter Jonas ar 6 Tachwedd 2018 gan asiant y perchennog;
 - Anfonodd Carter Jonas ymateb llawn i'r materion prisio a godwyd ar 14 Rhagfyr 2018, gan nodi manylion a gwybodaeth ychwanegol i'w trafod gan y partïon;

- Cyflwynodd yr Ymgeisydd gynnig diwygiedig i asiant Mr Watkins ar 16 Ionawr 2019 a oedd hefyd yn egluro faint o dir y byddai gofyniad hawddfrait arfaethedig yr Ymgeisydd yn effeithio arno;
- Gwrthodwyd y cynnig gwell hwn gan asiant y perchennog ar 4 Chwefror 2019;
- Cyflwynodd Carter Jonas gais ar 5 Chwefror 2019 i wrthgynnig gael ei wneud i lywio trafodaethau parhaus yn well; ac
- Anfonodd asiant y perchennog neges e-bost ar 19 Chwefror 2019 i ofyn am gynnig diwygiedig arall gan yr Ymgeisydd [REP6-002].

7.6.64. Gwelais y cynnig ar gyfer aliniad y ffordd fynediad yn y lleoliad hwn yn ystod fy ASI [EV-008]. Mae lled y ffordd fynediad wedi cael ei leihau i 15m ac mae wedi'i chydleoli â'r cysylltiad trydanol i leihau faint o dir a gymerir i'r eithaf. Mae lleoliad y ffordd fynediad yn golygu na fydd effaith arwyddocaol ar weithrediad y fferm.

7.6.65. Yn dilyn fy archwiliad safle, daeth i'r amlwg nad oedd dewis amgen ymarferol ar gyfer lleoli aliniad y ffordd fynediad ar y tir hwn. Am y rhesymau a roddwyd gennyf yn Adran 4.8 uchod ac ym mharagraffau 7.6.7 – 7.6.32, rwyf yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi cynnal arfarniad llawn a theg o opsiynau lleoli ac na ellir mynd i'r afael â phryderon Mr Watkins yn rhesymol trwy leoli'r ffordd fynediad ar dir arall. Felly, at ei gilydd, rwyf yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi dangos yr achos dros CA a TP fel y'u cynigir yn y lleoliad hwn (gweler paragraffau 7.6.29-7.6.32 uchod).

Redisplay Limited

Lleoliad: Aliniad y ffordd fynediad a'r cysylltiad trydanol.

Buddiannau:

Parhaol: 18, 21, 22, 23, 24.

Dros Dro: 18A, 18B. Statws: gwrthwynebwr.

7.6.66. Roedd Redisplay Limited [RR-012] yn gwrthwynebu CA o ran hawliau a TP o ran tir rhwng safle'r cywasgydd nwy a'r B4489, ar gyfer aliniad y ffordd fynediad a'r cysylltiad trydanol. Hyd yn oed os oedd yr orsaf gynhyrchu wedi'i lleoli'n gywir, nid oedd wedi'i ddarbwylllo bod angen i aliniad y ffordd fynediad gael ei leoli yn y man lle'r oedd wedi'i leoli, ac felly bod angen iddo fynd trwy ei dir ef. Credai Redisplay Limited fod dewisiadau lleoli eraill ar gael a ddisgrifir ym mharagraffau 7.6.16-7.6.28 uchod.

7.6.67. Cyflwynodd yr Ymgeisydd ei achos dros yr aliniad a ddewiswyd ar gyfer y ffordd fynediad ym mharagraffau 7.6.9-7.6.14 uchod.

7.6.68. Nid yw'r partïon wedi dod i gytundeb. Cynhaliwyd cyfarfod â Mr Watkins a'i asiant tir (Mr Watkins yw prif berchennog llesiannol Redisplay Ltd) ar 27 Ebrill 2018 i gychwyn trafodaeth ynglŷn â'r caffaeliad tir arfaethedig:

- Gwnaeth yr Ymgeisydd gynnig ysgrifenedig â thelerau llawn i Mr Watkins ar neu o gwmpas 18 Mai 2018;

- Ysgrifennodd asiant y perchennog at Carter Jonas ar 7 Awst 2018 mewn ymateb i'r cynnig a wnaed ar 18 Mai 2018, yn cadarnhau na dderbyniwyd yr HoTs a gyflwynwyd gyda'r cynnig;
- Gwnaed gwrthgynnig ac, mewn neges e-bost dyddiedig 3 Medi 2018, gofynnodd Carter Jonas am dystiolaeth gymaradwy i gefnogi'r cynnig a wnaed;
- Cynhaliwyd cyfarfod arall rhwng yr asiantiaid tir, gyda'r Ymgeisydd yn bresennol, ar 24 Medi 2018;
- Rhoddwyd taflen delerau a chynnig diwygiedig i asiant y perchennog ar 6 Rhagfyr 2018 a gydnabuwyd gan asiant y perchennog; ac
- Anfonodd asiant y perchennog neges e-bost arall ar 19 Chwefror 2019 i wrthod y cynnig diwygiedig a roddwyd ar 6 Rhagfyr 2018 ac i ofyn am gynnig diwygiedig arall gan yr Ymgeisydd. [REP6-002].

7.6.69. Gwelais y cynnig ar gyfer aliniad y ffordd fynediad yn y lleoliad hwn yn ystod fy ASI [EV-008]. Mae lled y ffordd fynediad wedi cael ei leihau i 15m ac mae wedi'i chydleoli â'r cysylltiad trydanol i leihau faint o dir a gymerir i'r eithaf. Mae lleoliad y ffordd fynediad yn golygu na fydd effaith arwyddocaol ar weithrediad Redisplay.

7.6.70. Yn dilyn fy archwiliad safle, daeth i'r amlwg nad oedd dewis amgen ymarferol ar gyfer lleoli aliniad y ffordd fynediad ar y tir hwn. Am y rhesymau a roddwyd gennyf yn Adran 4.8 uchod ac ym mharagraffau 7.6.7 – 7.6.32, rwyf yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi cynnal arfarniad llawn a theg o opsiynau lleoli ac na ellir mynd i'r afael â phryderon Redisplay Limited yn rhesymol trwy leoli'r ffordd fynediad ar dir arall. Felly, at ei gilydd, rwyf yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi dangos yr achos dros CA a TP fel y'u cynigir yn y lleoliad hwn (gweler paragraffau 7.6.29-7.6.32 uchod).

ARGAELEDD A DIGONOLRWYDD CYLLID

7.6.71. Archwiliais argaeledd a digonolrwydd cyllid ar gyfer iawndal CA a TP, ac rwyf yn fodlon o'r dystiolaeth yn yr FS a gyflwynwyd [APP-012] bod gan yr Ymgeisydd fynediad digonol at gyllid i fodloni unrhyw rwymedigaethau iawndal. Roedd yr FS yn manylu ar adnoddau Drax (rhiant-gwmni'r Ymgeisydd) a fyddai ar gael i ariannu'r prosiect, gan gynnwys cyllid ar gyfer CA.

7.6.72. Ni chodwyd digonolrwydd cyllid gan unrhyw AP na phartïon eraill â buddiant yn ystod yr archwiliad.

7.6.73. Mae Erthygl 34 y DCO, fersiwn 6 [REP6-003], yn datgan:

- *"(1) Rhaid i'r ymgymwrwr beidio ag arfer y pwerau a roddir gan y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) o ran unrhyw dir oni bai ei fod wedi sefydlu, yn gyntaf, naill ai— (a) gwarant, a bod swm y warant honno wedi cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran rhwymedigaethau'r ymgymwrwr i dalu iawndal o dan y Gorchymyn hwn mewn perthynas ag arfer y pŵer perthnasol o ran y tir hwnnw; neu (b) math arall o sicrwydd, a bod swm y sicrwydd hwnnw at y diben hwnnw wedi cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran rhwymedigaethau'r ymgymwrwr i dalu*

iawndal o dan y Gorchymyn hwn mewn perthynas ag arfer y pŵer perthnasol o ran y tir hwnnw.”.

- 7.6.74. Yn ôl Erthygl 34(1), rhaid peidio ag arfer y darpariaethau yn Erthyglau 19, 23, 24, 26, 28, 29, 30 a 31 (sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r darpariaethau hynny y gallai rhai rhwymedigaethau iawndal godi ohonynt) hyd nes bod Erthygl 34(1)(a) neu (b) wedi cael ei bodloni:

(a) gwarant, a bod swm y warant honno wedi cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran rhwymedigaethau'r ymgymwrwr i dalu iawndal o dan y Gorchymyn hwn mewn perthynas ag arfer y pŵer perthnasol o ran y tir hwnnw; neu

(b) math arall o sicrwydd, a bod swm y sicrwydd hwnnw at y diben hwnnw wedi cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran rhwymedigaethau'r ymgymwrwr i dalu iawndal o dan y Gorchymyn hwn mewn perthynas ag arfer y pŵer perthnasol o ran y tir hwnnw.

- 7.6.75. Nid yw Erthygl 34 yn nodi'r union fath o warant na chan bwy y byddai'n cael ei dal. Fodd bynnag, mae hwnnw'n fater i'w benderfynu gan yr SoS os a phan ddaw'r adeg i ryddhau Erthygl 34(1)(a) neu (b).

- 7.6.76. Rwyf yn fodlon bod Erthygl 34 yn darparu modd cadarn o warantu'r cyllid angenrheidiol. Rwyf yn fodlon, ar ôl i'r SoS ryddhau naill ai Erthygl 34(1) (a) neu (b), y bydd y cyllid gwarantedig yn cael ei ddal trwy fodd sy'n hygyrch i bobl sydd â hawl i gael iawndal.

YSTYRIAETHAU DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998

- 7.6.77. Yn y SoR [REP6-002], nododd yr Ymgeisydd ei fod wedi ceisio lleihau faint o dir yr oedd angen bwerau CA drosto i'r eithaf. Credai y byddai caniatáu'r DCO yn arwain at fudd sylweddol i'r cyhoedd, a allai gael ei wireddu dim ond pe byddai pwerau CA yn cael eu rhoi gyda'r DCO. Daeth i'r casgliad bod y buddion sylweddol i'r cyhoedd yn drech na'r effeithiau ar unigolion sy'n berchen ar eiddo o fewn tir y Gorchymyn.
- 7.6.78. O ran Erthygl 6, dywedodd yr Ymgeisydd y bu cyfleoedd i wneud cynrychiolaethau yn ystod y broses o baratoi'r cais ac yr ymgynghorwyd â thirfeddianwyr. Bu cyfle i wneud cynrychiolaethau yn ystod yr Archwiliad.
- 7.6.79. Roedd yr Ymgeisydd o'r farn bod unrhyw dresmasiad ar hawliau'r Confensiwn o ganlyniad i gynnwys pwerau CA yn y DCO yn gymesur ac yn ddilys ac yn unol â chyfraith genedlaethol ac Ewropeaidd. Roedd achos cymhellol er budd y cyhoedd dros arfer y pwerau CA hyn. Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad y byddai'n briodol ac yn gymesur i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y DCO, gan gynnwys rhoi pwerau CA.
- 7.6.80. Mae Erthygl 1 y Protocol Cyntaf (sy'n ymwneud â hawliau'r rhai y bwriedir caffael eu heiddo'n orfodol a thresmasu ar eu mwynhad tawel o'u heiddo) wedi'i gweithredu. Rwyf yn fodlon y byddai'r tresmasiad arfaethedig ar hawliau unigolion yn gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gyfiawnadwy er budd y cyhoedd.

- 7.6.81. Mae Erthygl 6 yn rhoi'r hawl i APs gael gwrandawriad teg a chyhoeddus o'u gwrthwynebiadau, ac mae wedi'i gweithredu. Trwy ddarparu CAH [EV-004], rwyf wedi galluogi unrhyw AP a oedd eisiau cael ei glywed i gael ei glywed yn llawn, yn deg ac yn gyhoeddus.

MATERION TECHNEGOL: PA2008, ADRANNAU 127 I 132

- 7.6.82. Ymdriniais â gofynion deddfwriaethol PA2008 sy'n berthnasol i CA a TP yn fy FWQs [PD-005(3)]. Ymhelaethwyd ar y rhain fel y bo'r angen yn y Gwrandawriad CA. Rhoddodd ymateb yr Ymgeisydd i'm FWQs [REP1-010] y wybodaeth ganlynol sy'n berthnasol i CA a TP:

- Mae sawl endid sy'n ymgwymerwyr statudol sy'n ddarostyngedig i a127 PA2008. Lle mae gwrthwynebiad heb ei ddatrys gan endid o'r fath, amlygir ac ystyrir hyn yn fy nhrefnfaeth o wrthwynebiadau unigol uchod (gweler Atodiad 3 Tabl 3 y SoR [REP6-002]).
- Nid yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen ar unrhyw dir y Gorchymyn, ac felly nid yw a130 PA2008 yn berthnasol.
- Yn gyson â Rhan 5 y BoR [AS-002], sy'n cadarnhau absenoldeb tir categori arbennig, nid oes cynnig i gaffael unrhyw dir sy'n ffurfio rhan o dir comin, man agored na rhandir gardd danwydd neu ardd gae sy'n ddarostyngedig i weithrediad a131 PA2008, na hawliau dros dir o'r fath sy'n ddarostyngedig i weithrediad a132 PA2008.
- Nid oedd unrhyw beth yn ymwneud â'r sefyllfaoedd hyn wedi newid yn ystod gweddill cyfnod yr archwiliad, felly rwyf yn fodlon ar y materion canlynol:
 - bod angen ystyried a127 PA2008 fel yr amlygwyd ac yr argymhellwyd yn fy ystyriaeth o wrthwynebiadau unigol uchod;
 - nid yw a130 PA2008 yn berthnasol ac nid oes angen i'r SoS ei hystyried ymhellach; ac
 - nid yw adrannau 131 a 132 PA2008 yn berthnasol ac nid oes angen i'r SoS eu hystyried ymhellach.

CASGLIADAU CYFFREDINOL YR EXA AR CA A TP

- 7.6.83. Wrth ystyried p'un a ddylwn argymhell y dylai'r SoS roi pwerau CA, a pha rai, defnyddiais adrannau perthnasol PA2008, sef a122 ac a123 yn benodol, Canllawiau CA y DCLG a Deddf Hawliau Dynol 1998; ac, yng ngoleuni'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd a'r dystiolaeth a gyflwynwyd, ystyriais b'un a wnaed achos cymhellol er budd y cyhoedd, gan gydbwysu budd y cyhoedd yn erbyn colled breifat. Er nad yw pwerau TP yn ddarostyngedig i'r un profion, fe'u ceisir ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig ag adeiladu ac maen nhw'n rhan annatod o'r pecyn tir ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Rwyf wedi archwilio'r angen am y tir TG a'i ehangder fel y'i hamlinellir yn y DCO.
- 7.6.84. Mae a122 PA2008 yn amlinellu'r dibenion y ceir awdurdodi CA ar eu cyfer. Yng ngoleuni Canllawiau CA y DCLG, mae angen ystyried a yw'r Ymgeisydd wedi cyfiawnhau ei gynigion ar gyfer CA o ran y tir. Rwyf yn fodlon y byddai'r buddiannau cyfreithiol yn yr holl leiniau tir sydd wedi'u cynnwys yn y BoR ac a ddangosir ar y Cynlluniau Tir yn angenrheidiol ar

gyfer y prif ddatblygiad ac ar gyfer tir sy'n ofynnol i hwyluso'r ddarpariaeth honno. Felly, bodlonir gofynion a122(2) (a) a (b) PA2008 at ddibenion y datblygiad gorsaf gynhyrchu.

7.6.85. At ddibenion a122(3) PA2008, deuaf i'r casgliad:

- y byddai'r datblygiad y ceisir y tir ar ei gyfer yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol fel y'i hamlinellir yn yr NPSs perthnasol, ac y dylai caniatâd datblygu gael ei roi;
- bod yr NPSs yn amlygu angen cenedlaethol am gapasiti cynhyrchu trydan o'r math y mae'r cais yn ymwneud ag ef;
- bod angen sicrhau'r tir a'r hawliau sy'n ofynnol ac adeiladu'r datblygiad o fewn graddfa amser fasnachol resymol, a bod y datblygiad yn cynrychioli budd sylweddol i'r cyhoedd i'w ystyried yn y cydbwysedd;
- bod y golled breifat i'r rhai yr effeithir arnynt wedi cael ei lliniaru trwy'r canlynol:
 - y tir a ddewiswyd;
 - cydleoli'r ffordd fynediad a'r cysylltiad trydanol;
 - lleihau lled y ffordd fynediad i'r eithaf; a
 - lleihau graddau'r hawliau a'r buddiannau y bwriedir eu caffael i'r eithaf;
- bod yr Ymgeisydd wedi archwilio'r holl ddewisiadau amgen rhesymol yn lle'r CA a geisir o ran hawliau a buddiannau; ac
- y byddai cyllid sicr ar gael i alluogi'r CA ar ôl i'r DCO gael ei wneud, a bod gwarant ei fod ar gael yn cael ei chynnig yn y DCO.

7.7. CASGLIADAU

7.7.1. Mae angen i'r achos dros bwerau CA gael ei seilio ar yr achos dros y datblygiad yn gyffredinol. Rwyf wedi dangos ym Mhennod 6 fy mod wedi dod i'r casgliad y dylai caniatâd datblygu gael ei roi. Fel yr wyf wedi'i amlinellu uchod, rwyf yn fodlon bod cyfiawnhad i'r pwerau CA a geisir gan yr Ymgeisydd ac y dylent gael eu rhoi oherwydd fy mod wedi dod i'r casgliad bod achos cymhellol er budd y cyhoedd i'r tir a'r buddiannau gael eu caffael yn orfodol, ac felly y byddai'r cynnig yn cydymffurfio ag a122(3) PA2008.

7.7.2. Gan droi at a123 PA2008, am y rhesymau a roddais ar ddechrau'r Bennod hon, credaf fod yr amod yn is-adran (2) wedi'i fodloni ac felly y gellir rhoi'r pwerau CA a geisir. Credaf hefyd fod y pwerau TP a geisir yn y DCO yn angenrheidiol ac y dylent gael eu rhoi. Rwyf yn fodlon y byddai'r tresmasiad arfaethedig ar hawliau unigolion yn gyfreithlon, yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn gyfiawnadwy er budd y cyhoedd.

8. GORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU DRAFFT A MATERION CYSYLLTIEDIG

8.1. CYFLWYNIAD

- 8.1.1. Cyflwynwyd Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft y cais (Diwygiad 0) [APP-014] ac EM [APP-013] gan yr Ymgeisydd yn rhan o'r cais am ganiatâd datblygu. Mae'r EM yn disgrifio diben y DCO drafft fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol, gyda phob un o'i erthyglau a'i atodlenni.
- 8.1.2. Roedd DCO drafft y cais wedi'i seilio'n fras ar y Darpariaethau Model (MPs) (Gorchymyn Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Model) (Cymru a Lloegr) 2009 sydd wedi'i ddiddymu erbyn hyn), ond gwrodd oddi wrth y cymalau hynny i ddefnyddio dull drafftio a welir mewn Gorchymynion a wnaed ar gyfer datblygiad tebyg o dan PA2008 [APP-034]. Gan adeiladu ar y sylfaen hon, fe'i modelwyd yn agos ar y dull drafftio a ddefnyddiwyd ar gyfer Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu sy'n Rhedeg ar Nwy Hirwaun 2015 (OS Rhif 1574/2015) (Gorchymyn Hirwaun). Gwnaed y cais am Orchymyn Hirwaun gan Ymgeisydd yn yr un grŵp o gwmnïau â'r Ymgeisydd presennol ac am ddatblygiad tebyg h.y. gorsaf gynhyrchu sy'n rhedeg ar nwy ar raddfa gyfatebol. Mae elfennau arwyddocaol o DCO drafft y cais a Gorchymyn Hirwaun yn debyg o ran diben, strwythur a drafftio.
- 8.1.3. Mae'r Bennod hon yn rhoi trosolwg o'r newidiadau a wnaed i'r DCO yn ystod y broses Archwilio, rhwng DCO drafft y cais a'r DCO drafft terfynol a ffefrir a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd erbyn DL6 [REP6-003] (Diwygiad 6). Yna mae'n ystyried y newidiadau hynny er mwyn cyrraedd y DCO Argymelledig yn Atodiad Ch yn adroddiad hwn.
- 8.1.4. Mae'r adrannau canlynol o'r bennod hon:
- yn adrodd ar y prosesau a ddefnyddiais i archwilio'r DCO drafft a'i gynnydd trwy'r Archwiliad;
 - yn adrodd ar strwythur y DCO drafft;
 - yn rhoi crynodeb byr o'r newidiadau a wnaed i'r DCO yn ystod yr Archwiliad hyd at DL6 nad oeddent yn destun dadl (lle, yn dilyn ymgynghori a thrafodaeth fel y bo'r angen, yr oedd yr Ymgeisydd ac IPs perthnasol yn cefnogi'r newidiadau);
 - yn adrodd yn fanylach ar y newidiadau hynny a oedd yn destun cyflwyniadau ymrysongar mewn WR a / neu Wrandawiadau;
 - yn mynd i'r afael â'r berthynas rhwng y DCO a chydysniadau a chytundebau cyfreithiol eraill;
 - yn mynd i'r afael â darparu amddiffyniad yn erbyn niwsans yn y DCO; a
 - chasgliadau'r ExA.

8.2. ARCHWILIO'R DCO

- 8.2.1. Dechreuodd fy adolygiad o fersiynau DCO drafft y cais (Diwygiad 0) [APP-014] a'r EM [APP-013] cyn i'r Archwiliad ddechrau'n ffurfiol. Cofnodais faterion a oedd yn codi o fersiynau'r cais yn ystod y cyfnod

cyn-archwilio, wrth baratoi ar gyfer yr archwiliad. Roedd fy Llythyr Rheol 6 [PD-005] yn cynnwys atodlen materion i'w harchwilio yn ymwneud â'r DCO drafft [PD-005, Atodiadau B, C, E, G a H], a oedd ar gael i'r Ymgeisydd ac IPs cyn i'r Archwiliad ddechrau. Galluogodd y broses hon i mi gynnal y Gwrandawriad Mater Penodol (ISH) cyntaf ar y DCO ar 10 Hydref 2018 [EV-003] [EV-005]. Olrheiniwyd materion i'w harchwilio a oedd yn codi o'r DCO, a chynnydd arnynt, drwy gydol yr Archwiliad gan ddefnyddio ISH arall ar y DCO a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2018 [EV-011].

8.2.2. Diweddarodd yr Ymgeisydd y DCO drafft sawl gwaith yn ystod yr Archwiliad, gan ymateb i faterion a godwyd gan IPs a gennyf i, trwy WR ac o ganlyniad i'r prosesau Gwrandawriad. Ar adeg pob diwygiad, cyflwynodd yr Ymgeisydd gopi glân a chopi yn dangos newidiadau wedi'u holrhain o'r fersiwn copi glân flaenorol. Pan wnaed newidiadau arwyddocaol, darparwyd atodlen yn manylu ar y newid a'r rhesymeg.

8.2.3. Y materion allweddol a godwyd yn yr holl Ddiwygiadau oedd:

- A oes angen Gofyniad ynglŷn â therfyn amser ar gyfer gweithredu'r orsaf gynhyrchu [REP1-023] [REP3-012];
- A oes angen Gofyniad ynglŷn â bond ar gyfer datgomisiynu [REP1-023] [REP3-012];
- Taliad Cyflawni, Monitro a Gorfodi gan yr Ymgeisydd [REP1-023] [REP3-012]; a
- Honiad bod yr Ymgeisydd wedi dehongli, ac felly cymhwyso, Canllawiau'r DCLG ar Ddatblygiad Cysylltiedig yn anghywir [REP3-017].

8.2.4. Datryswyd y mater yn ymwneud â thaliad Cyflawni, Monitro a Gorfodi [REP1-023] [REP3-012] er boddhad CCS pan gydnabu bod dileu'r adran ffioedd o Atodlen 12, paragraff 3, yn dderbyniol o ystyried bod Cytundeb Perfformiad Cynllunio wedi cael ei gytuno rhwng partïon o ran ffioedd cyflwyno cais [REP6-012].

8.2.5. Roedd y fersiynau o'r DCO drafft a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn ystod yr Archwiliad fel a ganlyn:

- Cyflwynwyd Diwygiad 1 [REP1-013] (copi glân) a [REP1-014] (newidiadau wedi'u holrhain) mewn ymateb i faterion a godwyd yn yr ISH ar y DCO ar 10 Hydref 2018. Darparwyd rhestr o newidiadau hefyd [REP1-015];
- Cyflwynwyd Diwygiad 2 [REP2-005] (copi glân) a [REP2-006] (newidiadau wedi'u holrhain) mewn ymateb i faterion a godwyd mewn trafodaethau ag IPs, o ExQ1 ac WRs erbyn DL1. Darparwyd rhestr o newidiadau hefyd [REP2-007];
- Cyflwynwyd Diwygiad 3 [REP3-002] (copi glân) a [REP3-003] (newidiadau wedi'u holrhain) gyda mân newidiadau;
- Cyflwynwyd Diwygiad 4 [REP4-002] (copi glân) a [REP4-003] (newidiadau wedi'u holrhain) mewn ymateb i faterion a godwyd yn yr ISH ar y DCO ar 13 Rhagfyr 2018 [EV-011]. Darparwyd rhestr o newidiadau hefyd [REP4-004];

- Cyflwynwyd Diwygiad 5 [REP5-004] (copi glân) a [REP5-005] (newidiadau wedi'u holrhain) gyda mân newidiadau; a
- Chyflwynwyd Diwygiad 6 DCO [REP6-003] (copi glân), [REP6-004] (newidiadau wedi'u holrhain) erbyn DL6. Darparwyd rhestr o newidiadau hefyd [REP6-006].

8.2.6. Ni chafwyd unrhyw sylwadau gan unrhyw breswylwyr lleol nac IPs cymunedol ar unrhyw Ddiwygiad o'r DCO.

8.2.7. Oni nodir yn benodol fel arall, mae'r holl gyfeiriadau at ddarpariaethau yn y DCO drafft yn y bennod hon wedi'u seilio ar Ddiwygiad 6 y DCO drafft, sef y fersiwn derfynol a ffefrir gan yr Ymgeisydd [REP6-003].

8.3. STRWYTHUR Y DCO DRAFFT

8.3.1. Mae'r DCO drafft yn adlewyrchu strwythur a dull drafftio Gorchymyn Hirwaun yn agos.

8.3.2. Gellir crynhoi strwythur y DCO drafft (a gymerwyd o ddiwygiad 6 y DCO drafft a ffefrir gan yr Ymgeisydd [REP6-003]) fel a ganlyn:

Erthyglau

- RHAN 1 RHAGARWEINIOL
 - 1. Enwi a chychwyn
 - 2. Dehongli
- RHAN 2 PRIF BWERAU
 - 3. Caniatâd datblygu, ac ati, a roddir gan y Gorchymyn
 - 4. Cynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig
 - 5. Gweithredu'r datblygiad awdurdodedig
 - 6. Budd y Gorchymyn hwn
 - 7. Caniatâd i drosglwyddo budd y Gorchymyn
- RHAN 3 STRYDOEDD
 - 8. Pŵer i newid gosodiad, ac ati, strydoedd
 - 9. Gwaith stryd
 - 10. Adeiladu a chynnal a chadw dull mynediad newydd neu wedi'i newid
 - 11. Gwahardd neu gyfyngu ar ddefnyddio strydoedd dros dro
 - 12. Cau strydoedd
 - 13. Mynediad i waith
 - 14. Cytundebau ag awdurdodau stryd
 - 15. Rheoleiddio traffig
- RHAN 4 PWERAU ATODOL
 - 16. Gollyngiad dŵr
 - 17. Awdurdod i arolygu ac archwilio'r tir
 - 18. Symud gweddillion dynol ymaith
- RHAN 5 PWERAU CAFFAEL
 - 19. Caffael tir yn orfodol

- 20. Caffael tir yn orfodol – cynnwys y cod mwynau
- 21. Awdurdod statudol i drechu hawddfreintiau a hawliau eraill
- 22. Terfyn amser i arfer yr awdurdod i gaffael tir yn orfodol
- 23. Caffael hawliau, ac ati, yn orfodol
- 24. Hawliau preifat
- 25. Cymhwyso Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981
- 26. Caffael isbridd yn unig
- 27. Addasu Rhan 1 Deddf Prynu Gorfodol 1965
- 28. Hawliau o dan neu dros strydoedd
- 29. Defnydd dros dro o dir mewn cysylltiad â chynnal y datblygiad awdurdodedig
- 30. Defnydd dros dro o dir i gynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig
- 31. Ymgwymerwyr statudol
- 32. Cyfarpar a hawliau ymgwymerwyr statudol mewn strydoedd
- 33. Adennill costau cysylltiadau newydd
- 34. Cyllid
- RHAN 6 GWEITHREDIADAU
 - 35. Cwmpo neu docio coed a thynnu gwrychoedd ymaith
- RHAN 7 AMRYWIOL A CHYFFREDINOL
 - 36. Cymhwyso cyfraith landlord a thenant
 - 37. Tir gweithredol at ddibenion Deddf 1990
 - 38. Amddiffyniad i achosion yn ymwneud â niwsans statudol
 - 39. Darpariaethau amddiffynnol
 - 40. Ardystio cynlluniau ac ati
 - 41. Cyflwyno hysbysiadau
 - 42. Y weithdrefn yn ymwneud â chymeradwyaethau penodol
 - 43. Cymrodeddu
 - 44. Cymhwyso ac addasu darpariaethau deddfwriaethol
- ATODLEN 1 — DATBLYGIAD AWDURDODEDIG
- ATODLEN 2 - GOFYNION
- ATODLEN 3 — STRYDOEDD Y BYDD EU GOSODIAD YN CAEL EI NEWID YN BARHAOL A DROS DRO
 - RHAN 1 — NEWID GOSODIAD YN BARHAOL
 - RHAN 2 — NEWID GOSODIAD DROS DRO
- ATODLEN 4 – STRYDOEDD SY’N DESTUN GWAITH STRYD
- ATODLEN 5 – MYNEDIAD
 - RHAN 1 — Y RHANNAU HYNFY O FYNEDFEYDD SYDD I’W CYNNAL TRWY WARIANT CYHOEDDUS
 - RHAN 2 — Y RHANNAU HYNFY O FYNEDFEYDD SYDD I’W CYNNAL GAN YR AWDURDOD STRYD
 - RHAN 3 — Y GWAITH HYNFY I ADFER MYNEDFEYDD DROS DRO A FYDD YN CAEL EU CYNNAL TRWY WARIANT CYHOEDDUS
 - RHAN 4 — Y GWAITH HYNFY I ADFER MYNEDFEYDD DROS DRO A FYDD YN CAEL EU CYNNAL GAN YR AWDURDOD STRYD

- ATODLEN 6 — GWAHARDD NEU GYFYNGU AR DDEFNYDDIO STRYDOEDD DROS DRO
- ATODLEN 7 — STRYDOEDD SYDD I'W CAU
- ATODLEN 8 — ADDASU DEDDFIADAU IAWNDAL A PHRYNU GORFODOL I GREU HAWLIAU NEWYDD A GOSOD CYFYNGIADAU NEWYDD
- ATODLEN 9 — TIR Y CEIR EI FEDDIANNU DROS DRO
- ATODLEN 10 — TYNNU GWRYCHOEDD YMAITH
- ATODLEN 11 — DARPARIAETHAU AMDDIFFYNNOL
 - RHAN 1 — I AMDDIFFYN YMGYMERWYR TRYDAN, NWY, DŴR A CHARTHFFOSIAETH
 - RHAN 2 — I AMDDIFFYN GWEITHREDWYR RHWYDWEITHIAU COD CYFATHREBU ELECTRONIG
 - RHAN 3 — I AMDDIFFYN Y GRID CENEDLAETHOL
 - RHAN 4 — I AMDDIFFYN WESTERN POWER DISTRIBUTION (SOUTH WALES) PLC
 - RHAN 5 — I AMDDIFFYN DŴR CYMRU CYFYNGEDIG
 - RHAN 6 — I AMDDIFFYN ABERGELLI SOLAR LIMITED
 - RHAN 7 — I AMDDIFFYN WALES AND WEST UTILITIES LIMITED
- ATODLEN 12 — Y WEITHDREFN AR GYFER CYFLAWNI GOFYNION

8.3.3. Rwyf yn fodlon bod strwythur y DCO yn addas i'r diben ac nid wyf yn argymhell unrhyw newidiadau i'r strwythur fel y'i hamlinellir uchod.

8.4. GWEITHREDU'R DCO DRAFFT

8.4.1. Mae'n bwysig disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddrafftio darpariaethau penodol yn y DCO, sy'n benodol i'w amgylchiadau. Disgrifir y rhain nid oherwydd fy mod yn argymhell newidiadau iddynt, ond oherwydd eu bod ychydig yn wahanol i'r dulliau a ddefnyddiwyd mewn DCOs eraill tebyg.

8.4.2. Mae'r DCO yn gwahaniaethu'n glir iawn rhwng terfynau'r Gorchymyn a thir y Gorchymyn [REP6-003]. Ymdriniais â hyn yn fyr ym mharagraffau 2.2.4 -2.2.7 yr adroddiad hwn.

8.4.3. Mae terfynau'r Gorchymyn wedi'u diffinio'n gaeth, i gynnwys tir y byddai'r datblygiad awdurdodedig a Chyfadeilad yr Orsaf Bŵer yn cael eu darparu arno, ochr yn ochr â'r tir y mae ei angen dros dro ar gyfer prosesau adeiladu sy'n gysylltiedig â Chyfadeilad yr Orsaf Bŵer. Diffinnir terfynau'r Gorchymyn yn Erthygl 2(1) fel a ganlyn:

Mae "terfynau'r Gorchymyn" yn golygu'r terfynau a ddangosir ar y cynlluniau gwaith."

8.4.4. Mae'r Cynlluniau Gwaith [APP-053] yn amlygu'n glir y tir cyfyngedig, a amlinellir mewn gwyrdd ar y cynlluniau hynny, sy'n cynrychioli tir o fewn terfynau'r Gorchymyn. Dyma leoliad Gwaith Rhif 1 (A-F) i 4 a amlygir yn Atodlen 1 y DCO, a dyma'r cyfan o'r gwaith y ceisir ei awdurdodi gan y DCO i gyflawni'r orsaf gynhyrchu.

8.4.5. Mewn cyferbyniad, mae tir y Gorchymyn wedi'i ddiffinio'n fwy bras er mwyn, i bob pwrpas, cynnwys terfynau'r Gorchymyn fel is-set ohono,

ond hefyd cynnwys y tir ychwanegol hwnnw y byddai'r holl bwerau eraill a geisir gan yr Ymgeisydd yn cael eu harfer arno, gan gynnwys CA o ran tir a hawliau ar gyfer aliniad arfaethedig y cysylltiad nwy, aliniad y cysylltiad trydanol a TP o ran tir ar gyfer adeiladau'r rhain. Diffinnir tir y Gorchymyn yn Erthygl 2(1) fel a ganlyn:

Mae "tir y Gorchymyn" yn golygu'r tir sy'n ofynnol ar gyfer, neu sy'n ofynnol i hwyluso, neu sy'n atodol i, neu yr effeithir arno gan, y datblygiad awdurdodedig a ddangosir ar y cynlluniau tir ac a ddisgrifir yn y llyfr cyfeirio."

- 8.4.6. Mae'r Cynlluniau Tir [APP-057] yn amlygu'n glir yr ardal fwy o lawer o dir, a amlinellir yn goch ar y cynlluniau hynny, sy'n cynrychioli tir y Gorchymyn.
- 8.4.7. Mae'r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol oherwydd, yn ei dro, mae'r DCO yn rhoi cyfres o hawliau dros dir y Gorchymyn i'w fuddiolwr, sef yr ymgwymerwr, yn ogystal â chaniatâd datblygu ar gyfer Cyfadeilad yr Orsaf Bŵer yn nherfynau'r Gorchymyn. Mae'n gwneud hynny oherwydd nid yw pwerau sy'n berthnasol i faterion fel CA, TP, mynediad a gwaith stryd, draenio, arolygon, a gwaith coed a gwrychoedd yn cael eu rhoi trwy'r caniatadau cynllunio ar wahân o dan TCPA1990 a roddwyd gan CCS ar gyfer aliniadau'r cysylltiad nwy a thrydanol (a roddwyd ar 6 Rhagfyr 2018). Nid yw'r pwerau hyn yn rhoi'r caniatâd datblygu ar gyfer aliniad y cysylltiad nwy a thrydanol, ond maen nhw'n angenrheidiol i alluogi'r aliniadau i gael eu datblygu maes o law.
- 8.4.8. Lle mae'r diffiniad o dir y Gorchymyn yn cyfeirio at '*dir sy'n ofynnol ar gyfer, neu sy'n ofynnol i hwyluso, neu sy'n atodol i, neu yr effeithir arno gan, y datblygiad awdurdodedig*', mae'n ceisio cynnwys yn ei ddiffiniad y tir y tu allan i derfynau'r Gorchymyn y ceisir y pwerau hyn drosto er mwyn cynorthwyo i ddarparu aliniadau'r cysylltiad nwy a thrydanol. Ceir datganiadau tebyg yng nghorff y DCO, a'u diben yw sicrhau nad yw pwerau sy'n berthnasol i ddarparu aliniadau'r cysylltiad nwy a thrydanol wedi'u cyfyngu i derfynau'r Gorchymyn sydd wedi'u diffinio'n gaeth, ond eu bod hefyd yn berthnasol i ardal ehangach tir y Gorchymyn, fel y bo'r angen.
- 8.4.9. Er enghraifft, yn Erthygl 9 (Gwaith stryd), ceir darpariaeth sy'n datgan:

"Caiff yr ymgwymerwr, at ddibenion y datblygiad awdurdodedig, gael mynediad i unrhyw un o'r strydoedd a nodir yn Atodlen 4 (strydoedd sy'n destun gwaith stryd) sydd o fewn tir y Gorchymyn ..."

er mwyn arfer y pŵer a roddir gan yr Erthygl. Diben y dull drafftio hwn yw sicrhau, os bydd angen, bod y pŵer perthnasol ar gael i'w ddefnyddio i gynorthwyo i ddarparu aliniadau'r cysylltiad nwy a thrydanol a ganiatawyd ar dir y Gorchymyn, yn ogystal â datblygu Cyfadeilad yr Orsaf Bŵer o fewn terfynau'r Gorchymyn. Ceir datganiadau tebyg at yr un diben yn Erthygl 11 (gwahardd neu gyfyngu ar ddefnyddio strydoedd dros dro), Erthygl 13 (mynediad i waith), Erthygl 15 (rheoleiddio traffig), Erthygl 16 (gollyngiad dŵr), Erthygl 17 (awdurdod i arolygu ac archwilio'r tir), Erthygl 21 (awdurdod statudol i drechu hawddfreintiau a hawliau

eraill), Erthygl 28 (hawliau o dan neu dros strydoedd), Erthygl 29 (defnydd dros dro o dir i gynnal y datblygiad awdurdodedig) ac Erthygl 35 (cwmpo neu docio coed a thynnu gwrychoedd ymaith).

8.4.10. Y prif reswm am yr holl ddarpariaethau hyn yw sicrhau bod y DCO yn darparu'r pwerau y mae eu hangen ar yr ymgymwrwr i weithredu'r caniatâd cynllunio ar wahân o dan TCPA1990 ar gyfer aliniadau'r cysylltiad nwy a thrydanol a roddwyd ar 6 Rhagfyr 2018 gan CCS. Ni all y DCO ei hun roi caniatâd datblygu ar gyfer yr aliniadau hynny oherwydd nid yw o fewn pwerau DCO yng Nghymru, yr ymgeisiwyd amdano ar y dyddiad y gwnaed y cais hwn, i gynnwys datblygiad o'r fath fel datblygiad cysylltiedig (a115 PA2008).

8.4.11. Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus iawn drwy gydol yr Archwiliad i briodoldeb yr ymagweddau hyn at '*derfynau'r Gorchymyn*', '*tir y Gorchymyn*' a '*datblygiad awdurdodedig*', a'r berthynas rhyngddynt. Rwyf wedi ystyried y cydgysylltiad rhwng y dull drafftio hwn a pholisi perthnasol, ac nid oes unrhyw faterion wedi codi sy'n pwyso yn ei erbyn. Rwyf wedi ystyried a yw'r dull hwn yn achosi unrhyw ansicrwydd ynglŷn â chwmpas y gwaith neu raddau'r Amlen Rochdale a aseswyd, ac rwyf wedi dod i'r casgliad nad yw'n achosi unrhyw ansicrwydd. Yn yr un modd, rwyf wedi ystyried y cydgysylltiad rhwng y dull drafftio hwn a'r materion a godwyd mewn cynrychiolaethau. Rwyf hefyd wedi adolygu'r dull a ddefnyddiwyd ochr yn ochr â'r dull a ddefnyddiwyd mewn DCOs eraill yng Nghymru, a amlygwyd ym Mhennod 3 Adran 3.7 uchod. Nid wyf wedi canfod unrhyw faterion sy'n peri i mi argymhell y dylai'r dull hwn gael ei newid.

8.5. MATERION ANNADLEUOL

8.5.1. Symudodd yr archwiliad o'r DCO yn ei flaen drwy gydol cyfnod yr Archwiliad mewn modd cydweithrediadol ac adeiladol. Cynhaliwyd dau Wrandawriad Mater Penodol ar y DCO, ac yn dilyn hynny cyflwynodd yr Ymgeisydd ddiwygiadau drafft i ymateb i gynrychiolaethau, fy nghwestiynau a thrafodaethau llafar [REP1-015] [REP2-007] [REP6-006].

8.5.2. Cofnodwyd y broses rheoli newid rhwng DCO drafft y cais hyd at Ddiwygiad 6 y DCO [REP6-003] yn llawn gan yr Ymgeisydd mewn proses a gofnodir ym mharagraff 8.2.5 uchod. Cynigiwyd nifer sylweddol o ddiwygiadau, ond diben y rhain i gyd oedd mynd i'r afael â dealltwriaeth, eglurder neu ddehongliad, ac i gydymffurfio ag arfer da o ran drafftio. Mae'r cyfeiriadau at ddogfennau a gynhwysir yno [REP6-006] yn golygu y gellir olrhain yr holl newidiadau annadleuol hyd at Fersiwn 6. Oherwydd hynny, ni chofnodaf nhw yma, a rhoddaf gofnod cyffredinol yn unig, yn amodol ar ystyried y materion technegol dadleuol sydd heb eu datrys yr ymdriniaf â nhw yn adrannau canlynol y Bennod hon, fy mod yn fodlon bod crynswth y newidiadau a wnaed hyd at Ddiwygiad 6 y DCO wedi mynd i'r afael yn briodol â'r holl faterion a gododd yn yr Archwiliad.

8.5.3. Yn rhan o'r broses newid honno, rwyf yn fodlon bod yr holl safonau perfformiad sy'n angenrheidiol i fodloni polisiâu NPS perthnasol a pholisiâu eraill pwysig a pherthnasol, fel y'u nodir ym Mhenodau 3 a 4

uchod, wedi'u bodloni bellach yn y DCO drafft a ffeirir. Rwyf hefyd yn fodlon bod y mesurau lliniaru y mae angen eu sicrhau yn y DCO wedi cael eu darparu.

8.5.4. Erbyn DL7, dim ond tair set o bryderon heb eu datrys nad oedd yr Ymgeisydd wedi'u cynnwys yn llawn yn ei DCO drafft a ffeirir:

- Yr angen am Ofyniad ynglŷn â therfyn amser ar gyfer gweithredu'r orsaf gynhyrchu [REP1-023] [REP3-012];
- Yr angen am Ofyniad ynglŷn â bond ar gyfer datgomisiynu [REP1-023] [REP3-012]; a
- Bod yr Ymgeisydd wedi dehongli, ac felly cymhwyso, Canllawiau'r DCLG ar Ddatblygiad Cysylltiedig yn anghywir [REP3-017].

8.5.5. Ymdrinnir â'r materion hyn ymhellach yn Adran 8.6 isod.

8.6. MATERION DADLEUOL

8.6.1. Mae'r adran ganlynol yn adrodd ar newidiadau i'r DCO drafft a oedd yn destun negodi sylweddol, a chyflwyniadau ysgrifenedig a / neu lafar yn ystod proses yr Archwiliad. Y materion yr anghytunwyd arnynt oedd:

- Bod yr Ymgeisydd wedi dehongli, ac felly cymhwyso, Canllawiau'r DCLG ar Ddatblygiad Cysylltiedig yn anghywir [REP3-017].
- Yr angen am Ofyniad ynglŷn â therfyn amser ar gyfer gweithredu'r orsaf gynhyrchu [REP1-023] [REP3-012]; ac
- Yr angen am Ofyniad ynglŷn â bond ar gyfer datgomisiynu [REP1-023] [REP3-012].

Bod yr Ymgeisydd wedi dehongli, ac felly cymhwyso, Canllawiau'r DCLG ar Ddatblygiad Cysylltiedig yn anghywir [REP3-017]

8.6.2. Dadleuodd Mr Richard Price o Loxley Solicitors, a oedd yn gweithredu ar ran tri AP, y dylai'r rhan o'r cais sy'n ymwneud â'r ffordd fynediad (Gwaith Rhif 2) gael ei hystyried yn ddatblygiad cysylltiedig [REP3-017]. Dadleuodd Mr Price fod y DCO yn ddiffygiol fel y mae wedi'i lunio ar hyn o bryd, ac felly'n annilys, oherwydd y dylai'r cysylltiad trydanol a'r cysylltiad nwy gael eu cynnwys fel rhannau hanfodol o'r Prosiect.

8.6.3. Codais y mater hwn yn yr ISHs ynglŷn â'r DCO [EV-003 ac EV-011] ac ymdrinnir ag ef yng nghrynodeb yr Ymgeisydd o gyflwyniadau llafar [REP3-004] [REP3-005]. Am y rhesymau a roddwyd gennyf ym mharagraffau 2.1.19 – 2.1.26 uchod, rwyf yn fodlon nad oes unrhyw ddatblygiad cysylltiedig o fewn ystyr a115(2) PA2008 wedi'i gynnwys yn y cais.

Yr angen am Ofyniad ynglŷn â therfyn amser ar gyfer gweithredu'r orsaf gynhyrchu [REP1-023] [REP3-012]

- 8.6.4. Mae CCS o'r farn y dylai terfyn amser ar gyfer hyd y caniatâd gael ei gynnwys yn y DCO [REP1-021].
- 8.6.5. Dadleuodd CCS fod gan y Datblygiad Arfaethedig oes ddylunio o 25 mlynedd a bod hyn wedi'i ddatgan yn yr ES drwyddo draw [APP-042] a bod sawl cynllun rheoli wedi'i ysgrifennu i bara am hyd y prosiect yn seiliedig ar yr oes ddylunio hon. Yn ogystal, mae'r prosiect wedi cael ei gynllunio ar gyfer yr oes ddylunio hon, er enghraifft o ran y gofynion arafu ar gyfer gollyngiadau dŵr wyneb na fyddent, o bosibl, yn ddigon mawr i ymdopi â chyfnod hwy pe byddai'r orsaf bŵer yn parhau i weithredu ymhen 75 mlynedd, er enghraifft. Fel y dywedir ym mharagraff 21.1 yr LIR [REP1-021]:
- "Mae'r Cyngor, felly, o'r farn y dylai fod gofyniad sy'n cyfyngu ar oes y Gorchymyn hwn am 25 mlynedd, fel yr aseswyd yn y Datganiad Amgylcheddol."*
- 8.6.6. Aeth CCS ymlaen i ddweud, ym mharagraff 21.3 yr LIR:
- "21.3 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn gamarweiniol os na roddir dull ar waith i gyfyngu ar hyd y Prosiect, gan ei fod yn cyfeirio drwyddo draw at yr oes 25 mlynedd. Os nad oes terfyn yn cael ei gynnwys yn y DCO, gallai barhau i weithredu'n barhaol, sydd hyd yn oed yn fwy tebygol o ystyried y diffiniad presennol o'r term "cynnal" a nodir yn Erthygl 2 y Gorchymyn. Mae'r effeithiau wedi cael eu hasesu'n bennaf fel rhai nad ydynt yn barhaol, a byddai unrhyw ddarllenydd rhesymol yn credu bod hyn yn golygu oes yr orsaf."*
- 8.6.7. Heb y terfyn amser hwn, mae CCS yn credu bod yr ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu camgyfleu a bod yr asesiad a wnaed yn anghywir.
- 8.6.8. Codais y mater hwn yn yr ISHs ynglŷn â'r DCO [EV-003 ac EV-011] ac yn ExQ2. Mewn ymateb i WQ, nid oedd CCS yn gallu cyfeirio at unrhyw DCO a wnaed lle y gosodwyd terfyn amser o'r fath³⁶ [REP4-026].
- 8.6.9. Ymdriniodd yr Ymgeisydd â phryderon CCS yn ymateb yr Ymgeisydd i'r LIR [REP2-003] ac yn ei grynoded o gyflwyniadau llafar [REP1-012] [REP3-004] [REP3-005].
- 8.6.10. Nid oedd yr Ymgeisydd yn credu bod angen gosod terfyn amser ar gyfer gweithredu'r orsaf. Roedd dewis 25 mlynedd yn gyfnod realistig i'w gynnwys yn yr ES i ddarparu sail i ganiatáu i'r asesiadau gael eu cynnal. Erbyn DL1, darparodd yr Ymgeisydd ddadansoddiad sensitifrwydd i ddangos, ar gyfer pob pwnc, pe byddai oes weithredol y prosiect yn fwy na 25 mlynedd, y byddai'r casgliadau yn yr ES yn aros yr un fath (Atodiad 7 [REP1-012]).
- 8.6.11. Yn y ddau ISH ar y DCO, cadarnhaodd CNC y byddai gweithrediad y Datblygiad Arfaethedig yn destun rheolaeth reoleiddiol trwy EP a fyddai'n

³⁶ Gosodwyd terfyn amser yn DCO Cysylltiad Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru – 30 mlynedd – yng ngofyniad 19 y DCO hwnnw.

cael ei rhoi o dan EP Gweithredu'r Orsaf Cynhyrchu Pŵer, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Rhoddodd CNC y drwydded ar gyfer y datblygiad hwn, a fyddai'n cael ei hadolygu'n flynyddol, ar 18 Ionawr 2019. Nid oedd y Drwydded yn cynnwys terfyn amser gweithredu [EV-003] [EV-011].

- 8.6.12. Darparodd yr Ymgeisydd nodyn ôl-wrandawriad ar y Gwrandawriad ISH ar Faterion Amgylcheddol [EV-006] a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2018 [REP3-004]. Dywedodd yr Ymgeisydd:

"Oes weithredol 25 mlynedd yw'r sail i'r asesiad, ac amlinellir hyn yn adran 4.7 yr ES. Mae'r adran hon yn nodi bod tybiaethau a chyfyngiadau'r ES yn cynnwys defnyddio rhychwant oes 25 mlynedd fel achos gwaethaf rhesymol, gan ei fod wedi'i seilio ar oes ddylunio'r offer (sef pa mor hir y mae'r gweithgynhyrchwyr yn disgwyl i'r offer bara, yn amodol ar gynnal a chadw a gweithredu arferol), fel sail i'r asesiad.

O ran y pynciau a gynhwysir yn yr ES sy'n ymwneud ag effeithiau gweithredol, mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â'r dirwedd ac allyriadau i'r aer, y tir a'r dŵr. O ran allyriadau i'r aer, mae dau bwynt i'w hystyried, sef:

1. Bydd y Prosiect bob amser yn cael ei reoleiddio gan yr EP, a adolygir yn flynyddol, a disgwylir i'r gweithredwr gydymffurfio â'r BAT sy'n mynnu gwelliant parhaus mewn perfformiad.

2. Os oes newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol, bydd rhaid i'r gweithredwyr gydymffurfio â'r rheiny trwy'r drwydded fel y gyfundrefn reoleiddiol briodol. Ni fydd y DCO yn gwneud hyn."

- 8.6.13. Pwysleisiodd CCS ei bryder ynglŷn â natur agored y DCO ac y dylai terfyn amser gweithredu gael ei gynnwys yn y caniatâd [REP5-007].

- 8.6.14. Credaf y bydd yr EP yn darparu'r dulliau rheoli gweithredol mewn perthynas ag unrhyw allyriadau a hefyd yn mynnu bod yr allyriadau hynny'n cael eu lleihau pe byddai deddfwriaeth newydd yn darparu ar gyfer hynny.

- 8.6.15. Cytunaf â'r Ymgeisydd fod yr asesiad 25 mlynedd yn darparu senario achos gwaethaf ar gyfer yr AEA, ond mae'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddarparwyd fel Atodiad 7 [REP1-012] yr ymateb yn dangos pe byddai'r Ymgeisydd wedi asesu senario 35 mlynedd, nad oes unrhyw newidiadau wedi'u hamlygu i'r asesiadau nac arwyddocâd effeithiau ar gyfer pob un o Benodau 6-14. Credaf fod casgliadau'r ES [APP-042] yn ddilys ar gyfer oes weithredol o 35 mlynedd neu hwy, fel yn achos draenio, ar gyfer y prosiect.

- 8.6.16. Credaf fod yr ymagwedd a ddefnyddiwyd yn gyson ag AEAu eraill a gynhaliwyd ar gyfer prosiectau o'r math hwn, fel Gorsaf Cynhyrchu Pŵer sy'n Rhedeg ar Nwy Wrecsam, lle'r oedd yr ES yn tybio'r un oes 25 mlynedd ag a ddefnyddir yn y cais presennol. Rhoddwyd caniatâd datblygu i brosiect Wrecsam heb derfyn amser ar weithredu. Yn fy marn i, mae'r asesiad yn yr ES yn gadarn ac yn ddigonol.

- 8.6.17. Nid wyf yn credu bod angen i'r DCO drafft gynnwys Gofyniad ynglŷn â therfyn amser ar gyfer gweithredu oherwydd:
- bydd yr EP yn darparu'r dulliau rheoli gweithredol mewn perthynas ag unrhyw allyriadau a hefyd yn mynnu bod yr allyriadau hynny'n cael eu lleihau pe byddai deddfwriaeth newydd yn cael ei chyflwyno, fel y cadarnhawyd gan CNC;
 - bod yr ymagwedd a ddefnyddiwyd yn gyson ag AEAau eraill a gynhaliwyd ar gyfer prosiectau o'r math hwn; a
 - bod yr asesiad yn yr ES yn gadarn ac yn ddigonol.

Yr angen am Ofyniad ynglŷn â bond ar gyfer datgomisiynu [REP1-023] [REP3-012]

- 8.6.18. Mae CCS o'r farn y dylai bond datgomisiynu gael ei gynnwys yn y DCO [REP1-021].
- 8.6.19. Dadleuodd CCS fod Gofyniad 27(2) [REP1-003] yn dweud '*bydd y safle'n cael ei ddatgomisiynu yn amodol ar gael y cydsyniadau angenrheidiol*', ac ni ystyrir bod y gyfundrefn orfodi'n ddigon cadarn i sicrhau bod y prosiect hwn yn cael ei ddymchwel o ystyried y gost ddymchwel bresennol a ragwelir, sef oddeutu £2,000,000. Awgrymodd CCS y dylid darparu rhestr ddangosol o'r cydsyniadau angenrheidiol hyn pe byddai'r adeilad yn cael ei ddatgomisiynu yn yr hinsawdd bresennol er mwyn cael dealltwriaeth well ohonynt a'r tebygolrwydd o'u sicrhau o fewn graddfa amser resymol. Dadleuodd CCS nad oedd yn eglur ychwaith beth fyddai'n digwydd pe byddai'r cwmni'n diddymu, a dyna pam mae'r Cyngor wedi awgrymu bod bond yn cael ei gyflwyno i sicrhau bod y Datblygiad Arfaethedig yn cael ei ddatgomisiynu.
- 8.6.20. Esboniodd yr Ymgeisydd nad yw'n credu bod angen darparu bond na sicrwydd ariannol arall ar gyfer costau datgomisiynu yn y dyfodol. Dadleuodd yr Ymgeisydd fod Gofyniad 27 [REP1-003] yn darparu dull eglur y gellir ei orfodi i sicrhau bod y gwaith datgomisiynu angenrheidiol yn cael ei wneud o fewn cyfnod penodol o'r adeg pan fo'r orsaf yn rhoi'r gorau i weithredu.
- 8.6.21. Codais y mater hwn yn yr ISHs ynglŷn â'r DCO [EV-003 ac EV-011] ac ymdrinnir ag ef yng nghrynodeb yr Ymgeisydd o gyflwyniadau llafar [REP3-004] [REP3-005].
- 8.6.22. Gwnaeth yr Ymgeisydd ddiwygiadau i'r gofyniad drafft i ychwanegu mwy o fanylion, yn unol â chais CCS, ynglŷn â chynnwys gofynnol y strategaeth ddatgomisiynu (y bwriedir i'w manylion fod yn debyg i'r ffordd y mae'r gofyniad CEMP wedi'i ddrafftio) [REP1-014] (daeth Gofyniad 27 y cyfeirir ato uchod yn Ofyniad 28 yn [REP6-003]).
- 8.6.23. Dadleuodd yr Ymgeisydd fod y dulliau gorfodi yn PA2008 yn llym. Mae torri Gofyniad 28 yn arwain yn syth at atebolrwydd troseddol. Mae'r rhwymedigaeth i ddatgomisiynu a'r atebolrwydd amdano yn perthyn i'r ymgymwrwr, ac ni all eu trosglwyddo i drydydd parti heb ganiatâd yr SoS (heblaw i ddeiliad trwydded nwy neu drydan sydd eisoes yn cael ei reoleiddio). Dadleuodd yr Ymgeisydd fod Deddf Enillion Troseddau 2002

hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol geisio adennill elw sy'n cronni i fusnesau ac unigolion sy'n torri rheolaeth gynllunio, a bod rhan o'r arian a adennillir yn cael ei gadw gan yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol. Darparodd yr Ymgeisydd dystiolaeth o sut mae hyn wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus gan awdurdodau cynllunio yn ddiweddar i adennill symiau sylweddol trwy orchmynion atafaelu mewn rhestr o enghreifftiau a roddir yn Atodiad 8 [REP1-012].

8.6.24. Nododd yr Ymgeisydd nad oes gofyniad polisi cenedlaethol i Ymgeiswyr gynnig bondiau datgomiynu. Nid yw NPS EN-1 nac NPS EN-2 yn mynnu bod Ymgeisydd yn darparu sicrwydd ariannol ar gyfer costau datgomiynu prosiectau ynni o'r math hwn. At hynny, nid oes polisi arall gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig na LIC sy'n ymwneud â darparu sicrwydd ariannol ar gyfer datgomiynu gorsafoedd cynhyrchu sy'n rhedeg ar nwy. Nid yw PPW yn cynnwys unrhyw bolisi perthnasol ar sicrwydd ariannol ar gyfer datgomiynu ac adfer. Nid yw cynllun lleol mabwysiedig CCS a'r cynllun datblygu sydd bellach wedi'i fabwysiadu yn cynnwys unrhyw bolisiau a fyddai'n mynnu bod yr Ymgeisydd yn cynnig bond datgomiynu [REP4-026].

8.6.25. Wrth ymateb i'm WQ 2.0.2, dywedodd CCS nad yw'n ymwybodol o unrhyw DCOs a roddwyd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu nwy na phrosiectau trosglwyddo trydan sydd wedi mynnu bod sicrwydd ariannol yn cael ei sefydlu ar gyfer costau datgomiynu'r datblygiad. Cadarnhaodd CCS nad yw PPW yn cynnwys unrhyw bolisiau o gwbl sy'n cyfeirio at NSIPs, a bod cynllun datblygu mabwysiedig CCS yn dyddio o 2008, cyn i PA2008 ddod i rym. Nododd CCS fod PPW yn ystyried mwyngloddio ac etifeddiaeth safleoedd mwyngloddio segur [REP4-026].

8.6.26. Dywedodd CCS, yn Atodiad A [REP6-012]:

"Mae'r Ymgeisydd yn awgrymu nad yw gwaith ymchwil y cyfeiriodd CCS ato ynglŷn ag "Adfer ac Ôl-ofal Gwaith Glo ac Agregau" yn 2009 yn berthnasol i ddatgomiynu gorsaf cynhyrchu ynni o arwyddocâd cenedlaethol gan ei fod yn ymwneud â glo ac agregau, ac nid oes dystiolaeth gymaradwy o ran datgomiynu gorsafoedd cynhyrchu pŵer.

Mae CCS yn llwyr ymwybodol bod y gwaith ymchwil yn ymwneud â glo ac agregau ac nid datblygiad ynni, ond mae'r egwyddorion a'r gwersi a ddysgwyd o'r ymagwedd hon yn amlwg yn berthnasol i'r cynnig hwn gan fod sawl tebygrwydd a restrir isod. Felly, mae'r gwaith ymchwil hwn yn ystyriaeth berthnasol ac yn bwysig."

8.6.27. Rwyf yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi ystyried effeithiau datgomiynu yn ddigonol yn ei ES [APP-042].

8.6.28. Nid wyf yn credu bod angen i'r DCO drafft gynnwys Gofyniad ynglŷn â bond datgomiynu oherwydd:

- bod Gofyniad 28 [REP6-003] yn darparu dull eglur y gellir ei orfodi i sicrhau bod y gwaith datgomiynu angenrheidiol ar gyfer Gwaith Rhif 1 yn cael ei wneud o fewn cyfnod penodol o'r adeg pan fo'r orsaf yn rhoi'r gorau i weithredu;

- bod yr ymagwedd a ddefnyddiwyd yn gyson â DCOs eraill a wnaed ar gyfer prosiectau o'r math hwn; a
- bod yr asesiad yn yr ES yn gadarn ac yn ddigonol.

8.7. CYTUNDEBAU CYFREITHIOL A CHYDSYNIADAU ERAILL

8.7.1. Mae'r Ymgeisydd, CCS a Sarah Ann Marina Llewellyn wedi cytuno ar Gytundeb adran 106 drafft o dan Ddeddf 1990 yn Atodlenni 1-3 [REP6-007]. Ymdriniais â'r mater hwn yn fyr yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn Adran 1.7. Mae'r cytundeb a106 yn cynnwys rhwymedigaethau yn ymwneud â'r materion canlynol:

- Cynllun Addysg;
- Menter Cadwyn Gyflenwi; a
- Gwelliannau Llwybr Troed.

8.7.2. Ar 9 Ebrill 2019, dywedodd yr Ymgeisydd:

"Atodir y cytundeb adran 106, wedi'i lofnodi gan Ddinas a Sir Abertawe a'r Ymgeisydd. Mae'r ddogfen gyda'r tirfeddiannwr i'w gweithredu ar hyn o bryd, ac yna bydd yn cael ei chwblhau. Cyflwynir y ddogfen atodedig gan nad yw'r Ymgeisydd yn disgwyl cael y ddogfen wedi'i chwblhau cyn diwedd yr Archwiliad. Bydd yr Ymgeisydd yn cyflwyno copi o'r cytundeb wedi'i gwblhau cyn gynted â phosibl, y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu ei ystyried wrth benderfynu p'un ai rhoi caniatâd datblygu" [AS-011].

8.7.3. Mae'r materion yr ymdrinnir â nhw yn y cytundeb adran 106 yn bwysig ac yn berthnasol, a rhoddwyd pwys priodol iddynt yn yr adroddiad hwn. Y profion ar gyfer derbynioldeb rhwymedigaethau cynllunio yw y dylent fod yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio; yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad; ac yn gysylltiedig yn deg ac yn rhesymol â'r datblygiad o ran graddfa a math. Ystyriaaf fod y rhwymedigaethau yn y Cytundeb adran 106 yn bodloni'r profion hyn.

8.7.4. Ystyriaaf fod yr holl ffurfioldebau cyfreithiol ar gyfer cytundeb a106 dilys wedi cael eu bodloni yn y weithred a bod pawb sydd â buddiant yn y tir y mae'n berthnasol iddo wedi ei weithredu ac, felly, y gellir gorfodi'r cytundeb a106 yn eu herbyn nhw a'u holynwyr yn y teitl. Fodd bynnag, cynghorwn yr SoS i roi caniatâd dim ond os yw'n derbyn cytundeb a106 wedi'i gwblhau (dyddiedig) yn gyntaf sydd â'r un telerau yn union â'r drafft cytunedig, wedi'i weithredu'n briodol gan yr HOLL bartïon sy'n dal buddiant yn y tir perthnasol.

8.7.5. Cofnodir a thrafodir y cydsyniadau eraill sy'n angenrheidiol i gyflawni'r Datblygiad Arfaethedig yn Adran 1.8 yr adroddiad hwn uchod. Nid yw'r un ohonynt yn codi unrhyw bryderon ynglŷn â drafftio'r DCO sy'n faterion dadleuol neu'n ymwneud ag achosion o dorri polisi perthnasol y mae angen ymdrin â nhw yma.

8.7.6. Rwyf wedi ystyried y cydsyniadau eraill a gofnodwyd yn Adran 1.8 yr adroddiad hwn. Heb atal awdurdodau eraill rhag arfer disgresiwn ac,

unwaith eto, ac eithrio'r materion sy'n codi o'r cydsyniadau ar gyfer aliniad cysylltiad nwy a thrydanol a drafodaf yn Adran 1.8 uchod, rwyf yn fodlon nad yw'r un ohonynt yn rhwystr arwyddocaol rhag y Datblygiad Arfaethedig nac yn rheswm pam na ddylai'r SoS wneud y DCO ar y ffurf a amlinellir yn Atodiad Ch.

8.8. NIWSANS STATUDOL

8.8.1. Mae rheoliad 5(2)(f) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009 (yr APFP) yn mynnu bod rhaid i gais gael ei gyflwyno gyda.... *"datganiad ynglŷn â ph'un a yw'r cynnig yn ysgogi un neu fwy o'r materion a amlinellir yn adran 79(1) [...] Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac, os felly, sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu eu lliniaru neu gyfyngu arnynt"*. Mae'r rhwymedigaeth hon wedi cael ei chyflawni yn y Datganiad Ymgysylltu (SoE), Adran 79 y Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd, a gyflwynwyd gyda'r cais [APP-060].

8.8.2. Ar ôl ystyried yr SoE yng ngoleuni materion a godwyd mewn cynrychiolaethau, rwyf yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi amlygu cwmpas ffynonellau niwsans posibl yn briodol o ganlyniad i adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig. Rwyf hefyd yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi darparu mesurau lliniaru priodol ar gyfer mathau rhagweladwy o niwsans ac wedi sicrhau hyn yn y DCO, trwy'r gofynion a'r cyfeiriadau at y CEMP R17, y Cynllun Rheoli Llŵch (DMP) R18, y CTMP R21 a'r Cynllun Rheoli Dŵr Wyneb (SWMP) R7. Mae'r SoE yn dod i'r casgliad y bydd perygl niwsans yn ddibwys o ganlyniad i'r mesurau lliniaru a geisir ac a sicheir. Cytunaf â'r casgliad hwn.

8.8.3. Mae Erthygl 38 y DCO yn cynnwys amddiffyniad yn erbyn achos o niwsans statudol o fath a ddarperir yn gyffredin mewn NSIPs. Mae wedi'i ddrafftio yn seiliedig ar y Darpariaethau Model. Cytunaf fod y camau angenrheidiol i leihau perygl digwyddiadau niwsans wedi cael eu cymryd ac nad yw'r ddarpariaeth hon yn clustogi yn erbyn canlyniadau arfer gwael. Mae'n bodoli ac mae'n ddarpariaeth briodol yn erbyn amgylchiadau lle mae niwsans annisgwyl na ellir ei osgoi yn digwydd. O ystyried NPS EN-1, adran 4.14, yng ngoleuni'r wybodaeth yn yr SoE a'r sicrwydd lliniaru a ddarperir yn y DCO, nid wyf yn credu bod angen argymhell newidiadau i'r amddiffyniad arfaethedig a ddarperir.

8.9. CASGLIADAU

8.9.1. Rwyf wedi ystyried pob fersiwn o'r DCO drafft a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd o fersiwn Diwygiad 0 y cais i Ddiwygiad 6, ac wedi ystyried i ba raddau y mae'r DCO drafft terfynol a ffefrir, sef Diwygiad 6 [REP6-003], wedi mynd i'r afael â materion a oedd heb eu datrys. Mae DCO Atodiad Ch yn union yr un fath â Diwygiad 6 yr Ymgeisydd.

8.9.2. Rwyf yn fodlon bod y gofynion sydd wedi'u cynnwys yn y DCO drafft fel y'i diwygiwyd yn ystod yr Archwiliad yn lliniaru effeithiau niweidiol posibl a amlygwyd yn yr ES ac yn mynd i'r afael â materion a godwyd gennyf i ac IPs yn ystod yr Archwiliad.

- 8.9.3. Ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl faterion a godwyd yn y Bennod hon a'r holl faterion sy'n berthnasol i'r DCO a godwyd yng ngweddill yr adroddiad hwn, argymhellaf os yw'r SoS o'r farn y dylid gwneud y DCO, y dylai gael ei wneud ar y ffurf a amlinellir yn Atodiad Ch.

9. CRYNODEB O GANFYDDIADAU A CHASGLIADAU

9.1. CYFLWYNIAD

- 9.1.1. O ran a104 PA2008, deufaf i'r casgliad:

- y byddai gwneud y DCO argymelledig yn cyd-fynd ag:
 - NPSs EN-1, EN-2 ac (i'r graddau cyfyngedig y mae ei gymhwysiad yn berthnasol i ofyniad tir ategol) EN-4 ac EN-5;
 - cynllun Llywodraeth Cymru 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, 2019, sy'n cydnabod yr angen am gynhyrchu ynni nwy yn rhan o'r cymysgedd cynhyrchu ynni sy'n ofynnol i newid i Gymru carbon isel;
 - byddai hefyd yn cyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru a TANs ategol;
 - Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, sy'n sail i ymagwedd y Deyrnas Unedig at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac ymateb iddo. Mae'n mynnu bod allyriadau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill yn cael eu lleihau a bod paratodau'n cael eu gwneud ar gyfer y risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd; a
 - chynllun datblygu lleol CCS a pholisïau eraill perthnasol, sydd oll wedi cael eu hystyried yn yr adroddiad hwn;
- rwyf wedi ystyried yr LIR a gynhyrchwyd gan CCS wrth wneud yr argymhelliad hwn;
- wrth wneud y DCO, byddai'r SoS yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Gyfarwydddebau perthnasol yr Undeb Ewropeaidd fel y'u troswyd yn gyfraith y Deyrnas Unedig trwy reoliadau, yn ogystal â'r ddyletswydd bioamrywiaeth o dan Ddeddf NERC 2006;
- er bod yr SoS yn awdurdod cymwys o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, deufaf i'r casgliad bod y dystiolaeth yn awgrymu na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar safleoedd, rhywogaethau na chynefinoedd Ewropeaidd, ac rwyf wedi ystyried hyn wrth wneud fy argymhelliad;
- y dylai'r SoS roi caniatâd dim ond os yw'n derbyn cytundeb a106 wedi'i gwblhau (dyddiedig) yn gyntaf sydd â'r un telerau yn union â'r drafft cytunedig, wedi'i weithredu'n briodol gan yr holl bartïon sy'n dal buddiant yn y tir perthnasol;
- o ran yr holl faterion eraill a'r holl gynrychiolaethau eraill a dderbyniwyd, nid wyf wedi canfod unrhyw faterion pwysig a pherthnasol a fyddai, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn arwain at argymhelliad gwahanol i hwnnw isod;
- ni fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau niweidiol a fyddai'n drech na'i fuddiannau; ac

- nid oes unrhyw beth i awgrymu y dylid penderfynu ar y cais heblaw yn unol â'r NPSs perthnasol.

9.1.2. O ran y cais am bwerau CA a TP yn y DCO argymelledig, deufaf i'r casgliad:

- y byddai'r Datblygiad Arfaethedig y ceisir y tir a'r hawliau ar ei gyfer yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol, fel yr amlinellir yn yr NPSs;
- bod yr NPSs yn amlygu angen cenedlaethol am gapasiti cynhyrchu trydan, sy'n cynnwys capasiti sy'n deillio o hylosgi nwy;
- bod yr angen i sicrhau'r tir a'r hawliau sy'n angenrheidiol, ac i adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig o fewn graddfa amser fasnachol resymol, yn cynrychioli budd sylweddol i'r cyhoedd;
- bod y golled breifat i'r rhai yr effeithir arnynt:
 - wedi'i lliniaru trwy'r tir a ddewiswyd ar gyfer y cais;
 - cydleoli'r ffordd fynediad a'r cysylltiad trydanol;
 - lleihau lled y ffordd fynediad i'r eithaf; a
 - lleihau graddau'r hawliau a'r buddiannau y bwriedir eu caffael i'r eithaf;
- bod yr Ymgeisydd wedi archwilio'r holl ddewisiadau amgen rhesymol yn lle'r CA a geisir o ran tir, hawliau a buddiannau, ac nid oes dewisiadau amgen y dylid eu ffafrio;
- y byddai cyllid digonol a sicr ar gael i alluogi CA o fewn y cyfnod statudol ar ôl i'r DCO gael ei wneud; ac
- y byddai'r tresmasiad arfaethedig ar hawliau dynol unigolion at ddibenion dilys a fyddai'n cyfiawnhau tresmasiad o'r fath er budd y cyhoedd ac i raddau cymesur.

9.2. YSTYRIED Y CANFYDDIADAU A'R CASGLIADAU

9.2.1. O ystyried yr holl ffactorau uchod gyda'i gilydd, mae achos cymhellol er budd y cyhoedd dros y pwerau CA a geisir o ran y tir CA a ddangosir ar y Cynlluniau Tir. Deufaf i'r casgliad y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio ag a122(2) ac a122(3) PA2008.

9.3. ARGYMHELLIAD

9.3.1. Am yr holl resymau uchod ac yng ngoleuni fy nghanfyddiadau a'm casgliadau ar faterion pwysig a pherthnasol a amlinellir yn yr adroddiad, deufaf i'r casgliad bod yr achos dros y datblygiad wedi cael ei wneud ac y dylai caniatâd datblygu gael ei roi trwy DCO ar y ffurf a atodir yn Atodiad Ch.

ATODIAD A: YR ARCHWILIAD

ATODIAD B: LLYFRGELL YR ARCHWILIAD

ATODIAD C: RHESTR BYRFODDAU

ATODIAD CH: Y DCO ARGYMELLEDIG